



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2000

Wednesday 12 July 2000

Cynnwys *Contents*

- 3 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer
- 3 Ethol i Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio
Election to Planning Decision Committee
- 5 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd
Questions to the First Secretary on Economic Development
- 13 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid
Questions to the Finance Secretary
- 21 Datganiad aar Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad
Statement on the Review of Assembly Procedures
- 28 Datganiad ar Strategaeth Iechyd
Statement on Health Strategy
- 46 Datganiad ar Llais Ifanc
Statement on Young Voice
- 55 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 57 Cymeradwyo Rheoliadau Newid Amserodd Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000
Approval of the Changing School Session Times (Wales) Regulations 2000
- 61 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000
The General Teaching Council for Wales (Functions) Regulations 2000
- 64 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Drafft
Composite Motion: Approval of Draft Orders
- 65 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Annual Report of the Committee on Equality of Opportunity
- 88 Dadl Fer: Carthu Tywod
Short Debate: Sand Dredging
- 96 Pwynt o Drefn
Point of Order

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Mae gennyf gyhoeddiad pwysig. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Busnes, yr wyf wedi gofyn i'r gloch gael ei chanu bum munud cyn dechrau pob Cyfarfod Llawn yn y dyfodol. Bydd hyn yn digwydd am y tro cyntaf yr wythnos nesaf, pan fydd y Cynulliad yn cael ei alw'n ôl.

The Presiding Officer: I have an important announcement. Following a request from the Business Committee, I have asked that the bell be rung five minutes before the start of all future Plenary sessions. This will happen for the first time next week, when the Assembly is recalled.

Ethol i Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio Election to Planning Decisions Committee

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

the National Assembly resolves:

1. That a committee, to be known as Planning Decision Committee 2000/2, be established, in accordance with Standing Order No. 27 to discharge the functions of the Assembly in determining two applications under section 77 and one appeal under section 78 of the Town and Country Planning Act 1990 in respect of the matters identified in the schedule to this motion and that the Assembly's functions in that respect be delegated to that Committee;

2. That the members of that Committee be: Richard Edwards (Chair), Carwyn Jones, Jocelyn Davies and Christine Humphreys.

3. That the Committee shall cease to exist when the Chair of the Committee signs the decision letters in accordance with Standing Order No. 27.16 or on 30 September 2000 whichever is the earlier.

4. That if the Committee shall cease to exist without the Chair having signed decision letters in respect of the matters identified in the schedule to this motion then in that event the functions identified in paragraph 1 above

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiai fod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Sefydlu pwyllgor, a fydd yn dwyn yr enw Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2000/2, a hynny'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 27 er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o ran penderfynu ar ddau gais o dan Adran 77 ac un apêl o dan Adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a bod y swyddogaethau sydd gan y Cynulliad yn hynny o beth yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd: Richard Edwards (Cadeirydd), Carwyn Jones, Jocelyn Davies a Christine Humphreys.

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bodoli pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyrau penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 27.16 neu ar 30 Medi 2000 pa un bynnag fydd y cynharaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bodoli heb i'r Cadeirydd fod wedi llofnodi'r llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna bydd y swyddogaethau a nodir yn

are, in relation to such matter, delegated to the Assembly Secretary for Local Government and Housing (as the First Secretary has a constituency interest in the appeal).

Schedule

Application by Mr and Mrs M Woosnam for the proposed development of a new dwelling and ancillary agricultural building on land at Upper Gwestydd, Cefnmawr, Newtown, Powys.

Application by Mr E Griffiths for the proposed erection of a dwelling and store for mobile shop on land at Y Glyn, Talgarreg, Ceredigion.

Appeal by Edge Developments Limited for the proposed development of a retail warehouse, garden centre and ancillary car parking, landscaping and access arrangements on land immediately east of Culverhouse Cross roundabout bounded by Cowbridge Road West and the Peripheral Distributor Road, Cardiff.

I will explain the reason for the composition of the planning decision committee. The motion seeks to establish a planning decision committee that will discharge the functions of the Assembly in respect of two applications under section 77 and one appeal under section 78 of the Town and Country Planning Act 1990. Richard Edwards, Carwyn Jones, Jocelyn Davies and Christine Humphreys will sit on the proposed planning decision committee.

As one of the cases to be determined is in Cardiff, my colleague, Sue Essex, Secretary for the Environment, Planning and Transport, has decided that it would be inappropriate for her to be a member of the committee. Therefore, Richard Edwards, the Chair of the Environment, Planning and Transport Committee has been selected to chair the planning decision committee.

If the planning decision committee cannot make a determination by the appropriate date, the determination would normally be passed to the First Secretary or the Secretary for the

mharagraff I uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, yn cael eu dirprwyo i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai (gan fod gan y Prif Ysgrifennydd fuddiant etholaethol yn yr apêl).

Atodlen

Cais gan Mr a Mrs M Woosnam ar gyfer bwriad i ddatblygu annedd ac adeilad amaethyddol ategol ar dir yn Gwestydd Uchaf, Cefn-mawr, y Drenewydd, Powys.

Cais gan Mr E Griffiths ar gyfer bwriad i godi annedd a storfa i siop deithiol ar dir yn Y Glyn, Talgarreg, Ceredigion.

Apêl gan Edge Developments Limited ar gyfer bwriad i ddatblygu warws manwerthu, canolfan arddio a lle parcio atodol, tirlunio a threfniadau mynediad ar dir yn union i'r dwyrain o gylchfan Croes Cwrlwys ger Cowbridge Road West a'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol, Caerdydd.

Egluraf y rheswm am gyfansoddiad y pwyllgor penderfyniadau cynllunio. Diben y cynnig yw sefydlu pwyllgor penderfyniadau cynllunio a fydd yn cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt dau gais o dan adran 77 ac un apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd Richard Edwards, Carwyn Jones, Jocelyn Davies a Christine Humphreys yn eistedd ar y pwyllgor penderfyniadau cynllunio arfaethedig.

Gan fod un o'r achosion y mae angen penderfyniad arno yng Nghaerdydd, mae fy nghyd-Aelod, Sue Essex, Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi penderfynu y byddai'n amhriodol iddi hi fod yn aelod o'r pwyllgor. Felly, mae Richard Edwards, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi ei ddethol i gadeirio'r pwyllgor penderfyniadau cynllunio.

Os na all y pwyllgor penderfyniadau cynllunio wneud penderfyniad erbyn y dyddiad priodol, câi'r penderfyniad ei basio fel arfer i'r Prif Ysgrifennydd neu

Environment, Planning and Transport for consideration. However, as one of the cases being considered is in Cardiff, it would be inappropriate for either Rhodri Morgan or Sue Essex to make the determination on this occasion. Therefore, it would be passed to Peter Law, the Secretary for Local Government and Housing, for consideration.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i'w ystyried. Fodd bynnag, gan fod un o'r achosion o dan ystyriaeth yng Nghaerdydd, byddai'n amhriodol i un ai Rhodri Morgan neu Sue Essex wneud y penderfyniad ar yr achlysur hwn. Felly, câi ei basio i Peter Law, yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai, i'w ystyried.

Cynnig: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 38, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Elin
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd Questions to the First Secretary on Economic Development

Cynlluniau Amcan 1 yn Nwyrain De Cymru Objective 1 Schemes in South Wales East

Q1 William Graham: How many Objective 1 schemes in South Wales East are ready to be implemented once the funding has finally been arranged? (OAQ6448)

The First Secretary: I am glad to say, William, that all six Objective 1 local partnerships in the South Wales East area submitted a project to the Welsh European Funding Office for accelerated appraisal and approval ahead of the European Commission's formal approval of the Objective 1 single programming document, which is anticipated next week. An announcement of successful bids is envisaged, therefore, by the end of July. In addition, a number of projects submitted by regional partnerships, of which there are 13 or 14 will also impact on the area.

William Graham: When will the limit on the number of schemes that local authorities can submit as fast-track applications be ended?

The First Secretary: You mean local partnerships and not local authorities. The limit was agreed at the last meeting of the shadow programming monitoring committee. It agreed on one scheme per partnership to try to ensure some geographical equity across the two-thirds of Wales that is covered by the Objective 1 programme, namely the south Wales valleys and west Wales, if you consider that west Wales extends as far as Rhyl. The issue of fast-track applications, therefore, is a one-off issue for July. In September, which will soon be here, there will not be any geographical limitations. It will simply be done on a merit-based procedure. The limit will not bother us too much once the summer begins.

Jocelyn Davies: How do you intend to address the concerns of organisations in south-east Wales in relation to the development of local action plans? Several

C1 William Graham: Faint o gynlluniau Amcan 1 yn Nwyrain De Cymru sydd yn barod i gael eu gweithredu pan fydd y cyllido wedi ei drefnu o'r diwedd? (OAQ6448)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn falch o ddweud, William, fod pob un o'r chwe phartneriaeth leol Amcan 1 yn ardal Dwyrain De Cymru wedi cyflwyno prosiect i Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru am werthusiad a chymeradwyaeth gyflym cyn i'r Comisiwn Ewropeaidd roi ei gymeradwyaeth i'r ddogfen rhaglennu sengl Amcan 1, a ddisgwylir yr wythnos nesaf. Rhagwelir, felly, y cyhoeddir y cynigion llwyddiannus erbyn diwedd Gorffennaf. Yn ogystal, bydd nifer o brosiectau a gyflwynwyd gan y partneriaethau rhanbarthol, rhyw 13 neu 14 ohonynt, hefyd yn effeithio ar yr ardal.

William Graham: Pryd y bydd y cyfyngiad ar y nifer o gynlluniau y gall awdurdodau lleol eu cyflwyno fel ceisiadau trac cyflym yn dod i ben?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych yn golygu partneriaethau lleol, nid awdurdodau lleol. Cytunwyd ar gyfyngiad yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor monitro rhaglennu cysgodol. Cytunwyd ar un cynllun i bob partneriaeth i geisio sicrhau rhyw degwch daeryddol ar draws y ddwy ran o dair o Gymru sydd o fewn y rhaglen Amcan 1, sef cymoedd de Cymru a gorllewin Cymru, os ydych yn credu bod gorllewin Cymru yn ymestyn cyn belled â'r Rhyl. Mater ar gyfer Gorffennaf yn unig yw mater y ceisiadau trac cyflym, felly. Ym mis Medi, a fydd yma'n fuan, ni fydd unrhyw gyfyngiadau daeryddol. Caiff ei wneud yn unol â threfn haeddiant yn unig. Ni fydd y cyfyngiad yn poeni gormod arnom unwaith y bydd yr haf yn dechrau.

Jocelyn Davies: Sut ydych chi'n bwriadu rhoi sylw i bryderon cyrff yn ne-ddwyrain Cymru o safbwynt datblygu cynlluniau gweithredu lleol? Mae sawl pecyn

regional packages have been developed and it seems that these may receive most of the funding. Will you consider pushing for ring-fencing for local plans?

The First Secretary: The Achilles' heel of the way that Objective 1 works has always been that nobody is certain of how the local partnership proposals will intersect with the regional partnership proposals. They could both cover the same ground. We must try to ensure that they do not overlap. They could also leave an area of potential expenditure and job creation uncovered by not including either the local or the regional partnership proposals. We must try to ensure that that problem is resolved. That will be one of the functions of the programme monitoring committee when it ceases to be a shadow committee. We hope to have our first meeting as a real programme monitoring committee next week. We hope that Phil, myself and the other members of the committee will be able to address some of the issues that Jocelyn has raised.

rhanbarthol wedi ei ddatblygu ac mae'n ymddangos y gallai'r rhan fwyaf o'r arian fynd i'r rhain. A wnewch chi ystyried gwthio am glustnodi ar gyfer cynlluniau lleol?

Y Prif Ysgrifennydd: Man gwan y ffordd y mae Amcan 1 yn gweithio erioed yw nad oes neb yn siŵr sut y bydd cynigion y partneriaethau lleol yn croesi ar draws cynigion y partneriaethau rhanbarthol. Gallai'r naill a'r llall fynd dros yr un tir. Rhaid inni geisio sicrhau nad ydynt yn gorgyffwrdd. Gallent hefyd adael maes posibl ar gyfer gwariant a chreu swyddi heb ddarpariaeth gan na fyddai wedi'i gynnwys yng nghynigion y bartneriaeth leol na rhanbarthol. Rhaid inni geisio sicrhau bod y broblem honno yn cael ei datrys. Dyna fydd un o swyddogaethau pwyllgor monitro'r rhaglen pan fydd yn peidio â bod yn bwyllgor cysgodol. Gobeithiwn gael ein cyfarfod cyntaf fel pwyllgor monitro rhaglen go-iawn yr wythnos nesaf. Gobeithiwn y bydd Phil, minnau ac aelodau eraill y pwyllgor yn gallu rhoi sylw i rai o'r materion a godwyd gan Jocelyn.

Amcan 1 (Cymorthdal Gweithredu a Dogfen Ategol y Rhaglen) Objective 1 (Operating Aids and Programme Complement)

Q2 Alun Cairns: Will the First Secretary make a statement on operating aids and the programme complement to support the Objective 1 structural funds programme? (OAQ6452)

The First Secretary: As agreed at the Economic Development Committee on 22 June, I am pursuing this matter with Stephen Timms, the Financial Secretary at the Treasury who is in charge of the issue. The issue concerns having operating aids covered without running into difficulties with the European Commission in terms of state aids, discrimination or other aspects of the Treaty of Rome. Other views held by the Treasury were set out by the relevant Treasury official at a meeting of the Economic Development Committee. The Assembly will be aware of how wide the gulf was between the Treasury official and members of the Economic Development Committee who were putting proposals to him. I am still hopeful that one or two operating aid proposals will see the light of day at the end of these discussions.

C2 Alun Cairns: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gymhorthdal gweithredu a dogfen atodol y rhaglen a fydd yn cynnal rhaglen cronfeydd strwythurol Amcan 1? (OAQ6452)

Y Prif Ysgrifennydd: Fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 22 Mehefin, yr wyf yn mynd ar drywydd y mater hwn gyda Stephen Timms, yr Ysgrifennydd Ariannol yn y Trysorlys sydd yn gyfrifol am y mater. Mae'r mater yn ymwneud â chael cymhorthdal gweithredu heb fynd i anawsterau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â chymorthdaliadau gwladol, gwahaniaethu neu agweddau eraill o Gytundeb Rhufain. Cafodd y safbwyntiau eraill a goleddir gan y Trysorlys eu nodi gan swyddog perthnasol y Trysorlys mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Bydd y Cynulliad yn gwybod mor eang oedd y gagendor rhwng swyddog y Trysorlys ac aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a oedd yn cyflwyno cynigion ger ei fron. Yr wyf yn dal yn obeithiol y bydd un neu ddau o

gynigion cymhorthdal gweithredu yn gweld golau dydd ar ddiwedd y trafodaethau hyn.

Alun Cairns: The Republic of Ireland is often cited as one of the nations that has made the best use of European structural funds. Its success is partly due to the taxation and fiscal levers that were introduced. I am not proposing for a moment that the National Assembly should have any tax-raising or tax-varying powers, but operating aids is one lever that could significantly influence the use of structural funds and lower the taxation requirement of some organisations. What are the latest developments in your negotiations with the Treasury? I did not hold out much hope in the last meeting of the Economic Development Committee.

Alun Cairns: Caiff Gweriniaeth Iwerddon ei dyfynnu'n aml fel un o'r gwledydd sydd wedi gwneud y defnydd gorau o gronfeydd strwythurol Ewrop. Mae ei llwyddiant i'w briodoli'n rhannol i'r mesurau trethu a chyllidol a gyflwynwyd. Nid wyf yn awgrymu am funud y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael unrhyw rym i godi nac amrywio trethi, ond mae cymhorthdal gweithredu yn un mesur a allai ddylanwadu'n sylweddol ar ddefnydd y cronfeydd strwythurol a gostwng gofyniad trethu rhai cyrff. Beth yw'r datblygiadau diweddaraf yn eich negodiadau gyda'r Trysorlys? Ni theimlwn i'n obeithiol iawn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

The First Secretary: You have confirmed what I said. I agree that there was a remarkably wide gulf, which is why we have to choose our targets carefully. It is clear that we are not going to have wide-scale availability of operating aids in terms of tax breaks in the UK Objective 1 areas. However, we might be able to get one or two highly selective schemes that could be called operating aids. I am particularly bullish about the possibility of securing research and development tax breaks for small and medium sized enterprises in the Objective 1 areas. That is a possibility. The Treasury is on very weak ground in resisting that. However, I cannot say at the moment in which areas we will be successful. If we could get one or two operating aids of that kind, which are selective and oriented towards making good some of the deficits in the Welsh economy, such as lack of research and development, we are on to something and we could use those solid arguments to persuade the Treasury to see things our way.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych wedi cadarnhau'r hyn a ddywedais. Cytunaf fod agendor eithriadol o lydan, a dyna pam y mae'n rhaid inni ddewis ein targedau'n ofalus. Mae'n amlwg na fydd cymorthdaliadau gweithredu ar gael ar raddfa eang ar ffurf gostyngiadau treth o fewn ardaloedd Amcan 1 y DU. Fodd bynnag, efallai y gallwn gael un neu ddau o gynlluniau detholus iawn y gellid eu galw'n gymorthdaliadau gweithredu. Yr wyf yn neilltuoel o ffyddiog ynglŷn â'r posibilrwydd o sicrhau gostyngiadau treth ar gyfer ymchwil a datblygu i gwmnïau bach a chanolig eu maint yn yr ardaloedd Amcan 1. Mae hynny'n bosibilrwydd. Mae'r Trysorlys ar dir gwan iawn yn gwrthsefyll hynny. Fodd bynnag, ni allaf ddweud ar hyn o bryd ym mha feysydd y byddwn yn llwyddiannus. Pe gallem gael un neu ddau o gymorthdaliadau gweithredu o'r math hwnnw, sydd yn ddetholus ac yn gogwyddo tuag at wneud iawn am rai o'r diffygion yn economi Cymru, megis diffyg ymchwil a datblygu, mae gennym rywbeth o sylwedd a gallem ddefnyddio'r dadleuon cadarn hynny i berswadio'r Trysorlys i weld pethau yn ein ffordd ni.

Phil Williams: For completion, the programme complement will require specific targets for each measure. What message will your officials use over the summer to determine targets for each measure that are realistic and attainable and demonstrate good

Phil Williams: I'w chwblhau, bydd yn rhaid i ddogfen atodol y rhaglen gynnwys targedau penodol ar gyfer pob mesur. Pa neges fydd eich swyddogion yn ei defnyddio dros yr haf i bennu targedau ar gyfer pob mesur sydd yn realistig a chyraeddadwy ac sydd yn dangos

value for money to the European Union?

The First Secretary: As we reach the stage where we hope that the single programming document will be finally approved next week, we hope that the programme complement will also be approved. That specifies to a certain degree the kind of targets to which Phil refers. We can continue with that process over the summer to refine it further with the European Union so that by the time the first general round of schemes is approved, which we hope will happen in September, it will become clearer whether we have the kind of value for money, seed activity and ability to implement the strategy that will enable the weaker areas of Wales—the weaker two-thirds that lags behind the rest of Wales in terms of prosperity—to see that by 2006-07 the whole of Wales will benefit from having a healthy and self-sustaining economy.

2:12 p.m.

Michael German: The debate that we had with the Treasury official about operating aids was robust, as you know. The fact that they have the potential to give additional support to the Objective 1 area is vital to us. Why, therefore, is the crucial battleground their willingness to provide sectoral intervention across the United Kingdom as a whole, but not to accept regional intervention in the areas of greatest need? Why is the UK Government prepared to have that anomaly, given that it supports devolution in the UK, which, in a sense, is regional intervention for Scotland, Wales and Northern Ireland? Can we not put equal, logical pressure upon the Ministers responsible for this issue in Westminster to ensure that the matter is dealt with?

The First Secretary: It is in the blood, if you are a Treasury official. I am sure that that is true of treasury officials in any country. That is how they are brought up and selected and that is the culture of treasuries wherever they are, with the exception, of course, of Edwina and her Assembly officials. However, we do not have tax revenue generating responsibilities.

gwerth da am arian i'r Undeb Ewropeaidd?

Y Prif Ysgrifennydd: Wrth inni gyrraedd adeg lle'r ydym yn gobeithio y caiff y ddogfen rhaglennu sengl ei chymeradwyo'n derfynol yr wythnos nesaf, gobeithiwn y caiff y ddogfen atodol ei chymeradwyo hefyd. I raddau mae honno'n pennu'r math o dargedau y cyfeiria Phil atynt. Gallwn barhau â'r broses honno dros yr haf i'w mireinio ymhellach gyda'r Undeb Ewropeaidd fel y bydd hi'n gliriach, erbyn i'r cylch cyffredinol cyntaf o gynlluniau gael ei gymeradwyo—gobeithiwn y bydd hynny'n digwydd fis Medi—a oes gennym y math o werth am arian, gweithgarwch hadu a'r gallu i roi'r strategaeth ar waith a fydd yn galluogi ardaloedd gwannaf Cymru—y ddwy ran o dair sydd yn llusgo ar ôl gweddill Cymru yn nhermau ffyniant—i weld y bydd Cymru gyfan erbyn 2006-07 yn elwa o fod ag economi iach a hunangynhaliol.

Michael German: Yr oedd y ddadl a gawsom gyda swyddog y Trysorlys am gymorthdaliadau gweithredu yn un egnïol, fel y gwyddoch. Mae'r ffaith bod y potensial ganddynt i roi cefnogaeth ychwanegol i'r ardal Amcan 1 yn holl bwysig inni. Pam, felly, mai eu parodrwydd i ddarparu ymyrraeth sectoraidd ar draws y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, ond nid i dderbyn ymyrraeth ranbarthol yn yr ardaloedd sydd yn fwyaf eu hangen, sydd wrth graidd y frwydr? Pam fod Llywodraeth y DU yn barod i dderbyn yr anghysonder hwn, o gofio ei bod o blaid datganoli yn y DU, sydd, mewn ystyr, yn ymyrraeth ranbarthol i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon? Oni allwn ni roi'r un pwysau rhesymegol ar y Gweinidogion sydd yn gyfrifol am y mater hwn yn San Steffan i sicrhau yr eir i'r afael â'r mater?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae yn y gwaed, os ydych yn swyddog yn y Trysorlys. Yr wyf yn siŵr bod hynny'n wir am swyddogion trysorlys mewn unrhyw wlad. Dyna sut y maent yn cael eu meithrin a'u dethol a dyna ddiwylliant trysorlysoedd pa le bynnag y maent, ac eithrio, wrth gwrs, Edwina a'i swyddogion yn y Cynulliad. Fodd bynnag, nid oes gennym gyfrifoldebau cynhyrchu refeniw o drethi.

The issue is distortion. That you must not have distortion is built into the European Union structures through the Treaty of Rome. You could say that almost anything that a government does, from ordering a battleship to inventing employment programmes, is a form of distortion. However, if the good that emerges from the distortion is greater than the bad that emerges from it, it is worth doing. What we must do is persuade the Treasury that a programme has more benefits than the disbenefits arising from the distortion. That is why I am hopeful about one or two schemes getting approval, even though they fall under this dreaded heading of 'operating aids', which seems to cause a measure of panic in the Treasury.

Llurgunio yw cnewyllyn y mater. Mae peidio â chaniatáu llurgunio wedi ei ymgorffori yn strwythurau'r Undeb Ewropeaidd drwy Gytundeb Rhufain. Gallech ddweud bod popeth bron a wna llywodraeth, o archebu llong ryfel i ddyfeisio rhaglenni cyflogaeth, yn fath o lurgunio. Fodd bynnag, os yw'r lles a ddaw o'r llurgunio yn fwy na'r drwg a ddaw ohono, mae'n werth ei wneud. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw perswadio'r Trysorlys bod gan raglen fwy o fanteision na'r anfanteision sydd yn deillio o'r llurgunio. Dyna pam yr wyf yn obeithiol y caiff un neu ddau o gynlluniau gymeradwyaeth, er eu bod yn dod o dan y pennawd brawychus 'cymorthdaliadau gweithredu', sydd yn ôl pob golwg yn creu rhyw banig yn y Trysorlys.

Busnes yn yr Amgylchedd Business in the Environment

Q3 Brian Hancock: Has the First Secretary had any meetings with Business in the Environment to help develop business in partnership with environmental initiatives? (OAQ6359)

The First Secretary: No. I would have had no reason to meet Business in the Environment, because it is an England-only organisation. I know that Plaid Cymru does not believe in independence for Wales these days, but going to the extreme of pretending that Wales does not exist is going a bit far, even for today's Plaid Cymru.

There is an equivalent organisation in Wales, the Wales Environment Centre, which fulfils that role. The Assembly is working in close partnership with business and the environment to help develop business and environment initiatives.

Brian Hancock: As you said, Rhodri, the environmental credentials of business give them a competitive edge in the pursuit of a sustainable agenda. You only have to look at the business section of *The Western Mail* today to see several examples of that. What is the Assembly's business and environment campaign, and how can we take advantage of opportunities to place Wales ahead of other

C3 Brian Hancock: A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd gyda Busnes yn yr Amgylchedd i helpu datblygu busnesau mewn partneriaeth â mentrau amgylcheddol? (OAQ6359)

Y Prif Ysgrifennydd: Nac ydwyf. Ni fyddwn wedi cael unrhyw reswm i gwrdd â Busnes yn yr Amgylchedd gan mai corff i Loegr yn unig ydyw. Gwn nad yw Plaid Cymru yn credu mewn annibyniaeth i Gymru y dyddiau hyn, ond mae mynd i'r eithaf o esgus nad yw Cymru'n bodoli yn mynd braidd yn bell, hyd yn oed i Blaid Cymru ein dyddiau ni.

Mae corff cyfatebol yng Nghymru, Canolfan Amgylchedd Cymru, sydd yn cyflawni'r rôl honno. Mae'r Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth agos â busnes a'r amgylchedd i helpu i ddatblygu cynlluniau busnes a'r amgylchedd.

Brian Hancock: Fely dywedwch, Rhodri, mae rhagoriaethau amgylcheddol busnes yn rhoi min cystadleuol iddynt wrth fynd ar drywydd agenda gynaliadwy. Nid oes angen ichi ond edrych yn adran fusnes *The Western Mail* heddiw i weld sawl enghraifft o hynny. Beth yw ymgyrch busnes ac amgylchedd y Cynulliad, a sut y gallwn ni fanteisio ar gyfleoedd i roi Cymru ar y blaen i wledydd

countries in terms of sustainability?

The First Secretary: We have a target of having 500 companies with environmental management systems by 2003. We have much work to do to reach that target. However, that is the target. I am not sure whether any other governmental organisation in Western Europe has set such a specific target for environmental management systems. We have set out our stall with this, in line with the overarching sustainable development obligation in our founding legislation, the Government of Wales Act 1998.

Peter Rogers: What further support can you offer the agricultural communities so that they can contribute to sustainable development while increasing economic viability?

The First Secretary: Sustainable development and environmental awareness are of huge importance to the development of agriculture over the next 10 years. It is important not only to avoid the problems that have arisen in the past, such as organophosphates or substitutes for organophosphates polluting streams, or silage leachate getting into streams and killing plant and fish life, but also in terms of how farms are promoted and the movement towards Tir Gofal and organic conversion schemes. Higher environmental standards and greater environmental awareness are part of the viable future of farms in Wales.

Christine Humphreys: If we are serious about helping Welsh businesses to meet their environmental responsibilities, surely this Assembly should consider helping smaller companies to undertake a process of waste minimisation and encourage larger companies to place environmental criteria in their purchasing policies. Will you consider implementing producer responsibility policies and providing financial incentives to companies that show due regard for environmental protection, should the money become available?

The First Secretary: Waste minimisation is part of a healthy future for many companies

eraill yn nhermau cynaliadwyedd?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae gennym darged i gael 500 o gwmnïau â systemau rheolaeth amgylcheddol erbyn 2003. Mae gennym lawer o waith i'w wneud i gyrraedd y targed hwnnw. Fodd bynnag, dyna'r targed. Nid wyf yn siŵr a oes unrhyw gorff llywodraethol arall yng Ngorllewin Ewrop wedi gosod targed mor benodol o ran systemau rheolaeth amgylcheddol. Yr ydym wedi cyhoeddi ein bwriad, yn unol â'r rhwymedigaeth hollgwmpasog ar ddatblygu cynaliadwy yn ein deddfwriaeth sefydlol, Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Peter Rogers: Pa gymorth pellach y gallwch ei gynnig i gymunedau amaethyddol fel y gallant gyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy tra'n cynyddu eu hyfywdra economaidd?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth amgylcheddol o bwys enfawr i ddatblygiad amaethyddiaeth dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n bwysig nid yn unig i osgoi'r problemau sydd wedi codi yn y gorffennol, megis organoffosffadau neu sylweddau a ddefnyddir yn lle organoffosffadau yn llygru nentydd, neu drwytholch silwair yn cyrraedd nentydd ac yn lladd planhigion a physgod, ond hefyd yn nhermau sut y caiff ffermydd eu hyrwyddo a'r symudiad tuag at Tir Gofal a chynlluniau trosi organig. Mae safonau amgylcheddol uwch a mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol yn rhan o ddyfodol hyfyw ffermydd Cymru.

Christine Humphreys: Os ydym o ddifrif am helpu busnesau Cymru i gyflawni eu dyletswyddau amgylcheddol, oni ddylai'r Cynulliad hwn ystyried helpu cwmnïau llai i ymgymryd â phroses o leihau gwastraff ac annog cwmnïau mwy i roi meini prawf amgylcheddol yn eu polisiau prynu. A wnewch chi ystyried rhoi polisiau cyfrifoldeb-y-cynhyrchydd ar waith a darparu cymhellion ariannol i gwmnïau sydd yn rhoi sylw dyledus i warchod yr amgylchedd, os daw arian ar gael?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae lleihau gwastraff yn rhan o ddyfodol iach i lawer o gwmnïau

in Wales. If companies can get a lead in waste minimisation technology, they will have a healthier bottom-line figure. In discussions with many firms that I have met over the last six months, I have been pleasantly surprised by the extent to which companies take this issue on board. They do not continue to produce goods in a wasteful way until an inspector or regulator tells them not to. They take the issue on board themselves, because they know that it makes good business and environmental sense. I am not sure whether we should give financial inducements for that. If Christine is concerned about a particular area, I will listen to her concerns. Many companies in Wales have good strategies for recycling waste themselves as a form of business, and Sue Essex and I were discussing one an hour ago. They know that, if they minimise waste, they will have a healthier bank balance at the end of the day. Encouraging good practice by giving advice is better than giving companies financial inducements. We are giving companies the right advisory provision to keep their waste levels down and to keep their profits up.

yng Nghymru. Os gall cwmnïau ennill y blaen mewn technoleg lleihau gwastraff, bydd ganddynt ffigur llinell-isaf iachach. Mewn trafodaethau gyda'r llu o gwmnïau yr wyf wedi cwrdd â hwy dros y chwe mis diwethaf, cefais syndod pleserus o weld i ba raddau y mae cwmnïau'n rhoi sylw i'r mater hwn. Nid ydynt yn parhau i gynhyrchu nwyddau mewn ffordd wastraffus hyd nes y bydd arolygydd neu reoleiddiwr yn dweud wrthynt am beidio. Maent yn ymgymryd â'r mater eu hunain, am eu bod yn gwybod bod hynny'n gwneud synnwyr o safbwynt busnes a'r amgylchedd. Nid wyf yn siŵr a ddylem roi cymhellion ariannol tuag at hynny. Os yw Christine yn poeni am faes penodol, gwrandawaf ar ei phryderon. Mae gan lawer o gwmnïau yng Nghymru strategaethau da ar gyfer ailgylchu gwastraff eu hunain fel ffurf o fusnes, ac yr oedd Sue Essex a minnau yn trafod un awr yn ôl. Maent yn gwybod, dim ond iddynt leihau gwastraff, y bydd eu sefyllfa yn y banc yn iachach yn y pen draw. Mae annog arferion da drwy roi cyngor yn well na rhoi cymhellion ariannol i gwmnïau. Yr ydym yn rhoi'r ddarpariaeth gynghori iawn i gwmnïau i gadw eu lefelau gwastraff i lawr a'u helw i fyny.

Busnesau sydd yn Dechrau yn Sir Fynwy Business Start-Ups in Monmouthshire

Q4 David Davies: What measures is the First Secretary taking to help business start-ups in Monmouthshire? (OAQ6417)

C4 David Davies: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i helpu busnesau sydd yn dechrau yn Sir Fynwy? (OAQ6417)

The First Secretary: The generally healthy condition of the economy is the fundamental precondition for a healthy level of business start-ups. Even David must accept that the present condition of the Welsh economy, although not wonderful, is healthy. The level of business start-ups will therefore not be deterred by a lack of demand in the economy. People may have feared boom and bust under a Labour Government, with more bust than boom. That has not happened. People now have confidence following three years of steady growth.

Y Prif Ysgrifennydd: Cyflwr iach yr economi yn gyffredinol yw'r rhagamod sylfaenol er mwyn cael lefel iach o fusnesau yn ymsefydlu. Rhaid i hyd yn oed David dderbyn bod cyflwr economi Cymru ar hyn o bryd, er nad yw'n wych, yn iach. Ni therfir ar lefel y busnesau sydd yn cael eu sefydlu felly gan ddiffyg galw yn yr economi. Efallai fod pobl wedi ofni y ceid ffynnu a methu o dan Lywodraeth Lafur, gyda mwy o fethu nag o ffynnu. Nid yw hynny wedi digwydd. Mae gan bobl hyder erbyn hyn ar ôl tair blynedd o dwf cyson.

The Finance Wales programme will be implemented by the end of the year. Although it will be available preferentially in the Objective 1 area that covers two-thirds of Wales, it will also be available in the rest of

Caiff rhaglen Cyllid Cymru ei rhoi ar waith erbyn diwedd y flwyddyn. Er y bydd ar gael ar delerau blaenoriaethol yn ardal Amcan 1 sydd yn ddwy ran o dair o Gymru, bydd ar gael hefyd yng ngweddill Cymru. Mae cronfa

Wales. The Wales innovation fund for the more hi-tech start-ups, which nevertheless have ambitions to become substantial companies employing 50 or 100 people, has made a good beginning. It is available to companies throughout Wales, including those in Monmouthshire.

David Davies: Does the First Secretary agree that we could make the economy in Wales even healthier by ensuring that large businesses with a rateable value of more than £25,000 are entitled to the same competitive advantages as those in England? Is the First Secretary aware that, during his absence on a trip abroad, the Business Secretary, when asked about this, accepted that there were inconsistencies and implied that we should iron them out? Does the First Secretary agree with that, or was the Business Secretary making up policy on the hoof in his absence?

The First Secretary: I disagree. My understanding was that the question to the Business Secretary involved the differences between the damping scheme in England and Wales, as regards whether it should include a preferential element for small and medium-sized enterprises, with a cut-off point so that large firms cannot benefit from it. Firms that may face large rate increases as a result of the changeover to local authority funding in 1996 should apply the same in England and in Wales.

The Business Secretary has never implied that we should not have a Welsh damping scheme that meets Welsh conditions, after a consultation with business in Wales. We did that last year. Some large firms in Wales thought that it disadvantaged them. I do not accept that it did, especially in the case of Corus, because, even if those firms were located in England, they would not have a sufficiently large rate increase to trigger the mechanism. Although we hear these comments, once you have devolution, you must accept that we can adapt schemes to Welsh conditions. Small and medium-sized enterprises in Wales were happy with what we did last year.

2:22 p.m.

arloesi Cymru i fusnesau newydd sydd yn defnyddio uwch dechnoleg, ac sydd yn anelu at ddod yn gwmnïau sylweddol yn cyflogi 50 neu 100 o bobl, wedi dechrau'n dda. Mae ar gael i gwmnïau ledled Cymru, gan gynnwys y rheini yn Sir Fynwy.

David Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno y gallem wneud economi Cymru yn iachach fyth drwy sicrhau bod busnesau mawr sydd â gwerth trethiannol o fwy na £25,000 â hawl i'r un manteision cystadleuol â'r rheini yn Lloegr? A yw'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol i'r Trefnydd, tra'r oedd ef yn absennol ar daith dramor, dderbyn, pan ofynnwyd iddo am hyn, fod anghysonderau ac iddo awgrymu y dylem wneud i ffwrdd â hwy? A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno â hynny, neu a oedd y Trefnydd yn dyfeisio polisi yn y fan a'r lle yn ei absenoldeb?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn anghytuno. Yn ôl fy nealltwriaeth i yr oedd y cwestiwn i'r Trefnydd yn ymwneud â'r gwahaniaethau rhwng y cynllun lleddfdu yn Lloegr a Chymru, gan ofyn a ddylai gynnwys elfen i ffafrio busnesau bach a chanolig eu maint, gyda thorbywynt fel na all cwmnïau mawr elwa ohoni. Dylai cwmnïau a allai wynebu codiadau mawr yn y dreth yn sgîl y newid i gyllid awdurdodau lleol yn 1996 wneud cais yn yr un ffordd yn Lloegr ag yng Nghymru.

Nid yw'r Trefnydd erioed wedi awgrymu na ddylem gael cynllun lleddfdu i Gymru sydd yn ateb amodau Cymru, ar ôl ymgynghori â busnesau yng Nghymru. Gwnaethom hynny y llynedd. Teimlai rhai cwmnïau mawr yng Nghymru fod hynny yn eu rhoi o dan anfantais. Nid wyf yn derbyn hynny, yn enwedig yn achos Corus, oherwydd, hyd yn oed pe bai'r cwmnïau hynny wedi eu lleoli yn Lloegr, ni fyddai'r cynnydd yn eu trethi yn ddigon mawr i danio'r peirianwaith. Er ein bod yn clywed y sylwadau hyn, cyn gynted ag y ceir datganoli, rhaid ichi dderbyn y gallwn addasu cynlluniau ar gyfer amodau Cymru. Yr oedd cwmnïau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn fodlon â'r hyn a wnaethom y llynedd.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid Questions to the Finance Secretary

Tackling Social Exclusion (Financial Priorities) Mynd i'r Afael ag Allgáu Cymdeithasol (Blaenoriaethau Ariannol)

Q1 Kirsty Williams: What are the Finance Secretary's financial priorities in tackling social exclusion? (OAQ6445)

The Finance Secretary (Edwina Hart): I trust that they are not only my financial priorities or those of the Government of Wales, but also those of the National Assembly. 'Betterwales.com' demonstrates the priority that the Assembly gives to tackling social disadvantage. Communities First is our vision for the most disadvantaged communities and the concept of how they can be regenerated. We will publish the second-stage consultation in August, and in Plenary last week we invited each Committee to support the Communities First programme. The original consultation paper states the need for funding commitment in the long term. We want to build on the £1.7 million per year of the People in Communities programme and the extra £5 million that I have announced previously.

Kirsty Williams: Social exclusion can be found in all areas of Wales, including rural areas. A particular problem in rural areas is the desperate lack of public transport, which hits people hard. This causes inability to get to jobs, training opportunities and vital community services. Do you agree that rural social exclusion needs to be tackled in a more integrated way that looks beyond what was first thought of as the priorities of Communities First?

Edwina Hart: We can deal with rural social exclusion in the same way we deal with social exclusion across the board. However, I understand your points, particularly on transport issues and enhancing the economic development of rural Wales. In rural areas, we must have an approach that will bring together the various schemes that currently exist and make them more cohesive with regard to the use of money.

C1 Kirsty Williams: Beth yw blaenoriaethau ariannol yr Ysgrifennydd Cyllid wrth fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol? (OAQ6445)

Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart): Hyderaf eu bod nid yn unig yn flaenoriaethau ariannol i mi neu i Lywodraeth Cymru, ond hefyd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae 'Gwellcymru.com' yn dangos y flaenoriaeth a rydd y Cynulliad ar fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Cymunedau'n Gyntaf yw ein gweledigaeth ni ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig a'n cysyniad o sut y gellir eu hadfywio. Byddwn yn cyhoeddi'r ymgynghoriad ail gam ym mis Awst, ac yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf gwahodddwyd pob Pwyllgor i gefnogi'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Dywed y papur ymgynghorol gwreiddiol bod angen ymrwymiad cyllido yn y tymor hir. Yr ydym am adeiladu ar £1.7 miliwn y flwyddyn y rhaglen Pobl mewn Cymunedau a'r £5 miliwn ychwanegol a gyhoeddais o'r blaen.

Kirsty Williams: Mae allgáu cymdeithasol i'w weld ym mhob ardal o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Problem neilltuol mewn ardaloedd gwledig yw'r diffyg affwysol o drafnidiaeth gyhoeddus, sydd yn taro pobl yn galed. Mae'n eu rhwystro rhag cyrraedd swyddi, cyfleoedd hyfforddi a gwasanaethau cymunedol hanfodol. A ydych yn cytuno bod angen mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol mewn ffordd fwy integredig sydd yn edrych y tu hwnt i'r hyn y meddyliwyd amdano gyntaf fel blaenoriaethau Cymunedau'n Gyntaf?

Edwina Hart: Gallwn ddelio ag allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad yn yr un ffordd ag y deliwn ag allgáu cymdeithasol yn gyffredinol. Fodd bynnag, deallaf eich pwyntiau, yn enwedig ar faterion trafnidiaeth a gwella datblygiad economaidd cefn gwlad Cymru. Mewn ardaloedd gwledig, rhaid inni ymdrin â hyn mewn ffordd a fydd yn dod â'r gwahanol gynlluniau sydd yn bodoli ar hyn o bryd at ei gilydd a'u gwneud yn fwy cydlynol

o safbwynt defnyddio arian.

Phil Williams: An effective programme for social inclusion such as the Valleys Action Plan, which you did not mention, or Communities First will involve economic development, education, health and social services and local government. What arrangements will be made for joint consultation involving ordinary members of the relevant Committees to discuss the distribution of funding for these programmes between the different headings?

Edwina Hart: The point about how we can join up the work of Committees in this area has not been made to me yet in any real terms except by you. I will give consideration to the whole budgetary process when I look at budgets. You have raised an interesting point and I will take it up with the Assembly Secretaries who have responsibility for Committees to see whether we can have more meetings between Committees. Successful joint meetings of Committees have been held which have focused on certain areas. That might be a welcome initiative if we are to develop these plans in the future.

Lynne Neagle: What discussions has the Assembly Secretary had with the Chancellor about the creation of a children's fund? Do you agree that the creation of such a fund in Wales to enable work by voluntary organisations with children in poverty could play a significant part in tackling child poverty in Wales?

Edwina Hart: I had a discussion about this issue with the Chancellor and other UK Ministers and the Secretary of State for Wales when I was in Scotland recently. A children's fund is a useful vehicle for working with the voluntary sector, which really knows what children's issues are. If we went along that road, it would follow on nicely from the development of the role of the children's commissioner.

David Melding: Does the Finance Secretary agree that the much needed and welcomed improvements in social care, which are ongoing, will need to be funded extensively

Phil Williams: Bydd rhaglen effeithiol o blaid cynhwysiant cymdeithasol megis Cynllun Gweithredu'r Cymoedd, na sonioch chi amdano, neu Cymunedau'n Gyntaf yn cynnwys datblygu economaidd, addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol a llywodraeth leol. Pa drefniadau a wneir ar gyfer cyd-ymgyngori, gan gynnwys aelodau cyffredin y Pwyllgorau perthnasol, i drafod dosbarthiad yr arian ar gyfer y rhaglenni hyn rhwng y gwahanol benawdau?

Edwina Hart: Nid yw'r pwynt ynglŷn â sut y gallwn gydgyssylltu gwaith y Pwyllgorau yn y maes hwn wedi ei wneud wrthyf eto mewn unrhyw dermau gwirioneddol ac eithrio gennych chi. Byddaf yn ystyried y broses gyllidebol yn ei chyfanrwydd wrth edrych ar y cyllidebau. Yr ydych wedi codi pwynt diddorol a byddaf yn ei godi gydag Ysgrifenyddion y Cynulliad sydd yn gyfrifol am Bwyllgorau i weld a allwn gael mwy o gyfarfodydd rhwng Pwyllgorau. Cynhaliwyd cyd-gyfarfodydd llwyddiannus o Bwyllgorau sydd wedi canolbwyntio ar feysydd penodol. Gallai hynny fod yn gam i'w groesawu os ydym am ddatblygu'r cynlluniau hyn yn y dyfodol.

Lynne Neagle: Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad wedi eu cael gyda'r Canghellor ynglŷn â chreu cronfa plant? A ydych yn cytuno y gallai creu cronfa o'r fath yng Nghymru i alluogi mudiadau gwirfoddol i weithio gyda phlant mewn tlodi chwarae rhan sylweddol mewn mynd i'r afael â thlodi ymysg plant yng Nghymru?

Edwina Hart: Cefais drafodaeth ar y mater hwn gyda'r Canghellor ac eraill o Weinidogion y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru pan oeddwn yn yr Alban yn ddiweddar. Mae cronfa plant yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer gweithio gyda'r sector gwirfoddol, sydd yn gwybod o'r gorau beth yw materion plant. Pe baem yn mynd ar hyd y llwybr hwnnw, byddai'n dilyn ymlaen yn dwt o ddatblygu rôl y comisiynydd plant.

David Melding: A yw'r Ysgrifennydd Cyllid yn cytuno y bydd gofyn i'r gwelliannau mewn gofal cymdeithasol, y mae mawr eu hangen ac sydd i'w croesawu, sydd yn mynd

and that that would be a major budget requirement in the future?

Edwina Hart: Social care is an area that we will have to examine in detail in the future. I am aware of the Royal Commission work in certain areas. We have to prioritise social care. A large number of elderly people in Wales enjoy that sort of care provision so it is certain that we will have to take it into account in our budget and think of innovative ways of how to deal with it.

rhagddynt ar hyn o bryd, gael eu cyllido'n helaeth ac y byddai hynny'n ofyniad mawr ar y gyllideb yn y dyfodol?

Edwina Hart: Mae gofal cymdeithasol yn faes y bydd yn rhaid inni edrych arno yn fanwl i'r dyfodol. Yr wyf yn ymwybodol o waith y Comisiwn Brenhinol mewn rhai meysydd. Rhaid inni flaenoriaethu gofal cymdeithasol. Mae nifer fawr o bobl oedrannus yng Nghymru yn mwynhau'r math hwnnw o ddarpariaeth gofal felly mae'n sicr y bydd yn rhaid inni ei gymryd i ystyriaeth yn ein cyllideb a meddwl am ffyrdd arloesol o ymdrin ag ef.

Cyllid Ychwanegol i Iechyd Extra Funding for Health

Q2 Kirsty Williams: What discussions has Edwina Hart had regarding the allocation of extra funding for health from additional finance made available to the Assembly from the UK Treasury? (OAQ6435)

C2 Kirsty Williams: Pa drafodaethau gafodd Edwina Hart ynghylch dyrannu cyllid ychwanegol i iechyd o'r cyllid ychwanegol sydd bellach ar gael i'r Cynulliad o Drysorlys y DU? (OAQ6435)

Edwina Hart: I assume that you are referring to the pre-empting of the comprehensive spending review by the Chancellor when the health consequentials were £153 million for 2001-02, £394 million for 2002-03 and £653 million for 2003-04. I have had discussions with Jane Hutt about that. However, this is an issue for the budget planning round. I welcome the committees' input on the budget process.

Edwina Hart: Yr wyf yn cymryd eich bod yn sôn am y cam cynnar a gymerwyd gan y Canghellor cyn cyhoeddi'r adolygiad cynhwysfawr o wariant gyda chanlyniadau iechyd o £153 miliwn ar gyfer 2001-02, £394 miliwn ar gyfer 2002-03 a £653 miliwn ar gyfer 2003-04. Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Jane Hutt ynglŷn â hynny. Fodd bynnag, mater i'w drafod yng nghylch cynllunio'r gyllideb yw hwn. Croesawaf fewnbwn y pwyllgorau ar broses y gyllideb.

Kirsty Williams: With some 80,000 people waiting for in-patient treatment across Wales, and the poor levels of health that we experience in Wales, can you guarantee that the increase in the Health and Social Services Committee's budget that we have seen this year will be continued in next year's budget plans? Can you also guarantee that any developments arising from an announcement on the comprehensive spending review next week for additional health resources will come to Wales in its full amount?

Kirsty Williams: Gyda rhyw 80,000 o bobl yn disgwyl am driniaeth fel cleifion preswyl ar draws Cymru, a'r lefelau iechyd gwael a brofw'n yng Nghymru, a allwch warantu y bydd y cynnydd yng nghyllideb y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a welsom eleni yn parhau yng nghynlluniau cyllideb y flwyddyn nesaf? A allwch hefyd warantu y bydd unrhyw ddatblygiadau yn deillio o gyhoeddiad ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yr wythnos nesaf ynglŷn ag adnoddau iechyd ychwanegol yn dod i Gymru yn llawn?

Edwina Hart: Anything that comes out of the comprehensive spending review that relates directly to us, is consequential. I will not give any commitment today on what I

Edwina Hart: Mae unrhyw beth sydd yn dod allan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd yn uniongyrchol berthnasol i ni, yn ganlyniadol. Ni roddaf unrhyw addewid

intend to recommend in the budget process. I would be a foolish Finance Secretary if I did not acknowledge some of the Health and Social Services Committee's concerns and the issues in health that affect the people of Wales.

David Lloyd: As you know, I am a simple physician. Can you explain why there was an underspend of £44.8 million in the health budget this year? Can you ensure that this money will not only be carried forward for next year but will be in addition—to coin a phrase—to the budget allocation for next year?

Edwina Hart: I have already made provisions for that money to be carried forward in the health budget. Sometimes there are slippages in certain areas such as projects overrunning into a different financial year and a series of similar issues. There are a considerable number of budgets involved in this. I cannot go into detail today. However, if you would like a written response, I will write to you detailing particular budget headings and give you the main reasons for that underspend.

Nick Bourne: How much extra funding do we need to bring the waiting lists down to the level they were at when Labour came to power three years ago?

Edwina Hart: We can be proud of our record as an administration on the amount of money that we have put into the health service. We must tackle a long-term issue. It is about restructuring the health service and looking at every aspect of it. I can assure you that we are determined to tackle this issue, we will tackle it and we will tackle it within the time of this Assembly because of the Labour administration's commitment to the people of Wales.

heddiw ar yr hyn y bwriadaf ei argymhell ym mhroses y gyllideb. Byddwn yn Ysgrifennydd Cyllid ffôl pe na bawn yn cydnabod rhai o bryderon y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r materion iechyd sydd yn effeithio ar bobl Cymru.

David Lloyd: Fel y gwyddoch, meddyg syml ydwyf fi. A allwch egluro pam fod tanwariant o £44.8 miliwn yn y gyllideb iechyd eleni? A allwch sicrhau y bydd yr arian hwn nid yn unig yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn nesaf ond y bydd yn ychwanegol—os goddefir yr ymadrodd—i ddyraniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Edwina Hart: Yr wyf eisoes wedi gwneud darpariaeth i'r arian hwnnw gael ei gario drosodd yn y gyllideb iechyd. Weithiau ceir llithriant mewn rhai meysydd megis prosiectau'n rhedeg drosodd i flwyddyn ariannol wahanol a chyfres o faterion tebyg. Mae nifer sylweddol o gyllidebau yn rhan o hyn. Ni allaf fanylu heddiw. Fodd bynnag, os hoffech ymateb ysgrifenedig, ysgrifennaf atoch yn manylu ar benawdau penodol o'r gyllideb ac yn rhoi'r prif resymau ichi am y tanwariant.

Nick Bourne: Faint o arian ychwanegol sydd ei angen arnom i ddod â'r rhestrau aros i lawr i'r lefel yr oeddent arni pan ddaeth Llafur i rym dair blynedd yn ôl?

Edwina Hart: Gallwn ymfalchïo yn ein record fel gweinyddiaeth o ran y swm o arian yr ydym wedi ei roi i mewn i'r gwasanaeth iechyd. Rhaid inni fynd i'r afael â mater tymor hir. Mae'n golygu ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd ac edrych ar bob agwedd ohono. Gallaf eich sicrhau ein bod yn benderfynol o fynd i'r afael â'r mater hwn, byddwn yn mynd i'r afael ag ef ac yn mynd i'r afael ag ef o fewn cyfnod y Cynulliad hwn oherwydd ymrwymiad y weinyddiaeth Lafur i bobl Cymru.

Funding Formula for Wales Fformwla Cyllido i Gymru

Q3 Phil Williams: Will Edwina Hart report on any discussions she has had regarding a review of the funding formula for Wales? (OAQ6395)

C3 Phil Williams: A fydd Edwina Hart yn adrodd ar unrhyw drafodaethau a gafodd ynghylch cynnal adolygiad o'r fformwla cyllido i Gymru? (OAQ6395)

Edwina Hart: I have had informal discussions in the Assembly with Cabinet colleagues. I have also had informal discussions with members of the opposition parties. I intend to return to this matter later this year once the outcome of the current Treasury spending review is known. It will be helpful to see what lessons we have learnt from this process.

Phil Williams: Unlike our proposed funding formula for local government which we discussed yesterday, the present Barnett formula makes no specific response to extra needs in Wales, nor does it take into account the huge underfunding of the so-called non-identifiables. Do you agree that taken together, these represent an allocation that is seriously unfair to Wales?

Edwina Hart: I look at it more broadly than that. I could look narrowly at the concept of money and the issue of convergence on the needs that are not taken into account in the Barnett formula. However, I must look critically at the Barnett formula. If we were to have discussions on it, I must consider what issues it would reopen beyond Wales, such as MP's in the north of England. We must be aware of convergence, the issues surrounding it and other funding issues. Once the comprehensive spending review is over, I would welcome a discussion about representations for the future.

Glyn Davies: Does the Finance Secretary agree with the Labour peer, Lord Barnett, who openly states that the formula he introduced some 20 years ago was no more than a short-term measure not intended to last decades? Unfairness has arisen in Wales following UK population movements referred to by Phil Williams and many others. Should you now be undertaking the detailed assessment needed to establish whether Wales would benefit from a review and how could it be taken forward?

Edwina Hart: I answer that Glyn, in the

Edwina Hart: Yr wyf wedi cael trafodaethau anffurfiol yn y Cynulliad gyda'm cyd-Aelodau ar y Cabinet. Cefais drafodaethau anffurfiol hefyd gydag aelodau'r gwrthbleidiau. Bwriadaf ddod yn ôl at y mater hwn yn ddiweddarach eleni unwaith y mae canlyniad adolygiad gwariant cyfredol y Trysorlys yn hysbys. Bydd yn fuddiol gweld pa wersi yr ydym wedi'u dysgu o'r broses hon.

Phil Williams: Yn wahanol i'n fformwla cyllido arfaethedig ar gyfer llywodraeth leol a drafodasom ddoe, nid yw fformwla Barnett ar hyn o bryd yn gwneud unrhyw ymateb penodol i anghenion ychwanegol yng Nghymru, nac yn cymryd i ystyriaeth y tangyllido enfawr ar yr elfennau hynny sydd yn cael eu disgrifio fel rhai na ellir eu hadnabod. A ydych yn cytuno bod y rhain, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn cynrychioli dyraniad sydd yn ddifrifol o annheg i Gymru?

Edwina Hart: Edrychaf arno yn fwy eang na hynny. Gallwn edrych yn gul ar y cysyniad o arian a mater cydgyfeiriant ar yr anghenion nad yw fformwla Barnett yn eu cymryd i ystyriaeth. Fodd bynnag, rhaid imi edrych yn feiriadol ar fformwla Barnett. Pe baem i gael trafodaethau arni, rhaid i mi ystyried pa faterion y byddai yn eu hailagor y tu hwnt i Gymru, megis ASau yng ngogledd Lloegr. Rhaid inni fod yn ymwybodol o gydgyfeiriant, y materion y mae a wnelont ag ef a materion cyllido eraill. Unwaith y bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant drosodd, byddwn yn croesawu trafodaeth ar y sylwadau i'w cyflwyno yn y dyfodol.

Glyn Davies: A yw'r Ysgrifennydd Cyllid yn cytuno â'r arglwydd Llafur, yr Arglwydd Barnett, sydd yn datgan yn agored nad oedd y fformwla a gyflwynodd rhyw 20 mlynedd yn ôl yn ddim ond mesur tymor byr ac nas bwriadwyd i bara degawdau? Mae annhegwch wedi codi yng Nghymru yn sgîl symudiadau ym mhoblogaeth y DU y cyfeiriwyd atynt gan Phil Williams a llawer o bobl eraill. A ddylech chi yn awr fod yn ymgymryd â'r asesiad manwl y mae ei angen i ganfod a fyddai Cymru'n elwa o adolygiad a sut y gellid ei symud yn ei flaen?

Edwina Hart: Atebaf hynny, Glyn, yn y

context that the Barnett formula has produced relatively fair settlements in Wales in the annual expenditure rounds. I know that the formula was devised a long time ago. We were aware when the formula was applied that it would lead to convergence as public expenditure rises. However, that is because public spending in Wales per head is higher than in England. I do not necessarily agree with the all the comments that Lord Barnett made to the Treasury Select Committee in terms of its interpretation of the Barnett formula.

2:32 p.m.

Peter Black: What discussions have you held with colleagues in Scotland about this, because there is an issue about how they will respond to a review of the funding formula? Do you believe that there is a way forward whereby we can reach common ground with Scotland so that we get a fair distribution of funds throughout the United Kingdom?

Edwina Hart: You have hit the nail on the head, Peter, in mentioning discussions that we may want to have with Scotland due to the benefits that that country receives from the Barnett formula. I will not say that I have not discussed the issue in general terms with my counterpart in Scotland. It is an issue that, after the spending review, I would perhaps want to discuss with Scotland and Northern Ireland.

cyd-destun bod fformwla Barnett wedi rhoi setliadau cymharol deg yng Nghymru yn y cychoedd gwariant blynyddol. Gwn i'r fformwla gael ei dyfeisio gryn amser yn ôl. Yr oeddem yn ymwybodol pan gafodd y fformwla ei rhoi ar waith y byddai'n arwain at gydgyfeiriant wrth i wariant cyhoeddus godi. Fodd bynnag, mae hynny am fod gwariant cyhoeddus y pen yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr. Nid wyf o reidrwydd yn cytuno gyda'r holl sylwadau a wnaeth yr Arglwydd Barnett i Bwyllgor Dethol y Trysorlys ynglŷn â'i ddehongliad o fformwla Barnett.

Peter Black: Pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cynnal gyda chydweithwyr yn yr Alban am hyn, oherwydd mae'r ffordd y byddant hwy'n ymateb i adolygiad o'r fformwla cyllido yn ystyriaeth? A ydych yn credu bod ffordd ymlaen lle gallem rannu tir cyffredin gyda'r Alban fel ein bod yn cael dosbarthiad cyllid teg ledled y Deyrnas Unedig?

Edwina Hart: Yr ydych wedi taro'r hoelen ar ei phen, Peter, wrth sôn am drafodaethau y byddem efallai am eu cael gyda'r Alban oherwydd y manteision a dderbynia'r wlad honno o fformwla Barnett. Ni ddywedaf nad wyf wedi trafod y mater yn gyffredinol gyda'm cyd-Ysgrifennydd yn yr Alban. Mae'n fater y byddwn efallai, ar ôl yr adolygiad gwariant, am ei drafod gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Cynllunio Corfforaethol yn y Cynulliad Corporate Planning in the Assembly

Q4 Janet Ryder: Will Edwina Hart make a brief statement on the progress of corporate planning within the National Assembly for Wales? (OAQ6408)

Edwina Hart: My commissioning paper for this year's budget round explained how we intended to revise the corporate plan 'Betterwales.com', alongside the decisions we make on priorities and budgets. I intend to make a full statement on the progress of this agenda when we return in the autumn.

C4 Janet Ryder: A wnaiff Edwina Hart ddatganiad cryno ar hynt cynllunio corfforaethol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ6408)

Edwina Hart: Eglurodd fy mhapur comisiynu ar gyfer cylch y gyllideb eleni sut y bwriadwn adolygu'r cynllun corfforaethol 'Gwellcymru.com', ochr yn ochr â'r penderfyniadau a wnawn ar flaenoriaethau a chyllidebau. Bwriadaf wneud datganiad llawn ar hynt yr agenda hon pan ddychwelwn yn yr hydref.

Janet Ryder: Cross-committee working is one area of corporate planning, which is more than just the cross-cutting issues of sustainable development and equal opportunities. One of the areas with the greatest need for co-operation lies between Peter Law's responsibility for local government and Jane Hutt's responsibility for social services. What are you doing to facilitate joint planning between those departments on matters of grave importance, such as the fact that local government restructuring has meant that some of the Waterhouse recommendations cannot be met?

Edwina Hart: I have discussed this issue recently with the Secretary for Health and Social Services. It is an issue that goes beyond Waterhouse. There are concerns in a number of areas about the working of health and social services. It is pertinent to my budget round in terms of allocation of funds and to whatever hooks I may want to put into a settlement to ensure better co-operation between health and social services. This is an important area. You only have to look at the problems of bed-blocking and other issues that we need to tackle by the type of working required. The concerns of the Health and Social Services Committee about this issue means that it is referred to constantly in its meetings. I have taken on board fully the point that you made.

Janet Ryder: Mae gweithio ar draws pwyllgorau yn un maes o gynllunio corfforaethol, sydd yn fwy na dim ond materion trawsbynciol datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal. Mae un o'r meysydd lle mae'r angen mwyaf am gydweithredu yn gorwedd rhwng cyfrifoldeb Peter Law am lywodraeth leol a chyfrifoldeb Jane Hutt am wasanaethau cymdeithasol. Bydd ydych chi'n ei wneud i hwyluso cyd-gynllunio rhwng yr adrannau hynny ar faterion o bwys dirfawr, megis y ffaith bod ailstrwythuro llywodraeth leol wedi golygu na all rhai o argymhellion Waterhouse gael eu cyflawni?

Edwina Hart: Trafodais y mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar. Mae'n fater sydd yn mynd y tu hwnt i Waterhouse. Mae pryderon mewn nifer o ardaloedd ynglŷn â'r ffordd y mae iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio. Mae'n berthnasol i gylch y gyllideb yn nhermau dyrannu cyllid a pha fachau bynnag y byddaf am eu cynnwys mewn setliad i sicrhau gwell cydweithredu rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hwn yn faes pwysig. Nid oes ond rhaid edrych ar y problemau blocio gwelyau a materion eraill y mae angen inni fynd i'r afael â hwy drwy'r math o weithio sydd yn ofynnol. Mae pryderon y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y mater hwn yn golygu y cyfeirir ato yn gyson yn ei gyfarfodydd. Yr wyf yn derbyn yn llwyr y pwynt a wnaethoch.

Mynd i'r Afael ag Allgáu Cymdeithasol (Blaenoriaethau Cyllidebol) Tackling Social Exclusion (Budget Priorities)

Q5 Peter Black: What are Edwina Hart's budget priorities in tackling social exclusion? (OAQ6386)

Edwina Hart: I refer you to the answer I gave to OAQ6445.

Peter Black: In regard to the comprehensive spending review—which we all are awaiting with bated breath—do you agree that it is important, if we are to tackle social exclusion throughout Wales, that we consider putting more money into local government to provide the services to deal with that problem?

C5 Peter Black: Beth yw blaenoriaethau cyllidebol Edwina Hart wrth fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol? (OAQ6386)

Edwina Hart: Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddais i OAQ6445.

Peter Black: Yng nghyswllt yr adolygiad cynhwysfawr o wariant—yr ydym oll yn disgwyl yn eiddgar amdano—a ydych yn cytuno ei bod yn bwysig, os ydym i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ledled Cymru, ein bod yn ystyried rhoi mwy o arian i lywodraeth leol i ddarparu'r gwasanaethau i ddelio â'r broblem honno?

Edwina Hart: We must look carefully at how we split further funding allocations. Let us be frank—there are pressures in all areas. I acknowledge that there is an element of pressure in local government but there is also pressure within agriculture and health and social services. We will have to look fairly at what type of settlement local government receives, and take it in the context of the discussions on the new formula and the valid points made in debate yesterday about transitional arrangements.

Gareth Jones: Cadarnhaodd adroddiad a gyhoeddwyd ddoe gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, fod ffurf newydd a chynyddol ar allgáu cymdeithasol. Dengys yr arolwg diweddaraf hwn fod cartrefi yn ein hardaloedd tlotaf yn dioddef rhaniad digidol. Dim ond 15 y cant o gartrefi Cymru sydd wedi eu cysylltu â'r rhyngwrwyd, o'i gymharu ag 20 y cant yn Lloegr. Pa ffynonellau cyllidol newydd y gallwn eu disgwyl i ddatrys problemau'r rhaniad digidol yng Nghymru?

Edwina Hart: I was also interested to see the socio-economic group bandings in terms of access to the internet in the report published yesterday. It confirmed some of the worst fears that we have in Wales about access to the internet and in which groups the problem lies. We could consider developing community initiatives to give people in poor areas access to equipment. It is something on which we could build in our Communities First programme to look at areas that you have identified. Janet made a point about joined-up thinking, and it is important that, when we start the budget round, we join up issues such as this across budget headings into a scheme such as Communities First so that we tackle the problems in the poorest communities because they will not get the skills or access. That is the worst type of exclusion.

Edwina Hart: Rhaid inni edrych yn ofalus ar sut yr ydym yn rhannu dyraniadau cyllido pellach. Gadewch inni fod yn onest—mae pwysau ym mhob maes. Cydnabyddaf fod elfen o bwysau mewn llywodraeth leol ond mae hefyd bwysau o fewn amaethyddiaeth ac iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn rhaid inni edrych yn deg ar ba fath o setliad y bydd llywodraeth leol yn ei dderbyn, a'i gymryd yng nghyd-destun y trafodaethau ar y fformwla newydd a'r pwyntiau dilys a wnaethpwyd yn y ddadl ddoe am drefniadau trosiannol.

Gareth Jones: A report, published yesterday by the Office for National Statistics, confirmed that there is a new and increasing form of social exclusion. This recent survey shows that homes in our poorest areas suffer a digital divide. Only 15 per cent of homes in Wales are connected to the internet, compared to 20 per cent in England. What new sources of funding can we expect to solve the problems of the digital divide in Wales?

Edwina Hart: Yr oedd gennyf innau ddiddordeb i weld bandiau'r grwpiau cymdeithasol-economaidd yn nhermau mynediad i'r rhyngwrwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe. Yr oedd yn cadarnhau rhai o'r ofnau gwaethaf sydd gennym yng Nghymru ynglŷn â mynediad i'r rhyngwrwyd ac ym mha grwpiau y mae'r broblem. Gallem ystyried datblygu cynlluniau cymunedol i roi mynediad at gyfarpar i bobl yn yr ardaloedd tlotaf. Mae'n rhywbeth y gallem adeiladu arno yn ein rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i edrych ar y meysydd a nodoch. Gwnaeth Janet bwynt am feddwl mewn ffordd gydgyssylltiedig, ac mae'n bwysig, wrth inni ddechrau cylch y gyllideb, ein bod yn cydgyssylltu materion fel hyn ar draws penawdau cyllidebol i gynllun megis Cymunedau'n Gyntaf er mwyn inni ymaflyd ym mhroblemau'r cymunedau tlotaf oherwydd ni chânt hwy'r sgiliau na'r mynediad. Dyna'r math gwaethaf o allgáu.

Datganiad ar Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad **Statement on the Review of Assembly Procedures**

Y Prif Ysgrifennydd: Hoffwn wneud datganiad i'r Cynulliad ynglŷn â'r gwersi y dylem eu dysgu o'n blwyddyn gyntaf. Mae'r datganiad hwn yn dilyn y trafodaethau yr wyf fi a'r Llywydd wedi'u cael gydag arweinyddion y pleidiau eraill ynglŷn â'r ffordd orau o symud ymlaen.

The fact that we have celebrated our first birthday does not mean that the Assembly should rest on its laurels. We might never agree on every matter of policy that comes before us. However, we have a common interest in ensuring that the Assembly works as efficiently as it can and connects better with the three million of us who live in Wales, in line with the principles of democracy, inclusiveness and openness on which it was founded and which we all share.

During the year, we have occasionally evaluated and changed the way we work. We have amended our Standing Orders many times. We recently streamlined how we deal with routine subordinate legislation. I have proposed changes to make oral questions, particularly those to the First Secretary, more relevant to current issues. However, this has been a piecemeal process.

One year on, we need to carry out a more wide-ranging and fundamental exercise, which considers whether we are truly living up to our expectations and, more importantly, the expectations of those who elected us. We need an honest and thorough examination of how we operate and whether this way allows us to discharge the mandate we have been given in the best way possible. Therefore, the Presiding Officer, the other party leaders and I, propose to institute a review of how the Assembly works. The Presiding Officer or Deputy Presiding Officer will chair the review and the other party leaders, business managers and I will be members of it. We will collectively draw up detailed terms of reference for the review shortly. We all agree that it must be open to all inside and outside the Assembly. Accordingly, the review will

The First Secretary: I want to make a statement to the Assembly about the lessons that we should learn from our first year. This statement follows discussions that the Presiding Officer and I have had with the other party leaders on the best way to proceed.

Nid yw'r ffaith ein bod wedi dathlu ein pen-blwydd cyntaf yn golygu y dylai'r Cynulliad orffwys ar ei fri. Hwyrach na wnawn ni fyth gyuno ar bob mater polisi a ddaw ger ein bron. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb cyffredin mewn sicrhau bod y Cynulliad yn gweithio mor effeithlon ag y gall ac yn cysylltu'n well â'r tri miliwn ohonom sydd yn byw yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion democratiaeth, cynwysoldeb a bod yn agored y seiliwyd y Cynulliad arnynt ac y mae pawb ohonom yn eu rhannu.

Yn ystod y flwyddyn, yr ydym o dro i dro wedi cloriannu a newid y ffordd yr ydym yn gweithio. Newidiasom y Rheolau Sefydlog droeon. Yn ddiweddar yr ydym wedi symleiddio'r ffordd yr ydym yn delio ag is-ddeddfwriaeth arferol. Yr wyf wedi awgrymu newidiadau i wneud cwestiynau llafar, yn enwedig y rheini i'r Prif Ysgrifennydd, yn fwy perthnasol i bynciau'r dydd. Fodd bynnag, proses dameidiog fu hon.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae angen inni gynnal ymarferiad mwy sylfaenol ac eang ei gwmpas, i ystyried a ydym mewn difrif yn cyrraedd ein disgwyliadau ni ac, yn bwysicach, ddisgwyliadau'r rhai a'n hetholodd. Mae angen archwiliad gonest a thrylwyr arnom o'r modd yr ydym yn gweithredu ac a yw'r ffordd hon yn caniatáu inni gyflawni'r mandad a roddwyd inni yn y ffordd orau bosibl. Felly, mae'r Llywydd, arweinwyr y pleidiau eraill a minnau, yn bwriadu sefydlu adolygiad o'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio. Bydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn cadeirio'r adolygiad a bydd arweinwyr y pleidiau eraill, y rheolwyr busnes a minnau yn aelodau ohono. Gyda'n gilydd byddwn yn llunio cylch gorchwyl manwl i'r adolygiad yn fuan. Yr ydym oll yn cytuno bod yn rhaid iddo fod

seek contributions from party groups, individual Assembly backbenchers, the Assembly's partners in business, local government and the voluntary sector, academics with an interest in this topic and others. That approach is fully consistent with the principles of openness and inclusiveness, which the review will seek to entrench in how we work. We will establish a joint secretariat for the review from among my officials, and those of the Presiding Officer. Details of the secretariat and how to contribute to the review will be placed on the intranet and will be available to the public.

Llywydd, the notion that the Assembly needs more time to develop and make itself the focus of Welsh political life is becoming Wales's first home-grown political cliché. Like all clichés, it has a ring of truth about it, but it is not enough to say that and expect us to progress by means of a political Darwinian hidden hand. We must also recognise the strengths and weaknesses in how we work and act on what we find and on what we can all agree. The review is a major part of that and I invite all those with an interest inside and outside the Assembly to make it work in the best way possible, thereby making the Assembly work in the best way possible.

Dafydd Wigley: Diolchaf i Rhodri am ei ddatganiad pwysig. Croesawaf yr adolygiad hwn. Fel plaid, yr ydym yn awyddus i'w weld wrth i ni drafod 'Gwellcymru.com'.

Hoffwn ofyn rhai cwestiynau sydd yn codi o'r datganiad. Yn gyntaf, a wnaiff Rhodri roi arweiniad i ni ynglŷn â'r amserlen y mae'n ei rhagweld ar gyfer derbyn tystiolaeth a dod i gasgliad? Nid ydym am i'r mater hwn redeg ymlaen yn ben agored.

Yn ail, a wnaiff roi sicrwydd i ni y bydd hawl i ni edrych ar sut mae'r drefn deddfu yn gweithio o fewn y fframwaith cyfansoddiadol sydd wedi'i roi i ni? Cofiw'n am y dryswch a gododd yn ddiweddar gyda bathodynau glas ar gyfer pobl anabl. Ar adegau, yr ydym wedi

yn agored i bawb y tu mewn a'r tu allan i'r Cynulliad. Yn unol â hynny, bydd yr adolygiad yn ceisio cyfraniadau gan grwpiau plaid, aelodau unigol meinciau cefn y Cynulliad, partneriaid y Cynulliad mewn busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol, academyddion sydd â diddordeb yn y pwnc hwn ac eraill. Mae'r ymdriniaeth hon yn gwbl gydnaws ag egwyddorion bod yn agored a chynhwysol, y bydd yr adolygiad yn ceisio eu sefydlu'n gadarn yn y ffordd yr ydym yn gweithio. Byddwn yn sefydlu cydysgrifenyddiaeth ar gyfer yr adolygiad o blith fy swyddogion i a rhai'r Llywydd. Caiff manylion yr ysgrifenyddiaeth a sut mae cyfrannu at yr adolygiad eu rhoi ar y fewnwyd a byddant ar gael i'r cyhoedd.

Lywydd, mae'r syniad bod angen mwy o amser ar y Cynulliad i ddatblygu a gwneud ei hun yn ganolbwynt bywyd gwleidyddol Cymru yn troi'n ystrydeb wleidyddol gartref gyntaf Cymru. Fel pob ystrydeb, mae ynddi ryw faint o wirionedd, ond nid yw'n ddigon dweud hynny a disgwyl cynnydd drwy gyfrwng llaw guddiedig Ddarwinaidd wleidyddol. Rhaid inni gydnabod hefyd y cryfderau a'r gwendidau yn y ffordd yr ydym yn gweithio a gweithredu ar yr hyn a ganfyddwn a'r hyn y gall pawb gytuno arno. Mae'r adolygiad yn rhan fawr o hynny a gwahoddaf bawb sydd â buddiant oddi mewn i'r Cynulliad a thu allan iddo i wneud iddo weithio yn y ffordd orau bosibl a, thrwy hynny, wneud i'r Cynulliad weithio yn y ffordd orau bosibl.

Dafydd Wigley: I thank Rhodri for his important statement. I welcome this review. As a party, we are keen to see it as we discuss 'Betterwales.com'.

I wish to ask some questions that arise from the statement. First, will Rhodri give us guidance regarding the timetable that he foresees for receiving evidence and coming to a conclusion? We do not want this matter to run open-endedly.

Secondly, will he assure us that we will have the right to look at how legislative arrangements work within the constitutional framework that has been given to us? We remember the confusion that arose recently about blue badges for disabled people. At

cael ein dal rhwng darpariaethau deddfwriaeth Llundain a'r rheidrwydd inni barchu hawliau dynol. Darganfu Peter Law hynny yr wythnos diwethaf gyda'r Mesur Llywodraeth Leol. A all yr adolygiad edrych ar sut y gall y Cynulliad ddylanwadu ar y rhaglen deddfu yn Llundain i sicrhau bod Aelodau'r Llywodraeth yn gallu gweithredu'r polisiau y maent yn dymuno eu gwneud? A fydd yr adolygiad yn cynnwys rôl Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y Cynulliad a sut y gallwn sicrhau bod y cydweithrediad mwyaf posibl yn datblygu? Er bod yr amgylchiadau yn wahanol, a fyddwn yn ystyried unrhyw wersi sydd wedi codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, megis y rhai y cyfeiriodd Edwina Hart atynt yn ddiweddar mewn cyd-destun arall?

2:42 p.m.

Yn olaf, hoffwn gael sicrwydd na fydd yn rhaid aros am ganlyniad yr adroddiad hwn i weithredu newidiadau sydd yn cael eu trafod eisoes, megis newid dyddiau Cyfarfodydd Llawn a newidiadau lle ceir cytundeb rhwng y pleidiau a dadl dros symud ymlaen heb aros am adolygiad llawn. Cyfeiriodd Rhodri at y newid i gwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd.

Y Prif Ysgrifennydd: Ynglŷn ag amseriad, byddwn i'n bwriadu—ond yr wyf yn awyddus i glywed y farn ar draws y Cynulliad—galw am bapurau a chyfraniadau ysgrifenedig yn ystod yr haf a dechrau'r hydref ac yna nodi dyddiad, er enghraifft diwrnod olaf mis Hydref, ar gyfer derbyn cyfraniadau a cheisiadau ysgrifenedig, er mwyn iddynt gael eu hystyried dros weddill yr hydref a'r gaeaf.

Wedyn, byddem yn cynnal chwech neu saith o sesiynau agored yn ystod yr hydref a'r gaeaf eleni a'r gwanwyn y flwyddyn nesaf i drafod gyda phobl sydd am roi tystiolaeth neu gynnig gwelliannau i'n ffordd o weithredu. Byddai hynny'n ein galluogi i ddod i'n casgliadau terfynol fel bod unrhyw newidiadau yr ydym yn cytuno arnynt yn dod i rym erbyn dechrau sesiwn 2001-02 ym Medi 2001.

O ran a fyddwn yn gallu ystyried materion sydd yn ymwneud â deddfu, yr wyf yn

times, we have been caught between the provisions of London legislation and our obligation to respect human rights. Peter Law found that last week with the Local Government Bill. Can the review look at how the Assembly can influence the legislative programme in London to ensure that Members of the Government can implement the policies that they wish? Will the review include the role of the Secretary of State for Wales in the Assembly and how we can ensure that as much co-operation as possible develops? Although the circumstances are different, will we consider any lessons that have arisen in Scotland and Northern Ireland, such as those to which Edwina Hart recently referred in a different context?

Finally, I would like to have an assurance that we will not have to wait for the outcome of this report to act on changes that are already being discussed, such as changing the days of Plenary sessions and changes where the parties are agreed and where there is an argument for moving forward without waiting for a full review. Rhodri referred to the change to questions to the First Secretary.

The First Secretary: On timing, I would intend—but I am eager to hear the view across the Assembly—to call for papers and written contributions during the summer and beginning of the autumn and then set a date, for example the last day of October, for receiving written contributions and applications, so that they can be considered over the rest of the autumn and winter.

Then, we would hold six or seven open sessions during the autumn and winter this year and the spring of next year to discuss with people who wish to give evidence or propose improvements to our way of operating. That would enable us to reach our final conclusions so that any changes that we can all agree upon come into effect by the beginning of the 2001-02 session in September 2001.

On whether we will be able to consider issues relating to legislation, I am eager that we

awyddus ein bod yn cadw pob plaid sydd wedi ei hethol i'r Cynulliad mewn cytundeb ag egwyddorion yr adolygiad. Felly, cyn belled â'u bod yn faterion technegol, byddwn yn disgwyl i'r pedair plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad fod yn awyddus i helpu gyda'r adolygiad, ond y tu mewn i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Hynny yw, yr ydym yn gweithredu y tu fewn i'r Ddeddf honno ac nid wyf yn awyddus i drafod a ddylem ei newid.

Yr wyf yn hapus i drafod materion technegol ynglŷn â sut y gallwn weithredu'n well y tu fewn i'r Ddeddf honno. Credaf y byddai'r pedair plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad yn cytuno ar hynny. Os oes gwelliannau y gallwn eu gwneud o ran y berthynas gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyda Llundain neu gyda'r broses o wneud deddfwriaeth newydd drosom yn San Steffan ac ati, nid yw hynny'n broblem. Unwaith ichi ddechrau gofyn y cwestiwn mawr ynglŷn â'r Ddeddf, credaf y byddai hollt o fewn y Cynulliad. Nid dyna bwrpas yr adolygiad.

Nick Bourne: I am grateful for the First Secretary's response to Dafydd Wigley. It was not clear in his statement. I raised this issue with him at lunchtime. It is fundamental that this is a review of the Assembly's process and procedures. We are not considering powers. That was made clear when the party leaders met the Presiding Officer to discuss this issue. We are considering the Act's existing framework and seeing how we can make the Assembly more relevant and more effective. We are considering procedures, question time, the role of Committees and so on. I made it clear that I am keen to take part in this review. It is helpful to make this body more relevant but with the caveat that it is within the Act's existing framework. Therefore, I welcome his answer to the points raised by Dafydd Wigley.

There is one point that the First Secretary did not cover in response to Dafydd Wigley's question. That was, whether we would be able to tackle some issues in the interim, while waiting for the full review. There may be urgent points that need attention part way through the review. Rather than wait until

keep every party elected to the Assembly in agreement on the review's principles. Therefore, as long as they are technical matters, I would expect the four parties represented in the Assembly to be eager to help with the review, but within the Government of Wales Act 1998. That is, we act within that Act and I am not eager to discuss whether we should amend it.

I am happy to discuss technical matters about how we can operate better within that Act. I believe that the four parties represented in the Assembly would agree on that. If there are improvements than we can make in terms of the relationship with the Secretary of State for Wales, with London or with the process of making new legislation on our behalf in Westminster and so on, that is not a problem. However, once you start asking the major question about the Act, I believe that there would be a split within the Assembly. That is not the purpose of the review.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar am ymateb y Prif Ysgrifennydd i Dafydd Wigley. Nid oedd yn glir yn ei ddatganiad. Codais y mater hwn gydag ef amser cinio. Mae'n holl bwysig mai adolygiad o broses a gweithdrefnau'r Cynulliad yw hwn. Nid ydym yn ystyried pwerau. Gwnaethpwyd hynny'n glir pan gyfarfu arweinwyr y pleidiau â'r Llywydd i drafod y mater. Yr ydym yn ystyried fframwaith presennol y Ddeddf ac yn gweld sut y gallwn wneud y Cynulliad yn fwy perthnasol ac effeithiol. Yr ydym yn ystyried gweithdrefnau, sesiynau cwestiynau, rôl Pwyllgorau ac yn y blaen. Fe'i gwneuthum yn glir fy mod yn awyddus i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Mae'n fuddiol i wneud y corff hwn yn fwy perthnasol ond gyda'r cafeat y gwneir hynny o fewn fframwaith presennol y Ddeddf. Felly, croesawaf ei ateb i'r pwyntiau a godwyd gan Dafydd Wigley.

Mae un pwynt na ddeliodd y Prif Ysgrifennydd ag ef mewn ymateb i gwestiwn Dafydd Wigley. Hynny yw, a fyddem yn gallu mynd i'r afael â rhai materion yn y cyfamser, tra'n disgwyl am yr adolygiad llawn. Gallai fod pwyntiau brys y mae angen rhoi sylw iddynt ran o'r ffordd drwy'r

perhaps the spring to deal with them, it might be helpful to do so sooner rather than later.

The First Secretary: I do not want to be a piggy in the middle between Plaid Cymru, who may or may not wish to question the Government of Wales Act, and the Conservative group, who certainly would not. However, we can do much through co-operation between the four parties to make the Assembly work better. We have learnt many lessons from the first year. Weaknesses and strengths have been revealed and I am sure that all four parties, working together, can use this review constructively across the board to make the Assembly connect better. That is in all our interests. We must think of the man or woman on the street in Wales. What do they think that we are doing? Can we make ourselves, as the new democracy for Wales, connect better with the people out there?

On whether we can introduce interim improvements, if the four parties represented in the review group thought that we should do so and if their conclusions emerged before September 2001, I would be happy to address improvements earlier. It is in the same spirit as what I said on changes to First Secretary's question time, which we may want to introduce earlier.

Michael German: This is an important first step and we have always recognised that the Assembly will have to grow and develop organically and that devolution in Wales will have to be given room to grow even though some people disagree with that. This is a step towards that growth. I also accept that an all-party approach is essential because it shows that the Assembly is more than the occasional guardian of new politics.

Will you clarify how the review group's activity will filter through the Assembly? Perhaps it will filter through the Committees and Plenary Sessions so that the whole of the Assembly is involved and has a chance to contribute. Will you confirm whether particular interest groups will have an opportunity to make representations? In

adolygiad. Yn hytrach na disgwyl tan y gwanwyn efallai i ddelio â hwy, hwyrach mai buddiol fydd gwneud hynny'n gynharach yn hytrach nag yn hwyrach.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf am gael fy nal yn y canol rhwng Plaid Cymru, a fydd neu na fydd efallai am gwestiynu Deddf Llywodraeth Cymru, a'r grŵp Ceidwadol, na fyddai'n sicr am wneud hynny. Fodd bynnag, gallwn wneud llawer drwy gydweithrediad rhwng y pedair plaid i wneud i'r Cynulliad weithio'n well. Dysgasom lawer o wersi o'r flwyddyn gyntaf. Datgelwyd gwendidau a chryfderau ac yr wyf yn siŵr y gall y pedair plaid, gan weithio gyda'i gilydd, ddefnyddio'r adolygiad hwn yn adeiladol ym mhob ffordd i wneud i'r Cynulliad lunio mwy o gyswllt. Mae hynny er budd pawb ohonom. Rhaid inni feddwl am y dyn neu'r fenyw ar y stryd yng Nghymru. Beth dybiant hwy yr ydym yn ei wneud? A allwn wneud i'n hunain, fel democratiaeth newydd Cymru, lunio gwell cyswllt gyda'r bobl allan yna?

O ran a allwn gyflwyno gwelliannau interim, pe tybiai'r pedair plaid a gynrychiolir yn y grŵp adolygu y dylem wneud hynny a bod eu casgliadau'n ymddangos cyn Medi 2001, byddwn yn falch o roi sylw i welliannau yn gynharach. Mae yn yr un ysbryd â'r hyn a ddywedais am newidiadau i'r sesiwn cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd, y byddwn efallai am eu cyflwyno'n gynharach.

Michael German: Mae hwn yn gam cyntaf pwysig ac yr ydym wedi cydnabod erioed y bydd yn rhaid i'r Cynulliad dyfu a datblygu yn organig ac y bydd yn rhaid rhoi lle i ddatganoli dyfu yng Nghymru er bod rhai pobl yn anghytuno ag ef. Mae hyn yn gam tuag at y twf hwnnw. Derbyniaf hefyd bod gweithredu ar sail yr holl bleidiau yn hanfodol oherwydd mae'n dangos bod y Cynulliad yn fwy na gwarcheidwad ysbeidiol gwleidyddiaeth newydd.

A wnewch chi egluro sut y bydd gweithgaredd y grŵp adolygu yn treiddio drwy'r Cynulliad? Efallai y bydd yn treiddio drwy'r Pwyllgorau a'r Cyfarfodydd Llawn fel bod y Cynulliad cyfan yn cael ei gynnwys ac yn cael cyfle i gyfrannu. A wnewch chi gadarnhau a gaiff grwpiau sydd â buddiant neilltuol y cyfle i gyflwyno sylwadau? Yn

particular, those which were involved in NAAG, some of those involved in the referendum campaign—

Nick Bourne: All of those involved in the referendum campaign.

Michael German: Okay, all of those involved in the referendum campaign, as well as those interested bodies which are keeping a watchful eye on the Assembly including the University College London, which is doing a project on constitutional change. The Assembly's role is constrained—or not, depending on your attitude—by the fact that it has insufficient power. The Secretary of State for Wales is a crucial player in the Assembly's relationship with Westminster. I hope that you can find a way of involving the Secretary of State perhaps more actively than his current involvement of making representations to us.

The First Secretary: You mentioned the Assembly 'growing organically'. That is the key note for the review's conclusions. I am sure that the Government of Wales Act, the NAAG Standing Orders and the way that we have chosen to operate has not made the Assembly a perfect work of art in the first 12 months of its existence. It would be nothing short of a constitutional miracle if we had achieved perfection as a devolutionary body within 12 months and a few weeks of transfer of powers. That is why I am convinced that a great deal of good can come out of this review. It will enable us to grow organically without needing to challenge or change the Government of Wales Act.

The review group will probably put recommendations to the whole of the Assembly. I hope that each party leader represented on the group will have tested its recommendations on their respective parties and will have obtained support for them. I would not want a split vote on this. However, that could be a possibility through the mechanism of the review. I hope that that would not be the case. I would be disappointed if NAAG and other groups such as Robert Hazell and his colleagues in the

arbennig, y rheini a fu â rhan yng Ngrŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, rhai o'r rheini a fu â rhan yn ymgyrch y refferendwm—

Nick Bourne: Pawb o'r rheini a fu â rhan yn ymgyrch y refferendwm.

Michael German: O'r gorau, pawb o'r rheini a fu â rhan yn ymgyrch y refferendwm, yn ogystal â'r cyrff hynny sydd â diddordeb sydd yn cadw llygad manwl ar y Cynulliad gan gynnwys Coleg Prifysgol Llundain, sydd yn gwneud prosiect ar newid cyfansoddiadol. Cyfyngir—neu beidio, yn dibynnu ar eich agwedd—ar rôl y Cynulliad gan y ffaith nad oes ganddo rym digonol. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn chwaraewr hanfodol ym mherthynas y Cynulliad gyda San Steffan. Gobeithiaf y gallwch ganfod ffordd o gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol yn fwy gweithredol efallai na'i ymwneud ar hyn o bryd yn cyflwyno sylwadau inni.

Y Prif Ysgrifennydd: Sonioch am y Cynulliad yn 'tyfu'n organig'. Dyna'r nodyn allweddol ar gyfer casgliadau'r adolygiad. Yr wyf yn siŵr nad yw Deddf Llywodraeth Cymru, Rheolau Sefydlog Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol a'r ffordd yr ydym ni wedi dewis gweithredu wedi gwneud y Cynulliad yn ddarn o gelfyddyd berffaith yn 12 mis cyntaf ei fodolaeth. Ni fyddai'n ddim llai na gwyrrh gyfansoddiadol pe baem wedi cyflawni perfffeithrwydd fel corff datganoledig o fewn 12 mis ac ychydig wythnosau o drosglwyddo pwerau. Dyna pam yr wyf yn argyhoeddedig y gall llawer iawn o les ddod allan o'r adolygiad hwn. Bydd yn ein galluogi i dyfu'n organig heb orfod herio na newid Deddf Llywodraeth Cymru.

Mae'n debyg y bydd y grŵp adolygu yn cyflwyno argymhellion i'r Cynulliad cyfan. Gobeithiaf y bydd pob arweinydd plaid a gynrychiolir ar y grŵp wedi profi ei argymhellion ar eu pleidiau unigol ac wedi cael cefnogaeth iddynt. Ni fyddwn am gael pleidlais ranedig ar hyn. Fodd bynnag, gallai hynny fod yn bosibilrwydd drwy beirianwaith yr adolygiad. Gobeithiaf na fyddai hynny'n digwydd. Byddwn yn siomedig pe na bai Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol a grwpiau eraill

constitution unit of the University College London did not make representations to us or produce a significant paper because they are currently drawing comparisons of how devolution settlements work and whether they work as effectively as they could.

The bridge between this Assembly and Westminster via the Secretary of State for Wales will be of considerable interest to the review. I am sure that we have not got that right in our first year, nor would you expect us to. I am sure that the Secretary of State will be interested in the review's outcome and how we can improve the use of his ability to act as our bridge from the Assembly to the Westminster and Whitehall machine.

2:52 p.m.

Datganiad ar Strategaeth Iechyd Statement on Health Strategy

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): It is a year since the National Assembly assumed full responsibility for health and social services in Wales. We have made substantial progress in developing Welsh solutions for Welsh needs. These solutions are rooted in the fundamental value that we in Wales attach to our public services.

I take this opportunity to bring together the different strands of this work, to show how we are putting our commitment to 'Betterwales.com' into action and addressing Committee priorities. A written report, entitled 'A Healthier Future for Wales', accompanying this statement is available on the intranet and internet.

Over the past year, I was determined to shape health and social services in a way that puts people and their improved health at the forefront of our activities. People are our greatest asset. These include the people who provide health services that care, as well as cure, and social services that protect and

megis Robert Hazell a'i gydweithwyr yn yr uned cyfansoddiad yng Ngholeg Prifysgol Llundain yn cyflwyno sylwadau inni neu'n llunio papur sylweddol oherwydd maent wrthi ar hyn o bryd yn llunio cymariaethau ar sut y mae setliadau datganoli yn gweithio ac a ydynt yn gweithio mor effeithiol ag y gallent.

Bydd y bont rhwng y Cynulliad hwn a San Steffan drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru o gryn ddiddordeb i'r adolygiad. Yr wyf yn siŵr nad ydym wedi cael hynny'n iawn yn ein blwyddyn gyntaf, ac ni fydddech yn disgwyl hynny gennym. Yr wyf yn siŵr y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddordeb yng nghanlyniad yr adolygiad a sut y gallwn wella'r defnydd o'i allu ef i weithredu fel ein pont o'r Cynulliad at beiriant San Steffan a Whitehall.

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Mae'n flwyddyn ers i'r Cynulliad Cenedlaethol ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaethom gynnydd sylweddol o ran datblygu atebion Cymreig i anghenion Cymreig. Mae'r atebion hyn wedi eu gwreiddio yn y gwerth sylfaenol a roddwn ni yng Nghymru ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddod â gwahanol linyddau o'r gwaith hwn ynghyd, i ddangos sut yr ydym yn rhoi ein hymrwymiad yn 'Gwellcymru.com' ar waith ac yn rhoi sylw i flaenoriaethau'r Pwyllgor. Mae adroddiad ysgrifenedig, o dan y teitl 'Dyfodol Iachach i Gymru', i gyd-fynd â'r datganiad hwn ar gael ar y fewnwyd a'r rhyngwyd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yr oeddwn yn benderfynol o lywio iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol mewn ffordd sydd yn rhoi pobl a gwell iechyd iddynt yn flaenaf yn ein gweithgareddau. Pobl yw ein hased bennaf. Maent yn cynnwys y bobl sydd yn darparu gwasanaethau iechyd sydd yn rhoi gofal, yn

provide for some of the most vulnerable members of our community. Also the people who provide the main source of care in the community: family, friends and neighbours who need the recognition, which this Assembly uniquely provides through the carers' strategy, and which was launched at the Assembly yesterday.

I was happy to launch, recently, the human resources strategy for the national health service in Wales, 'Delivering for Patients'. We must find innovative ways of delivering Wales's agenda for health, and plan for the future education, training and development of the workforce. In this new partnership approach, flexible, employee-friendly policies should be the right of everyone who works in the health service, as well as the availability of resources to develop the workforce. Most important of all are those who are the focus of all our efforts, the patients and users of our services. Their needs must be at the forefront of our planning.

Let me make three key claims for the way in which health and social services have been developed over the last 12 months.

First, we made real progress in putting right the years of underfunding which lies at the root of so many of the problems we face in Wales. The allocations made to health authorities in April this year were £196 million, or 9.4 per cent higher than last year's. We increased overall spending on health in Wales by a considerable £293 million, or 11.3 per cent. Local authorities spending on social services this year will be £48 million, 8.5 per cent higher than last year. After many years of financial problems, the NHS in Wales is now making substantial progress towards eliminating in-year deficit. Advice from the service suggests that last year's deficit will be significantly lower than we earlier thought. We are working hard at strengthening financial systems.

ogystal ag yn gwella, a gwasanaethau cymdeithasol sydd yn amddiffyn ac yn darparu ar gyfer rhai o aelodau mwyaf bregus ein cymunedau. Hefyd y bobl sydd yn brif ffynhonnell gofal yn y gymuned: teulu, ffrindiau a chymdogion y mae angen eu cydnabod, ac a gydnabyddir yn unigryw gan y Cynulliad hwn drwy'r strategaeth gofalywr a lansiwyd yn y Cynulliad ddoe.

Yr oeddwn yn falch yn ddiweddar o lansiô'r strategaeth adnoddau gweithlu ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, 'Darparu ar gyfer Cleifion'. Rhaid inni ganfod ffyrdd arloesol o gyflwyno agenda Cymru ar iechyd, a chynllunio ar gyfer addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu i'r dyfodol. O dan y drefn newydd hon o weithio drwy bartneriaeth, dylai pawb sydd yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd fod â hawl i bolisiau hyblyg, clên i'r gweithwyr, yn ogystal â bod adnoddau ar gael i ddatblygu'r gweithlu. Yn bwysicaf oll yw'r rheini sydd yn ffocws i'n holl ymdrechion, y cleifion a defnyddwyr ein gwasanaethau. Rhaid i'w hanghenion hwy fod yn flaenaf yn ein cynllunio.

Gadewch imi wneud tri honiad allweddol am y ffordd y mae'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol wedi eu datblygu dros y 12 mis diwethaf.

Yn gyntaf, gwnaethom gynnydd gwirioneddol o ran gwneud iawn am y blynyddoedd o dan gyllido sydd wrth wraidd cynifer o'r problemau a wynebier gennym yng Nghymru. Yr oedd y dyraniadau i awdurdodau iechyd yn Ebrill eleni £196 miliwn, neu 9.4 y cant yn uwch na'r llynedd. Cynyddwyd y gwariant ar iechyd yng Nghymru drwyddo draw o swm sylweddol o £293 miliwn, neu 11.3 y cant. Bydd gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol eleni yn £48 miliwn, 8.5 y cant yn uwch na'r llynedd. Ar ôl blynyddoedd lawer o broblemau ariannol, mae'r NHS yng Nghymru bellach yn cymryd camau sylweddol tuag at ddileu'r diffyg mewn-blwyddyn. Awgryma gwybodaeth o du'r gwasanaeth y bydd diffyg ariannol y llynedd yn sylweddol is nag a dybiasom yn gynharach. Yr ydym yn gweithio'n galed ar gryfhau systemau ariannol.

Second, with broad consensus and support from the Health and Social Services Committee, we set in place fundamental principles which will shape our decision-making in the future: tackling health inequalities, moving primary care and preventative action to the centre of our thinking, and breaking down the old barriers within the professions—across NHS organisations and between health and social services.

Third, we succeeded in mobilising, energising and harnessing an enormous network of interests and effort in developing health and social services in Wales. I am determined that the future of health and social services policy-making in Wales will engage all patients, users, carers and staff. A people-centred service is a vehicle for change as well as engagement. The Audit Commission report on local health groups in Wales, which was published last week, suggested that the Welsh solution of local health groups is shaped by those core cultural values of partnership, collaboration and enthusiasm for the job. These values have been fundamental in producing health improvement programmes in which the local health groups have played an essential part. Health improvement programmes are now the cornerstone of local planning of health services, based on health need. These provide the basis for service change and performance management, so it is vital that all interests work collaboratively in their production. From local health groups to local health alliances and the emergency pressures taskforce, we have established a series of forums which, through co-operation, can plan and shape a modern range and quality of care.

We moved radically to reshape the way in which we engage with the most disadvantaged communities in Wales, where ill-health and poverty reside. The Communities First programme provides a long-term commitment by the Assembly to devising solutions which involve local people determining their needs and priorities, and

Yn ail, gyda chonsensws eang a chefnogaeth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sefydlasom egwyddorion sylfaenol a fydd yn llunio ein proses benderfynu yn y dyfodol: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gwneud gofal sylfaenol a gweithredu ataliol yn ganolog i'n meddylfryd, a dymchwel yr hen rwystrau o fewn y proffesiynau—ar draws cyrff yr NHS a rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Yn drydydd, llwyddasom i ysgogi, nerthu a harneisio rhwydwaith enfawr o fuddiannau ac ymdrech wrth ddatblygu iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yr wyf yn benderfynol y bydd llunio polisi ym maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i'r dyfodol yn ennyn cyfranogiad yr holl gleifion, defnyddwyr, gofalwyr a staff. Mae gwasanaeth â phobl yn ganolog iddo yn gyfrwng o blaid newid yn ogystal ag ennyn cyfranogiad. Awgrymai adroddiad y Comisiwn Archwilio ar grwpiau iechyd lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, fod ateb Cymru o grwpiau iechyd lleol wedi ei lunio gan y gwerthoedd diwylliannol craidd hynny o bartneriaeth, cydweithio a brwdfrydedd tuag at y dasg. Bu'r rhain yn werthoedd sylfaenol wrth lunio'r rhaglenni gwella iechyd y chwaraewyd rhan holl bwysig gan y grwpiau iechyd lleol ynddynt. Rhaglenni gwella iechyd yw conglfaen y gwaith lleol o gynllunio gwasanaethau iechyd, seiliedig ar anghenion iechyd, erbyn hyn. Rhoddant sylfaen ar gyfer newid y gwasanaeth a rheoli perfformiad, felly mae'n holl bwysig fod yr holl fuddiannau'n gweithio gyda'i gilydd i'w cynhyrchu. O'r grwpiau iechyd lleol i gynghreiriau iechyd lleol a'r tasglu pwysau brys, yr ydym wedi sefydlu cyfres o fforymau sydd, drwy gydweithrediad, yn gallu cynllunio a llywio amrediad modern o ofal o safon.

Cymerasom gamau radical i ail-wampio'r ffordd yr ydym yn llunio perthynas gyda'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, lle mae afiechyd a thlodi yn ymgartrefu. Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn rhoi ymrwymiad tymor hir gan y Cynulliad i ddyfeisio atebion sydd yn golygu bod pobl leol yn pennu eu hanghenion a'u

planning across the wide range of policy issues which impact on health. In securing improved resources, developing a framework of principles and generating a collaborative culture, these are substantial achievements at any time and are the result of our collaborative effort over the last 15 months. Without the Assembly, and your decision in the Assembly to add further to the budget allocation, the resource base for health and social services would not have been raised to its present level. Without the Assembly, we would not have succeeded in thrashing out a set of principles that are both radical and right for Wales. Without the Assembly, we would not have seen the surge of willingness to contribute towards better health and wellbeing in Wales that has been such a feature of our first 12 months.

How have we addressed the main priorities? In the hospital sector, £40 million has been made available to tackle waiting times and winter pressures. Yet improving health and social care is not only about spending more money. It is about making better use of the money that we have so that the performance of our services challenges the best. That is why agreed targets have been set in relation to waiting times and winter pressures. It is now the responsibility of health authorities and trusts, working with others, to meet those targets. Performance management means that those who have been given the tools and the resources must expect to complete the job within the agreed timeframe. Heart disease, cancer and mental health services are priorities for action. The additional £25 million has been made available to address needs in these priority areas on top of earlier decisions made to modernise mental health in Wales.

In this coming year, we will see the reports of three key working groups. The NHS Wales strategy that will be published later this year will set out a long-term perspective for the NHS. The Health and Social Services Committee has already received a first account of the emerging conclusions of the acute hospital services review. This indicates

blaenoriaethau, a chynllunio ar draws yr ystod eang o faterion polisi sydd yn effeithio ar iechyd. Wrth sicrhau gwell adnoddau, datblygu fframwaith egwyddorion a chreu diwylliant o gydweithredu, mae llwyddiannau sylweddol ar unrhyw adeg a dyna ffrwyth ein hymdrech gydweithredol dros y 15 mis diwethaf. Heb y Cynulliad, a'ch penderfyniad chi yn y Cynulliad i ychwanegu ymhellach at ddyraniad y gyllideb, ni fyddai'r sylfaen adnoddau ar gyfer iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi codi i'w lefel bresennol. Heb y Cynulliad, ni fyddem wedi llwyddo i gytuno ar set o egwyddorion sydd yn radical a hefyd yn iawn i Gymru. Heb y Cynulliad, ni fyddem wedi gweld y don o barodrydd i gyfrannu tuag at well iechyd a lles yng Nghymru a fu'n gymaint nodwedd o'n 12 mis cyntaf.

Sut yr ydym wedi rhoi sylw i'r prif flaenoriaethau? Yn sector yr ysbytai, darparwyd £40 miliwn i fynd i'r afael ag amserau aros a phwysau dros y gaeaf. Ond nid dim ond mater o wario mwy o arian yw gwella iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn golygu gwneud gwell defnydd o'r arian sydd gennym fel bod perfformiad ein gwasanaethau yn herio'r gorau. Dyna pam y mae targedau y cytunwyd arnynt wedi eu pennu mewn perthynas ag amserau aros a phwysau dros y gaeaf. Cyfrifoldeb yr awdurdodau a'r ymddiriedolaethau iechyd bellach, yn gweithio gydag eraill, yw cyflawni'r targedau hynny. Mae rheoli perfformiad yn golygu bod yn rhaid i'r rheini y rhoddwyd yr arfau a'r adnoddau iddynt ddisgwyl cwblhau'r dasg o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Mae clefyd y galon, canser a gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaethau gweithredu. Darparwyd y £25 miliwn ychwanegol i roi sylw i anghenion yn y meysydd blaenoriaeth hyn, yn ychwanegol at benderfyniadau cynharach i foderneiddio iechyd meddwl yng Nghymru.

Dros y flwyddyn i ddod, gwelwn adroddiadau tri gweithgor allweddol. Bydd strategaeth NHS Cymru sydd i'w chyhoeddi'n ddiweddarach eleni yn cyflwyno persbectif tymor hir ar gyfer yr NHS. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi derbyn adroddiad cyntaf ar y casgliadau sydd yn dod allan o

a secure future for the district general hospitals in Wales. This must be linked to the primary care strategy, bringing primary care centre stage in NHS provision. It will also define the environment in which local health groups can move forward to reach their potential. The NHS resource allocation review steering group, chaired by Professor Peter Townsend, will assist in the central task of ensuring that our spending is directed towards the areas of greatest need and disadvantage. Both of these reports, and others, will require change. In health and social services, the issues of resources and reform go hand in hand. Organisations must be ready to put innovation and modernisation ahead of vested interests in the status quo.

The third important report that will make a difference in Wales over the coming 12 months is that of the emergency pressures taskforce. Members of the Health and Social Services Committee will recognise the authority with which that taskforce has been able to go about its work, and the practical proposals that it has brought together. Through its efforts we will improve the way in which we are able to respond to pressure on services over the coming winter. I am delighted to be able to announce that I want the taskforce to continue its work, to drive through the recommendations in the medium term and also to contribute to the wider NHS strategic work.

These initiatives imply change, and my written statement outlines challenges that we must rise to in the coming years. These challenges place a special responsibility on Assembly Members. It will not do to support reform provided it does not affect their constituency or their hospital or their particular interest. In making the difficult decisions which change involve, no one individual or even one party has a monopoly of wisdom. In an Assembly in which we all have the right to be heard, we share some of the responsibility that goes with making decisions that are to the collective benefit of the people of Wales. Hospitals are a vital part of our health and social services, but the

arolwg o'r gwasanaethau ysbyty aciwt. Mae'n nodi dyfodol saff i'r ysbytai cyffredinol yng Nghymru. Rhaid cysylltu hyn â'r strategaeth gofal sylfaenol, gan ddod â gofal sylfaenol i ganol y llwyfan yn narpariaeth yr NHS. Bydd hefyd yn diffinio'r amgylchedd y gall grwpiau iechyd lleol symud ymlaen ynddo i gyrraedd eu potensial. Bydd grŵp llywio adolygiad dyrannu adnoddau yr NHS, dan gadeiryddiaeth yr Athro Peter Townsend, yn cynorthwyo gyda'r dasg ganolog o sicrhau bod ein gwariant yn cael ei gyfeirio tuag at yr ardaloedd lle mae'r angen a'r diffyg mantais mwyaf. Bydd y ddau adroddiad hyn, ac eraill, yn mynnu newid. Ym maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, mae ystyriaethau adnoddau a diwygio yn mynd law yn llaw. Rhaid i gyrff fod yn barod i roi arloesi a moderneiddio o flaen buddiannau sydd yn elwa o'r *status quo*.

Y trydydd adroddiad pwysig a fydd yn gwneud gwahaniaeth yng Nghymru dros y 12 mis nesaf yw adroddiad y tasglu pwysau brys. Bydd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod mor awdurdodol yr aeth y tasglu hwnnw ati gyda'i waith, a'r cynigion ymarferol y mae wedi eu dwyn ynghyd. Drwy ei ymdrechion byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn gallu ymateb i bwysau ar wasanaethau dros y gaeaf i ddod. Yr wyf wrth fy modd o allu cyhoeddi fy mod am i'r tasglu barhau â'i waith, i yrru'r argymhellion drwodd yn y tymor canolig a hefyd i gyfrannu at waith strategol ehangach yr NHS.

Ymhlyg yn y cynlluniau hyn y mae newid, ac mae fy natganiad ysgrifenedig yn amlinellu sialensiau y mae'n rhaid inni ymateb iddynt dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r sialensiau hyn yn rhoi cyfrifoldeb arbennig ar Aelodau'r Cynulliad. Ni wnaiff y tro i gefnogi diwygio ar yr amod nad yw'n effeithio ar eu hetholaeth neu eu hysbyty hwy neu ar eu buddiant arbennig hwy. Wrth wneud y penderfyniadau anodd sydd yn ofynnol er mwyn newid, nid oes i unrhyw unigolyn na hyd yn oed un blaid fonopoli ar ddoethineb. Mewn Cynulliad lle mae gan bawb ohonom yr hawl i gael ein clywed, rhannwn rywfaint o'r cyfrifoldeb a geir law yn llaw â gwneud penderfyniadau a fydd er lles torfol pobl

message has got through that they are an important part, not the whole, of what matters to improving health and wellbeing in Wales. I am determined that in our programmes we should emphasise the fundamental role that primary care, public health and the wider health agenda have to play in bringing about a fairer and better future. In practical terms, these ideas can be seen in the proposals that we have received for primary care pilots, ranging from complex proposals to transform the delivery of care for more than 100,000 patients in the Cynon Valley to a scheme to meet the pressing needs of only 1,000 of the most vulnerable and disadvantaged people on our doorstep. They are all likely to involve reframing traditional ways of working if they are to succeed in producing the sort of service that I wish to see. This would be a service that provides primary care of the best quality, wherever patients might live and whatever their particular circumstances. We now have the opportunity to break new ground with nurse-led initiatives and new opportunities for salaried general practitioners and dentists.

Cymru. Mae ysbytai yn rhan holl bwysig o'n gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ond mae'r neges wedi ei glywed mai rhan bwysig ydynt, nid y cyfan, o'r hyn sydd o bwys er mwyn gwella iechyd a lles yng Nghymru. Yr wyf yn benderfynol y dylem yn ein rhaglenni bwysleisio'r rôl hanfodol sydd gan ofal sylfaenol, iechyd cyhoeddus a'r agenda iechyd ehangach i'w chwarae wrth gyflwyno gwell a thecach dyfodol. Mewn termau ymarferol, gellir gweld y syniadau hyn yn y cynigion a ddaeth i law am gynlluniau peilot ym maes gofal sylfaenol, yn amrywio o gynigion cymhleth i drawsnewid y ffordd o gyflwyno gofal i ragor na 100,000 o gleifion yng Nghwm Cynon i gynllun i ddiwallu anghenion dybryd dim ond 1,000 o'r bobl fwyaf bregus a difreintiedig ar ein rhiniog. Maent i gyd yn debygol o olygu ail-wampio ffyrdd traddodiadol o weithio os ydynt i lwyddo i gynhyrchu'r math o wasanaeth yr wyf fi am ei weld. Byddai hwnnw'n wasanaeth sydd yn darparu gofal sylfaenol o'r ansawdd orau, pa le bynnag y mae cleifion yn byw a beth bynnag fo'u hamgylchiadau penodol. Mae gennym gyfle yn awr i dorri tir newydd gyda chynlluniau o dan arweiniad nyrsys a chyfleoedd newydd ar gyfer meddygon teulu a deintyddion cyflogedig.

3:02 p.m.

In the social services, the headlines over the last year have been dominated by serious concerns about children's services. In the Assembly, and through the involvement of local authorities, voluntary organisations and young people, we have worked very hard to get the details right of our proposals for a children's commissioner for Wales. I look forward to the work that will follow from the establishment of that office.

Yn y gwasanaethau cymdeithasol, gwelwyd penawdau dro ar ôl tro dros y flwyddyn ddiwethaf yn lleisio pryderon difrifol am wasanaethau plant. Yn y Cynulliad, a thrwy gyfranogiad awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a phobl ifanc, yr ydym wedi gweithio'n galed iawn i gael manylion ein cynigion ar gyfer comisiynydd plant i Gymru yn iawn. Edrychaf ymlaen at y gwaith a fydd yn deillio o sefydlu'r swydd honno.

Today, I want to emphasise the positive side of our social services in Wales, which work each week with 100,000 of our most vulnerable fellow citizens, providing practical help and a place to turn to in times of difficulty. Social services are working increasingly closely with their partners in the health service, in education and housing and in the voluntary and independent sectors, relying on the integrity and professionalism of thousands of workers.

Heddiw, yr wyf am bwysleisio ochr gadarnhaol ein gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, sydd yn gweithio bob wythnos gyda 100,000 o'n cyd-ddinasyddion mwyaf agored i niwed, yn darparu cymorth ymarferol a lle i droi iddo mewn cyfyngder. Fwyfwy, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n agosach gyda'u partneriaid yn y gwasanaeth iechyd, mewn addysg a thai ac yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, gan ddibynnu ar onestrydd a phroffesiynoldeb

miloedd o weithwyr.

Over the next 12 months we will make further changes, designed—through the Care Standards Inspectorate for Wales and the Care Council for Wales—to raise standards, improve safeguards for the vulnerable and promote quality and professionalism for our social care workers. We need to ensure a strategic approach to service development, taking account of the new flexibilities between health and social care, and the wide range of care needs of older people. We need to build on the real strengths of social services in Wales, while working vigorously to eliminate the problems that we know are present. That work will continue and quicken over the next 12 months, responding in full to the Waterhouse recommendations.

Dros y 12 mis nesaf byddwn yn gwneud newidiadau pellach, a fwriadwyd—drwy Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a Chyngor Gofal Cymru—i godi safonau, gwella'r mesurau i ddiogelu'r sawl sydd yn agored i niwed a hyrwyddo ansawdd a phroffesiynoldeb i'n gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae angen inni sicrhau ein bod yn ymdrin yn strategol â datblygu gwasanaethau, gan gydnabod yr hyblygrwydd newydd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, ac ystod ehangach anghenion gofal pobl hŷn. Mae angen inni adeiladu ar gryfderau gwirioneddol y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, tra'n gweithio'n egnïol i ddileu'r problemau sydd, fe wyddom, yn bodoli. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau ac yn cyflymu dros y 12 mis nesaf, gan ymateb yn llawn i argymhellion Waterhouse.

Before the end of this month, the political headlines will have been dominated by the announcements we expect in relation to the Chancellor's comprehensive spending review, the national plans for the health service in England and the UK Government's response to the Royal Commission on the long-term care of the elderly. Those announcements will have important implications for Wales, which will need our detailed consideration when the Assembly reconvenes in the autumn. Today, I have tried to outline the framework within which that consideration will take place in Wales.

Cyn diwedd y mis hwn, bydd y penawdau gwleidyddol wedi bod yn llawn o'r cyhoeddiadau a ddisgwyliwn yng nghyswllt adolygiad cynhwysfawr o wariant y Canghellor, y cynlluniau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn Lloegr ac ymateb Llywodraeth y DU i'r Comisiwn Brenhinol ar ofal tymor hir yr henoed. Bydd i'r cyhoeddiadau hynny oblygiadau pwysig i Gymru, a bydd angen inni eu hystyried yn fanwl pan fydd y Cynulliad yn ailymgynnull yn yr hydref. Heddiw, yr wyf wedi ceisio amlinellu'r fframwaith y cynhelir yr ystyriaeth honno oddi mewn iddo yng Nghymru.

Health and social services lie at the heart of our civic and political culture in Wales. The principles that I have laid before you this afternoon, of tackling inequality and of a people-centred service, set the agenda for our work in Wales over the months to come. I am grateful for the opportunity of doing so and look forward to working with all of those who have a part to play in putting that agenda into practice.

Mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol wrth graidd ein diwylliant dinesig a gwleidyddol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion a gyflwynais ger eich bron y prynhawn yma, sef mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb a chael gwasanaeth sydd â phobl yn ganolog iddo, yn gosod yr agenda ar gyfer ein gwaith yng Nghymru dros y misoedd i ddod. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i wneud hynny ac edrychaf ymlaen at weithio gyda phawb sydd â rhan i'w chwarae yn rhoi'r agenda honno ar waith.

David Lloyd: We in Plaid Cymru welcome the relaunch of the health policy. There were many fine words in what you said, Jane. There have been some successes in the first

David Lloyd: Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn croesawu ail-lansio'r polisi iechyd. Cafwyd llawer o eiriau teg yn yr hyn a ddywedoch, Jane. Bu rhai llwyddiannau ym

year of the Assembly. They include free eye tests; the introduction of glaucoma screening in Wales—the first part of the United Kingdom to have that service; a children's commissioner, hopefully with full powers; and the beginnings of a second medical school. Those are all successes and are examples of where the Assembly has made a difference. They are all Welsh health policy initiatives and are, coincidentally, Plaid Cymru health policy initiatives. Therefore, I would naturally welcome them.

We welcome this relaunch although it builds on a relative lack of achievements during the first year. We recently had a damning report on the Health and Social Services Committee's performance by the Institute of Welsh Affairs. It was said that the agenda of the Committee appeared vague and lacked direction. As a member of that Committee, I feel that we must have a meaningful debate about that. The Secretary for Health and Social Services often appears to be overwhelmed by her own civil service. Whenever she has the temerity to exercise what should be her political judgement, in agreement with the Committee, the way forward is blocked by those who do not want change.

We have had an attitude of borrowing costly policy initiatives, such as NHS Direct, from England without subjecting them to Welsh scrutiny, and of refusing to develop Welsh alternatives. We have not even discussed NHS Direct in the Health and Social Services Committee. The Committee needs more flexibility and more of a focus on clinical and patient issues. Will we have this sharper focus? We need quicker responses to patient needs. We need a mechanism where we can feed into the framework; a quicker response to clinical needs that arise.

In future, there will always be a focus on spending. The average spend, even after this latest bout of money, is still not high enough. We need to emphasise capacity early on—nurses, doctors, and beds. Health inequalities

mlwyddyn gyntaf y Cynulliad. Maent yn cynnwys profion llygaid am ddim; cyflwyno gwasanaeth sgrinio am glawcoma yng Nghymru—y rhan gyntaf o'r Deyrnas Unedig i gael y gwasanaeth hwnnw; comisiynydd plant, gyda phwerau llawn gobeithio; a dechreuad ail ysgol feddygol. Mae'r rhain i gyd yn llwyddiannau ac yn enghreifftiau o lle mae'r Cynulliad wedi gwneud gwahaniaeth. Maent i gyd yn gynlluniau polisi iechyd Cymreig a, thrwy gyd-ddigwyddiad, yn gynlluniau polisi iechyd o eiddo Plaid Cymru. Felly, byddwn yn naturiol yn eu croeasawu.

Croesawn yr ail-lansio hwn er ei fod yn adeiladu ar ddiffyg cyflawni cymharol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Yn ddiweddar cawsom adroddiad damniol ar berfformiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Sefydliad Materion Cymreig. Dywedwyd bod agenda'r Pwyllgor yn ymddangos yn amwys ac nad oedd iddi gyfeiriad. Fel aelod o'r Pwyllgor hwnnw, teimlaf fod yn rhaid inni gael dadl ystyrion am hynny. Mae'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych yn aml fel pe bai'n cael ei llorio gan ei gwasanaeth sifil ei hun. Pa bryd bynnag y mae'n ddigon eofn i arfer yr hyn ddylai fod yn farn wleidyddol, mewn cytundeb â'r Pwyllgor, mae'r ffordd ymlaen yn cael ei rhwystro gan y rheini nad ydynt am weld newid.

Bu gennym agwedd o fenthycy cynlluniau polisi costus, megis NHS Direct, o Loegr heb fanylu arnynt yng Nghymru, ac o wrthod datblygu cynlluniau amgen Cymreig. Nid ydym hyd yn oed wedi trafod NHS Direct yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen mwy o hyblygrwydd a mwy o ffocws ar faterion clinigol a materion cleifion ar y Pwyllgor. A gawn ni'r ffocws cliriach hwn? Mae angen ymatebion cyflymach i anghenion cleifion. Mae angen peirianwaith lle gallwn fwydo i mewn i'r fframwaith ymateb cyflymach i'r anghenion clinigol sydd yn codi.

Yn y dyfodol, bydd ffocws bob amser ar wariant. Hyd yn oed ar ôl yr hwb ychwanegol hwn o arian, nid yw'r gwariant ar gyfartaledd yn ddigon uchel o hyd. Mae angen inni bwysleisio cynhwysedd yn gynnar—nyrsys,

must be tackled, but they have yet to be tackled meaningfully. Communities First sounds like a good idea, but at the moment it remains a good idea—we need early action. On long-term care of the elderly, it seems from reports that I read from London that New Labour's proposals in England on this point are an irresponsible and shameful sell-out. What do we intend to do in Wales? The acute services review—and I welcome the emphasis on primary care—needs to spell out that an NHS that treats 90 per cent of its patients in the community needs to have its focus in the community. We need to combat the increasing notion of centralisation.

We welcome this relaunch. However, we need £10 million now to double the heart operations to reach the English level of provision, and there is more heart disease in Wales. Another £10 million is required for cancer treatment in Wales to reach the English level and there is 10 per cent more cancers in Wales. Yet, last weekend we saw in the CSR papers that we have underspent by £44.8 million during this last year in the health service. People will realise that and will ask why. Patients are crying out for treatment, doctors and nurses are calling for more resources, yet the Government in Wales manages to underspend by £44.8 million on the NHS during the last year in Wales. Let us not just be finance driven; let us get back to caring for patients.

Jane Hutt: Thank you, Dai. It is interesting how you get louder and louder in the Assembly Chamber. You are quiet and gentlemanly-like in the Health and Social Services Committee. You are a major feature and part of that Committee, which has produced radical policies for Wales. They are the policies of this Assembly and have been endorsed by all Assembly parties. Those radical policies would not have come through without the Welsh Labour Government of Wales and without my backing as Secretary for Health and Social Services driving them. They require much debate and argument behind closed doors, as well as out in the

meddygon, a gwelyau. Rhaid mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ond ni wnaethpwyd hynny'n ystyrllon eto. Mae Cymunedau'n Gyntaf yn swnio'n syniad da, ond ar y funud nid yw ond syniad da—mae angen gweithredu buan. O ran gofal tymor hir yr henoed, mae'n ymddangos o adroddiadau a ddarllenaf o Lundain bod cynigion Llafur Newydd yn Lloegr ar y pwynt hwn yn anghyfrifol ac yn frad gwarthus. Beth y bwriadwn ni ei wneud yng Nghymru? Mae angen i'r arolwg o wasanaethau aciwt—a chroesawaf y pwyslais ar ofal sylfaenol—egluro bod gofyn i NHS sydd yn trin 90 y cant o'i gleifion yn y gymuned fod â'i ffocws yn y gymuned. Mae angen inni ymladd y syniad cynyddol o ganoli.

Croesawn yr ail-lansio hwn. Fodd bynnag, mae angen £10 miliwn arnom yn awr i ddyblu llawdriniaethau'r galon er mwyn cyrraedd lefel y ddarpariaeth yn Lloegr, ac mae mwy o glefyd y galon yng Nghymru. Mae angen £10 miliwn ychwanegol i drin canser yng Nghymru er mwyn cyrraedd lefel Lloegr ac mae 10 y cant yn fwy o ganserau yng Nghymru. Eto i gyd, y penwythnos diwethaf gwelsom ym mhapurau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant inni danwario £44.8 miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y gwasanaeth iechyd. Bydd pobl yn sylweddoli hynny ac yn gofyn pam. Mae cleifion yn galw allan am driniaeth, mae meddygon a nyrsys yn galw am fwy o adnoddau, eto mae'r Llywodraeth yn Nghymru yn llwyddo i danwario £44.8 miliwn ar yr NHS yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru. Gadewch inni beidio â chanolbwyntio'n unig ar gyllid; gadewch inni fynd yn ôl at ofalu am gleifion.

Jane Hutt: Diolch, Dai. Mae'n ddiddorol fel yr ydych yn mynd yn fwy a mwy croch yn Siambr y Cynulliad. Yr ydych yn dawel a bonheddig yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr ydych yn nodwedd a rhan fawr o'r Pwyllgor hwnnw, sydd wedi cynhyrchu polisïau radical i Gymru. Polisïau'r Cynulliad hwn ydynt ac fe'u cymeradwywyd gan holl bleidiau'r Cynulliad. Ni fyddai'r polisïau radical hynny wedi dod drwodd heb Lywodraeth Lafur Gymreig Cymru a heb fy nghefnogaeth i fel yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu gyrru. Maent yn golygu llawer o drafod a dadlau y tu ôl i ddrysau

open.

Let us acknowledge our achievements. I do not want my voice also to get louder in responding to yours, Dai, but those policies have come from the direction that we have agreed. It is about tackling inequality and making that link between poverty and ill-health, which means that we must consider the impact of poor housing, poor economic development and poor education on our most disadvantaged people. It means that when we consider heart disease, it must be about how we prevent heart disease, from childhood through to adulthood as well as getting the right operations, as well as rehabilitation. You are learning about things from London, Dai, but there are things that we are doing differently in Wales.

NHS Direct Cymru, which I launched on Monday, is going down tremendously well. The 48 nurses who work there will be disappointed to hear what you are saying, Dai. Those people are coming back into the service to provide a new, radical approach to health care that will extend to the whole of Wales by October. I invite you to go down to NHS Direct in Swansea, which is part of the local health community and economy, and see its work. People are ringing up and getting the advice and guidance that they need. I appreciate that you welcome my aspirations for a healthier future for Wales, because there is much on which we agree. Let us move forward on the things on which we agree in the Assembly. That is what people out there want to hear. The staff who work there want to hear that we are backing them to bring down the unacceptably high waiting times, and to use the money that we have effectively. Thank you for your contribution.

The Presiding Officer: Before I call David Melding, I remind the Assembly that this is a statement. I have been hearing speeches.

3:12 p.m.

David Melding: Frankly, there is little substance in this statement. There is more action in a vacuum. Whenever you hear the word 'collaborative' more than once in a

caeëdig, yn ogystal ag allan yn agored.

Gadewch inni gydnabod ein llwyddiannau. Nid wyf am i'm llais innau hefyd fynd yn fwy croch wrth ymateb i'ch un chi, Dai, ond o'r cyfeiriad y cytunasom arno a ddaeth y polisiau hynny. Ei hanfod yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chreu'r ddolen gyswllt honno rhwng tlodi ac afiechyd, sydd yn golygu bod yn rhaid inni ystyried effaith tai gwael, datblygiad economaidd gwael ac addysg wael ar y bobl fwyaf difreintiedig. Mae'n golygu, wrth inni ystyried clefyd y galon, fod yn rhaid ymdrin â'r ffordd yr ydym yn atal clefyd y galon, ymysg plant ac oedolion yn ogystal â chael y llawdriniaethau iawn, yn ogystal ag ailsefydlu. Yr ydych yn dysgu am bethau o Lundain, Dai, ond mae pethau yr ydym yn eu gwneud yn wahanol yng Nghymru.

Mae NHS Direct Cymru, a lansiais ddydd Llun, yn cael croeso eithriadol. Bydd y 48 o nyrsys sydd yn gweithio yno yn siomedig o glywed yr hyn a ddywedwch, Dai. Mae'r bobl hynny yn dod yn ôl i'r gwasanaeth i ddarparu ffordd newydd, radical o gynnig gofal iechyd a fydd yn ehangu i Gymru gyfan erbyn mis Hydref. Gwahoddaf chi i fynd i lawr i NHS Direct yn Abertawe, sydd yn rhan o'r gymuned a'r economi iechyd yn lleol, i weld ei waith. Mae pobl yn ffonio ac yn cael y cyngor a'r arweiniad sydd ei angen arnynt. Gwerthfawrogaf eich bod yn croesawu fy nyheadau am ddyfodol iachach i Gymru, oherwydd mae llawer y cytunwn arno. Gadewch inni symud ymlaen ar y pethau y cytunwn arnynt yn y Cynulliad. Dyna beth y mae'r bobl allan yno am ei glywed. Mae'r staff sydd yn gweithio yno am glywed ein bod yn eu cefnogi hwy i leihau'r amserau aros annerbyniol o uchel, ac i ddefnyddio'r arian sydd gennym yn effeithiol. Diolch ichi am eich cyfraniad.

Y Llywydd: Cyn imi alw David Melding, hoffwn atgoffa'r Cynulliad mai datganiad yw hwn. Bûm yn clywed areithiau.

David Melding: A dweud y gwir, nid oes fawr o sylwedd yn y datganiad hwn. Ceir mwy o weithredu mewn gwactod. Pryd bynnag y clywch y gair 'cydweithredol' fwy

sentence, you know that you are in real trouble. I counted several double instances in that statement. The Secretary for Health and Social Services said that the headlines would soon be dominated by the comprehensive spending review, the Royal Commission and the statement on the future of the NHS in England. Why make a strategic statement on the health service and the social services in Wales now? Why not wait for those vital matters? We do not know what resources will be available to us nor do we know—although there has been a substantial leak—what the precise response to the Royal Commission will be. That goes to the heart of how we deliver and develop social care in Wales. I ask for some specifics because you did not specify. The future of local health groups—if one is strategic—is vital. They are developing differently in England. I am not necessarily saying that we must have the same development in Wales but you must tell us why they are so different. In the auditor's report into the health service in Dyfed Powys, there was a damning reference to local health groups; in particular, their lack of a commissioning role, their inability to develop partnerships and influence prescribing and their effectiveness on GP referrals. You must address these issues head on.

There was no mention of your waiting lists commitment. You failed to deliver your promise of a reduction of 16,000. You did not mention your new promise to cut them by 15,000. There was no reference to capital spending. I challenge you to restore the capital spending budget to at least £100 million a year. That is what it was before you came into office. It is barely £75 million now. That is if you scrape together a sale from the redundant estate. We also need to know what kind of settlement we can have on resources for social care.

Finally, I welcome some aspects of what you said. It is churlish to take a bulldozer through your statement. The carers' strategy has been brought to a conclusion. You deserve credit

nag unwaith mewn brawddeg, gwyddoch eich bod mewn trafferth gwirioneddol. Cyfrifais sawl enghraifft ddwbl yn y datganiad hwnnw. Dywedodd yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r penawdau'n llawn yn fuan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, y Comisiwn Brenhinol a'r datganiad am ddyfodol yr NHS yn Lloegr. Pam gwneud datganiad strategol ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn awr? Pam na fydddech wedi disgwyl am y materion holl bwysig hynny? Ni wyddom pa adnoddau fydd ar gael inni ac ni wyddom ychwaith—er bod cryn lawer wedi'i ollwg o'r cwd—beth fydd yr union ymateb i'r Comisiwn Brenhinol. Mae hynny'n mynd at graidd y modd yr ydym yn cyflwyno ac yn datblygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gofynnaf am wybodaeth benodol oherwydd nid oeddech yn benodol. Mae dyfodol y grwpiau iechyd lleol—os gweithredir yn strategol—yn holl bwysig. Maent yn datblygu'n wahanol yn Lloegr. Nid wyf yn dweud o anghenraid bod yn rhaid inni gael yr un datblygiad yng Nghymru ond rhaid ichi ddweud wrthym pam eu bod mor wahanol. Yn adroddiad yr archwiliwr i'r gwasanaeth iechyd yn Nyfed Powys, cafwyd cyfeiriad damniol at grwpiau iechyd lleol; yn enwedig, eu diffyg rôl comisiynu, eu hanallu i ddatblygu partneriaethau a dylanwadu ar arferion rhoi presgripsiynau a'u heffeithiolrwydd ar gyfeirio achosion meddygon teulu. Rhaid i chi roi sylw i'r materion hyn ar eu talcen.

Ni soniwyd am eich ymrwymiad ynglŷn â rhestrau aros. Methasoch â gwireddu eich addewid i sicrhau gostyngiad o 16,000. Ni soniasoch am eich addewid newydd i'w torri o 15,000. Ni chyfeiriwyd o gwbl at wariant cyfalaf. Heriaf chi i adfer y gyllideb gwariant cyfalaf i £100 miliwn y flwyddyn o leiaf. Dyna'r hyn a oedd cyn ichi ddod i rym. Nid yw prin yn £75 miliwn erbyn hyn. Hynny yw os gallwch grafu gwerthiant ystâd segur ynghyd. Mae angen hefyd inni wybod pa fath o setliad y gallwn ei gael o ran adnoddau ar gyfer gofal cymdeithasol.

Yn olaf, croesawaf rai agweddau o'r hyn a ddywedasoch. Byddai'n anfoesgar lladd ar eich datganiad cyfan. Cwblhawyd y strategaeth gofalwyr. Yr ydych yn haeddu

for that. I enjoyed its launch yesterday. Let us ensure that it is implemented and that it leads to future action. Family-friendly employment practices in the NHS could transform the way employment practices in Wales are conducted. That would be of great benefit to many people. However, we are only just beginning. We have not gone an inch down that road yet. It will take a lot of work, but I welcome the fact that you are making it a priority. The general priority for primary health and mental health is welcome, as is your commitment to resourcing the children's commissioner.

Jane Hutt: Debates on health always start quietly and then become more and more animated. I will try not to rise to all of that. Collaboration and partnership is the only way forward, David. We had divisive competition for 18 years. That is all I will say. Collaboration and partnership is the way forward for bringing health and social care together. That is critical. Local groups are important because they involve local government, social services, GPs, nurses, pharmacists, dentists, the voluntary sector and lay people working together. They are moving forward to the commissioning role. They are expanding and influencing the health improvement programmes. They are helping us in the change agenda. I set a challenge to the Assembly today on that. Local health groups are the distinctive way forward in Wales.

The issues that you raised demonstrate how much there is in my statement. The full document on a healthier future for Wales spells it all out. You know that we inherited no public capital programme. We came into this a year ago with no public health programme. I put £53 million into capital spending earlier on this year, of which £20 million was for mental health. That was because the Labour Government of Wales decided to put it in with the Health and Social Services Committee's backing. You know that I have given targets, which we agreed with the NHS for bringing down waiting lists and reducing unacceptable waiting times. The people who are working

clod am hynny. Mwynheais ei lansiad ddoe. Gadewch inni sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith a'i bod yn arwain at weithredu pellach. Gallai arferion cyflogi cyfeillgar i'r teulu yn yr NHS drawsnewid y ffordd y cynhelir arferion cyflogaeth yng Nghymru. Byddai hynny o fudd mawr i lawer o bobl. Fodd bynnag, nid ydym ond megis dechrau. Nid ydym wedi mynd fodfedd i lawr y ffordd honno eto. Bydd yn golygu llawer o waith, ond croesawaf y ffaith eich bod yn ei wneud yn flaenoriaeth. Croesawir y flaenoriaeth gyffredinol i iechyd sylfaenol a iechyd meddwl, ynghyd â'ch ymrwymiad i ddarparu adnoddau ar gyfer y comisiynydd plant.

Jane Hutt: Mae dadleuon ar iechyd bob amser yn dechrau'n dawel ac yn mynd yn fwy a mwy bywiog. Ceisiaf beidio ag ymateb i hynny oll. Cydweithredu a phartneriaeth yw'r unig ffordd ymlaen, David. Cawsom 18 mlynedd o gystadleuaeth a fu'n peri rhwygiadau. Dyna'r cyfan a ddywedaf. Cydweithredu a phartneriaeth yw'r unig ffordd ymlaen er mwyn dod ag iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd. Mae hynny'n holl bwysig. Mae grwpiau lleol yn bwysig am eu bod yn cynnwys llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol, meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr, deintyddion, y sector gwirfoddol a llyegwyr yn gweithio gyda'i gilydd. Maent yn symud ymlaen tuag at y rôl comisiynu. Maent yn ehangu ac yn dylanwadu ar y rhaglenni gwella iechyd. Maent yn ein helpu ni yn yr agenda newid. Rhoddaf her i'r Cynulliad heddiw ar hynny. Grwpiau iechyd lleol yw'r priod ffordd ymlaen yng Nghymru.

Mae'r materion a godwyd gennych yn dangos cymaint sydd yn fy natganiad. Mae'r ddogfen lawn ar ddyfodol iachach i Gymru yn manylu ar hynny. Gwyddoch na etifeddasom raglen gyfalaf gyhoeddus. Daethom i mewn i hyn flwyddyn yn ôl heb raglen iechyd cyhoeddus. Rhoddais £53 miliwn i mewn i wariant cyfalaf yn gynharach eleni, £20 miliwn ohono ar gyfer iechyd meddwl. Y rheswm am hynny oedd i Lywodraeth Lafur Cymru benderfynu ei roi i mewn gyda chefnogaeth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwyddoch imi roi targedau, y cytunasom arnynt gyda'r NHS, ar gyfer dod â rhestrau aros i lawr a chwotgi amserau aros annerbyniol. Mae'r

to deliver those targets want to know that they have your backing and that you have confidence in them to achieve those targets with the extra money that they are being given. I welcome your positive statements, David, because there is much consensus. The consensus in the Committee has produced radical solutions. The Committee—working in collaboration, David—has achieved changes and set the framework for how we will move forward into next year. That will help us in the debates about the comprehensive spending review, the response to the Royal Commission and on how we progress our plans for Wales.

Kirsty Williams: It was with high hopes and expectations that I anticipated your statement today. More importantly, so did the staff of the NHS in Wales and the public, especially given that, as you say, so many will soon be aware of the national plan for England. We do not want to fall into the trap of disappearing into a policy and leadership battle in Wales in terms of health and social services.

Despite the IWA's criticism, and the apparent criticism from Dai Lloyd today, the Health and Social Services Committee, in partnership with this administration, can make a difference in developing the strategic vision that the NHS and social services in Wales needs. I am saddened that Dai Lloyd was not sufficiently gracious to raise his concerns in the meetings when we set the agenda. He was in meetings to set the agenda and did not raise any of the concerns that he has raised today. However, no-one will be reassured by the majority of your statement, Jane. It was a catalogue of warm words and worthy sentiments. It betrays Welsh Labour's failure to tackle adequately some of the most pressing problems that have faced health and social services in Wales over the past year.

Even the claims of success are somewhat dubious. The claim on eliminating deficits

bobl sydd yn gweithio i gyflawni'r targedau hynny am wybod eich bod yn eu cefnogi a bod gennych hyder ynddynt i gyflawni'r targedau hynny gyda'r arian ychwanegol a roddir iddynt. Croesawaf eich datganiadau cadarnhaol, David, oherwydd mae llawer o gonsensws. Mae'r consensws yn y Pwyllgor wedi arwain at atebion radical. Mae'r Pwyllgor—yn gweithio mewn cydweithrediad, David—wedi cyflawni newidiadau ac wedi gosod y fframwaith ar gyfer sut y byddwn yn symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Bydd hynny'n gymorth inni yn ein trafodaethau ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, yr ymateb i'r Comisiwn Brenhinol a sut yr ydym yn symud ein cynlluniau ar gyfer Cymru ymlaen.

Kirsty Williams: Yr oeddwn yn disgwyl eich datganiad heddiw gyda gobeithion a disgwyliadau uchel. Yn fwy pwysig, felly hefyd yr oedd staff yr NHS yng Nghymru a'r cyhoedd, yn enwedig o gofio, fel y dywedwch, y bydd cynifer yn ymwybodol yn fuan o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer Lloegr. Nid ydym am ddisgyn i'r fagl o ddiflannu i mewn i frwydr polisi ac arweinyddiaeth yng Nghymru yn nhermau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Er gwaethaf beirniadaeth y Sefydliad Materion Cymreig, a beirniadaeth Dai Lloyd heddiw yn ôl pob tebyg, gall y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn partneriaeth â'r weinyddiaeth hon, wneud gwahaniaeth o ran datblygu'r weledigaeth strategol y mae ei hangen ar yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yr wyf wedi fy nhristáu nad oedd Dai Lloyd yn ddigon hynaws i godi ei bryderon yn y cyfarfodydd pan oeddem yn gosod yr agenda. Bu mewn cyfarfodydd i osod yr agenda ac ni chododd unrhyw un o'r pryderon a gododd heddiw. Fodd bynnag, ni fydd y rhan fwyaf o'ch datganiad wedi tawelu meddwl neb, Jane. Yr oedd yn gatalog o eiriau cynnes a theimladau teilwng. Mae'n dangos methiant Llafur Cymru i fynd i'r afael yn ddigonol â rhai o'r problemau mwyaf dybryd sydd wedi wynebu iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hyd yn oed yr honiadau o lwyddiant braidd yn amheus. Mae'r honiad am ddileu

believes the fact that two of our health authorities are still in debt. It will take Dyfed Powys Health Authority three years to get back to a year on year balance, let alone to begin to repay the debts that it has accumulated. One welcomes the extra money that has been made available to the NHS in Wales. However, that comes after three years of starvation, when the Labour Party decided to stick to Tory spending plans. Those three years have seen waiting lists and times spin out of control.

I ask you, as a result of this statement, to set on record how your administration will tackle waiting lists and times. I, and the Liberal Democrats, do not believe that they will be tackled until we take action on medical emergency capacity and human resource capacity in the NHS. We have 7,000 nursing vacancies. We have 400 medical beds less than we need and still do not have the right number of intensive care and high dependency beds. Meanwhile, staff and patients are giving and receiving treatment in buildings that are so poor that they challenge schools in the race for the award for the worst public buildings.

Social services departments remain straitjacketed by poor local government settlements. We will never solve the problem of delayed discharges or stop having to choose between children's services and care for elderly, unless the local government settlement provides the resources needed to do the job. I appreciate that this is a framework, but the people, after a year of Labour administration in this Assembly, deserve more than a framework. They deserve action as well as strategic vision.

Jane Hutt: This is a framework, but it is more than just that. Over the past year, Labour has delivered that additional money and the resources of which the NHS has been starved. We now have to move forward on how we spend that money wisely. We are doing that through the framework that I have presented to you and which we will achieve over the coming year. This is about how we

diffygu ariannol yn cuddio'r ffaith bod dau o'n hawdurdodau iechyd yn dal mewn dyled. Cymer dair blynedd i Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ddod yn ôl i allu mantoli ei gyllideb o flwyddyn i flwyddyn, heb sôn am ddechrau ad-dalu'r dyledion y mae wedi eu cronni. Croesawn yr arian ychwanegol a roddwyd i'r NHS yng Nghymru. Fodd bynnag, daw hynny ar ôl tair blynedd o newyn, pryd y penderfynodd y Blaid Lafur gadw at gynlluniau gwariant Toriaidd. Yn ystod y tair blynedd hynny gwelwyd rhestrau ac amserau aros yn cynyddu'n ddireolaeth.

Gofynnaf ichi, yn sgîl y datganiad hwn, gofnodi sut y bydd eich gweinyddiaeth yn mynd i'r afael â rhestrau ac amserau aros. Nid wyf fi, na'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn credu yr eir i'r afael â hwy hyd nes y gweithredwn ar gynhwysedd meddygol brys a chynhwysedd adnoddau dynol yr NHS. Mae gennym 7,000 o swyddi nyrsio gwag. Mae gennym 400 o welyau meddygol yn llai nag sydd eu hangen arnom ac nid oes gennym o hyd y nifer priodol o welyau gofal dwys a dibyniaeth uchel. Yn y cyfamser, mae staff a chleifion yn rhoi a derbyn triniaeth mewn adeiladau sydd mor wael nes eu bod yn herio ysgolion yn y ras am wobwr yr adeiladau cyhoeddus gwaethaf.

Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn dal i gael eu gwasgu'n dynn gan setliadau gwael llywodraeth leol gwael. Ni fyddwn byth yn datrys problem gohirio rhyddhau cleifion nac yn rhoi terfyn ar orfod dewis rhwng gwasanaethau plant a gofal i'r henoed oni fydd y setliad llywodraeth leol yn darparu'r adnoddau sydd yn ofynnol i wneud y gwaith. Gwerthfawrogaf fod hwn yn fframwaith, ond mae'r bobl, ar ôl blwyddyn o weinyddiaeth Lafur yn y Cynulliad hwn, yn haeddu mwy na fframwaith. Maent yn haeddu gweithredu yn ogystal â gweledigaeth strategol.

Jane Hutt: Mae hwn yn fframwaith, ond mae'n llawer mwy na dim ond hynny. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Llafur wedi darparu'r arian ychwanegol hwnnw a'r adnoddau yr amddifadwyd yr NHS ohonynt. Bellach mae'n rhaid inni symud ymlaen ar sut yr ydym yn gwario'r arian hwnnw'n ddoeth. Yr ydym yn gwneud hynny drwy'r fframwaith a gyflwynais ichi ac a wireddir

in the Assembly make a difference together, Kirsty. I am grateful to you for recognising the important points that have arisen out of the Health and Social Services Committee, which have backed how I am addressing these issues.

A year ago, we faced a horrendous debt of £70 million across Wales. We have now reduced that debt substantially. We have these extra resources. We are also tackling all the issues raised. We have had the impressive emergency pressures taskforce and are tackling delayed discharges, an issue that you, rightly, brought to this Chamber for debate. We discussed that and agreed that it should be tackled by the emergency pressures taskforce. We also recognised that we need more beds this winter and more intensive care beds. However, do not forget that we also said that we would have a major influenza immunisation campaign, targeting over-65-year-olds. We will have a keep warm and well campaign, which will begin this summer and build up to next winter. We will have a range of new initiatives with GPs working in accident and emergency units. We will have rapid response teams that work in the community. You heard how chronic disease management from GPs can work and deliver.

3:22 p.m.

Kirsty, I recognise that politics must come into these discussions. However, people want to know that the Welsh Labour Government is committed to delivering. It has delivered on resources. It has delivered on the framework. People support us, including staff, the people working at the sharp end, and patients. We saw that yesterday when carers came to the Assembly. They believe that the Assembly is making a difference to them. I also believe that. Therefore, my statement heralds how we operate and work in Wales. That is how we will respond when we hear more about plans from elsewhere later this month.

gennym dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae hwn yn fater o sut y gallwn ni yn y Cynulliad wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd, Kirsty. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am gydnabod y pwyntiau pwysig sydd wedi deillio o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi cefnogi'r modd yr wyf fi'n rhoi sylw i'r materion hyn.

Flwyddyn yn ôl, yr oeddem yn wynebu dyled frawychus o £70 miliwn ar draws Cymru. Bellach yr ydym wedi lleihau'r ddyled honno yn sylweddol. Mae gennym yr adnoddau ychwanegol hyn. Yr ydym hefyd yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd. Cawsom y tasglu pwysau brys hynod effeithiol ac yr ydym yn mynd i'r afael â gohirio rhyddhau cleifion, mater y daethoch ag ef, yn gwbl briodol, i'r Siambr hon i'w drafod. Trafodasom hynny a chytunasom y dylai'r tasglu pwysau brys fynd i'r afael ag ef. Cydnabuom hefyd fod angen mwy o welyau arnom y gaeaf hwn a mwy o welyau gofal dwys. Fodd bynnag, peidiwch ag anghofio inni ddweud hefyd y byddem yn cael ymgyrch fawr i frechu rhag y fflw, gan dargedu pobl dros 65 oed. Byddwn yn cynnal ymgyrch cadwch yn gynnes ac yn iach, a fydd yn dechrau'r haf hwn ac yn datblygu at y gaeaf nesaf. Bydd gennym ystod o gynlluniau newydd gyda meddygon teulu yn gweithio mewn unedau damweiniau a brys. Bydd gennym dimau ymateb brys sydd yn gweithio yn y gymuned. Clywsoch sut y gall rheolaeth dros glefydau cronig gan feddygon teulu weithio a chyflawni.

Kirsty, cydnabyddaf fod yn rhaid i wleidyddiaeth ddod i mewn i'r trafodaethau hyn. Fodd bynnag, mae pobl am wybod bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i gyflawni. Mae wedi cyflawni o ran adnoddau. Mae wedi cyflawni o ran y fframwaith. Mae pobl, gan gynnwys staff, y bobl sydd yn gweithio yn y rheng flaen, a chleifion yn ein cefnogi. Gwelsom hynny ddoe pan ddaeth gofalwyr i'r Cynulliad. Credant hwy fod y Cynulliad yn gwneud gwahaniaeth iddynt. Yr wyf innau hefyd yn credu hynny. Felly, mae fy natganiad yn cyhoeddi sut yr ydym yn gweithredu ac yn gweithio yng Nghymru. Dyna sut y byddwn yn ymateb pan glywn fwy am gynlluniau o

rywle arall yn ddiweddarach y mis hwn.

Brian Gibbons: Yesterday, I wrote a letter to *The Western Mail*, defending the excellent work of the Health and Social Services Committee. Considering that three of the four parties on that Committee are so pathetic and lamentable about their own apparent input, I should not have bothered writing that letter trying to defend their exertions over the last year.

However, memories are extremely short. Where was the political party that asked for 10 per cent increases in NHS resources over the last two years? Did any political party that campaigned during the Assembly elections have even the courage or imagination to dream of increasing expenditure on the health service by 10 per cent? Nobody would have thought it possible or conceivable. However, in the last two years, the Welsh Labour Government, through Jane Hutt and Edwina Hart, has delivered. Not only that, but more and more services are going directly to patients since we got rid of the massive army of bureaucrats, which David Melding's party created over the last four or five years with the internal market.

We can always rely on Plaid Cymru to whinge when there is good news in the Assembly. Plaid Cymru—The Party of Wales is certainly the party of 'wails', because it wails, whinges and whines at every opportunity. When we have a nursing quota of 97.5 per cent, Plaid Cymru will complain about the 2.5 per cent vacancy. When the spending in the health service is 98.5 per cent, we can rely on Plaid Cymru to brighten up our day by complaining about the 1.5 per cent that is not being spent. It says it all.

Jane Hutt: Brian has played a valuable role in the Health and Social Services Committee, but he also now plays a valuable role as a Member of the Economic Development Committee. We know that unless we get things right in terms of our economic development and tackle poverty we will not reduce the ill-health of the people of Wales.

Brian Gibbons: Ddoe, ysgrifennais lythyr at *The Western Mail*, yn amddiffyn gwaith rhagorol y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. O ystyried bod tair o'r pedair plaid ar y Pwyllgor hwnnw mor bathetig a thruenus am eu cyfraniad honedig eu hunain, ni ddylwn fod wedi mynd i'r drafferth o ysgrifennu'r llythyr i amddiffyn eu llafur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, mae cof pobl yn hynod fyr. Ble'r oedd y blaid wleidyddol a ofynnodd am godiadau o 10 y cant yn adnoddau'r NHS dros y ddwy flynedd diwethaf? A oedd gan unrhyw blaid wleidyddol a fu'n ymgyrchu yn ystod etholiadau'r Cynulliad hyd yn oed y dewrder neu'r dychymyg i freuddwydio am gynyddu gwariant ar y gwasanaeth iechyd o 10 y cant? Ni fyddai neb wedi meddwl bod hynny'n bosibl nac yn ddirnadwy. Fodd bynnag, yn y ddwy flynedd diwethaf, mae Llywodraeth Lafur Cymru, drwy Jane Hutt ac Edwina Hart, wedi cyflawni. Nid yn unig hynny, ond mae mwy a mwy o wasanaethau'n mynd yn uniongyrchol i gleifion ers inni gael gwared â'r fyddin enfawr o fiwrocrataid, a grëwyd gan blaid David Melding dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf gyda'r farchnad fewnol.

Gallwn wastad ddibynnu ar Blaid Cymru i gwynfan pan fo newyddion da yn y Cynulliad. Mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn sicr yn 'party of wails' oherwydd mae'n cwynfan, swnian a chwyno bob cyfle a gaiff. Pan fydd gennym gwota nyrsio o 97.5 y cant, bydd Plaid Cymru'n cwyno am y 2.5 y cant o swyddi gwag. Pan fo'r gwariant yn y gwasanaeth iechyd yn 98.5 y cant, gallwn ddibynnu ar Blaid Cymru i lonni ein diwrnod drwy gwyno am yr 1.5 y cant nad yw'n cael ei wario. Mae hynny'n dweud y cwbl.

Jane Hutt: Mae Brian wedi chwarae rhan werthfawr yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ond erbyn hyn mae hefyd yn chwarae rhan werthfawr fel Aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Oni chawn ni bethau'n iawn yn nhermau datblygu economaidd a mynd i'r afael â thlodi, gwyddom na allwn ostwng lefel afiechyd pobl Cymru.

Alun Pugh: I welcome your statement. The 11.3 per cent increase in this year's health budget will go a considerable way towards reducing the pressure on the system. I was pleased to see health promotion measures, support for smoking cessation measures, flu jabs for the elderly, and meningitis C immunisation in the programme. However, do you share my view that unless we get to grips with the real causes of ill-health, such as poor housing and diet, limited exercise and addiction to carcinogens such as tobacco, then big increases in hospital budgets might reduce hospital waiting lists—and might even stop Dai Lloyd's rants—but they will not significantly improve health?

Jane Hutt: Promoting health and wellbeing and delivering for patients are vital in the way forward. It is difficult when the pressures on patients and the consequences of ill-health mean that services are under such pressure. However, we must put it into perspective regarding those significant priorities and ensure that part of our primary care. It is so important, as Dai said. The first point of contact is about community health development. We must look at how we can encourage young people, families and communities, and the most disadvantaged, to address the issues to which you refer, otherwise we will stack up ill-health and put pressure on the health service.

In the last five years, there have been 18,000 more emergency admissions into our hospitals. That is 18 per cent or 46,000 more patients in the system. That is the kind of consequence of ill-health that exists in our communities as a result of the lack of a preventative health promotion agenda. We must get that right. We have spent much time in the Health and Social Services Committee asking how we can get it right. It is not about preaching to people, it is about improving their living conditions, aspirations and self-confidence and giving them a better income to enable them to live healthier lives.

Geraint Davies: I am concerned about Dr Gibbons. His memory seems to be failing him. Can he cast his mind back to the

Alun Pugh: Croesawaf eich datganiad. Bydd y cynnydd o 11.3 y cant yn y gyllideb iechyd eleni yn mynd gryn ffordd tuag at leihau'r pwysau ar y system. Yr oeddwn yn falch o weld mesurau hybu iechyd, cefnogaeth i fesurau rhoi'r gorau i ysmegu, brechiadau fflw i'r henoed, ac imwneiddio rhag llid yr ymennydd C yn y rhaglen. Fodd bynnag, a ydych yn rhannu fy marn, oni wnawn ni ymaflyd yn achosion gwirioneddol afiechyd, megis tai a deiet gwael, prinder ymarfer corff a dibyniaeth ar garsinogenau megis tybaco, yna efallai y gwnaiff cynnydd mawr yng nghyllidebau ysbytai dorri rhestrau aros ysbytai—a hyd yn oed roi taw ar refru Dai Lloyd—ond ni wnânt wella iechyd yn sylweddol?

Jane Hutt: Mae hyrwyddo iechyd a lles a chyflawni ar ran cleifion yn holl bwysig yn y ffordd ymlaen. Mae'n anodd pan fo'r pwysau ar gleifion a chanlyniadau afiechyd yn golygu bod gwasanaethau o dan gymaint o bwysau. Fodd bynnag, rhaid inni roi hynny mewn persbectif o safbwynt y blaenoriaethau arwyddocaol hynny a sicrhau y rhan honno o'n gofal sylfaenol. Mae mor bwysig, fel y dywedodd Dai. Mae'r pwynt cyswllt cyntaf yn ymwneud â datblygu iechyd yn y gymuned. Rhaid inni ystyried sut y gallwn annog pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau, a'r rhai mwyaf difreintiedig, i fynd i'r afael â'r materion y cyfeiriwch atynt, fel arall byddwn yn pentyrru afiechyd ac yn rhoi pwysau ar y gwasanaeth iechyd.

Dros y pum mlynedd diwethaf, cafwyd 18,000 yn fwy o dderbyniadau brys i'n hysbytai. Mae hynny'n 18 y cant neu'n 46,000 yn fwy o gleifion yn y system. Dyna'r math o ganlyniadau afiechyd sydd yn bodoli yn ein cymunedau o ganlyniad i'r diffyg agenda hyrwyddo iechyd ataliol. Rhaid inni gael hynny'n iawn. Yr ydym wedi treulio llawer o amser yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn sut y gallwn ei gael yn iawn. Nid mater o bregethu wrth bobl mohono, ond o wella eu hamodau byw, eu dyheadau a'u hunanhyder a rhoi gwell incwm iddynt i'w galluogi i fyw bywydau iachach.

Geraint Davies: Yr wyf yn poeni am Dr Gibbons. Mae ei gof fel pe bai'n pallu. A fedr gofio'n ôl i ddechrau'r flwyddyn, pan oedd

beginning of the year, when there was pandemonium and crisis in the health service? There were people waiting on trolleys and people being driven up and down the M4 to try to find intensive care beds—

The Presiding Officer: Order. This is a statement by Jane Hutt, not a debate between Geraint and Brian.

Brian Gibbons: That is factually untrue.

Geraint Davies: It is true.

There is great concern about the health service generally and about the fact that Wales's cancer services are inferior to those in England. We do not have the same level of resources or specialists. A report published a fortnight ago noted how badly off cancer sufferers in Wales are, compared to those in other parts of Britain.

People must wait 18 months for cardiac treatment. Five per cent of them die while on the waiting list. That is disgraceful. We should fight for far more resources for the NHS. In my area, where we probably have the worst health problems in Wales, in Britain and possibly in Western Europe, we still do not have the appropriate resources. We are still waiting for them. We have seen hospitals closed and, although we have been promised new hospitals, those promises have not been fulfilled. We should be fighting; we should not rest on our laurels. We have a major task ahead of us to improve the health of Wales.

Jane Hutt: I mentioned my commitment to the health of the people of the Rhondda and to improving services. You know where my priorities lie. We must get the right kind of primary care into those communities. It is about how we spend resources—the extra 11.3 per cent that we have put into the health service—to ensure that people do not have to be admitted to hospital at Christmas because they have had proper protection in the community. We must ensure that they have flu immunisations and are cared for in the community and in their homes by teams of nurses, GPs, social workers and health

pandemonium ac argyfwng yn y gwasanaeth iechyd? Yr oedd pobl yn disgwyl ar droliau a phobl yn cael eu gyrru i fyny ac i lawr yr M4 i geisio canfod gwelyau gofal dwys—

Y Llywydd: Trefn. Datganiad gan Jane Hutt yw hwn, nid dadl rhwng Geraint a Brian.

Brian Gibbons: Mae hynny yn ffeithiol anghywir.

Geraint Davies: Mae'n wir.

Mae pryder mawr ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd yn gyffredinol ac am y ffaith bod gwasanaethau canser Cymru yn israddol i rai Lloegr. Nid oes gennym yr un lefel o adnoddau nac arbenigwyr. Nodai adroddiad a gyhoeddwyd bythefnos yn ôl mor ddrwg ydyw ar ddiodefwyr canser yng Nghymru, o'u cymharu â'r rheini mewn rhannau eraill o Brydain.

Rhaid i bobl ddisgwyl 18 mis am driniaeth ar y galon. Mae 5 y cant ohonynt yn marw tra eu bod ar y rhestr aros. Mae hynny'n warth. Dylem ymladd am lawer mwy o adnoddau i'r NHS. Yn fy ardal i, lle mae gennym mae'n bur debyg y problemau iechyd gwaethaf yng Nghymru, ym Mhrydain a Gorllewin Ewrop o bosibl, nid yw'r adnoddau priodol gennym o hyd. Yr ydym yn dal i ddisgwyl amdanynt. Gwelsom ysbytai'n cau ac, er bod ysbytai newydd wedi'u haddo inni, nid yw'r addewidion hynny wedi eu cyflawni. Dylem fod yn ymladd; ni ddylem fod yn gorffwys ar ein bri. Mae gennym dasg fawr o'n blaen i wella iechyd Cymru.

Jane Hutt: Soniais am fy ymrwymiad i iechyd pobl y Rhondda ac i wella gwasanaethau. Gwyddoch ym mha le mae fy mlaenoriaethau. Rhaid inni gael y math iawn o ofal sylfaenol i mewn i'r cymunedau hynny. Mae a wnelo â'r ffordd yr ydym yn gwario adnoddau—yr 11.3 y cant ychwanegol yr ydym wedi ei roi i mewn i'r gwasanaeth iechyd—i sicrhau nad oes yn rhaid derbyn pobl i'r ysbyty dros y Nadolig am eu bod wedi cael eu hamddiffyn yn briodol yn y gymuned. Rhaid inni sicrhau eu bod yn cael eu brechu rhag y ffliw ac y gofali'r amdanynt yn y gymuned ac yn eu

visitors. That is how we will turn it around and that is what the emergency pressures taskforce has demonstrated. Members of the taskforce have given of their time to help me to prepare for next winter and to recognise where problems lie in the health service and in social services, and to suggest how we can move forward. We will see, and are seeing, a difference. People out there are confident that the Assembly is making a difference to the NHS—rebuilding it and renewing it for the people of Wales.

cartrefi gan dimau o nyrsys, meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd. Dyna sut y byddwn yn gweddnewid pethau a dyna'r hyn y mae'r tasglu pwysau brys wedi ei ddangos. Mae aelodau'r tasglu wedi rhoi o'u hamser i'm helpu i baratoi ar gyfer y gaeaf nesaf ac i ganfod ym mha le mae'r problemau yn y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac awgrymu sut y gallwn symud ymlaen. Fe welwn, ac yr ydym yn gweld, wahaniaeth. Mae pobl allan yno yn hyderus bod y Cynulliad yn gwneud gwahaniaeth i'r NHS—yn ei ailadeiladu a'i adnewyddu ar gyfer pobl Cymru.

3:32 p.m.

Datganiad ar Llais Ifanc Statement on Young Voice

The Presiding Officer: As this is a joint initiative between the Executive and the Office of the Presiding Officer, I shall call on the Deputy Presiding Officer to give a short statement after Andrew has spoken. Both will take questions afterwards.

Y Llywydd: Gan fod hon yn fenter ar y cyd rhwng y Weithrediaeth a Swyddfa'r Llywydd, galwaf ar y Dirprwy Lywydd i roi datganiad byr ar ôl i Andrew siarad. Bydd y ddau yn cymryd cwestiynau wedyn.

The Business Secretary (Andrew Davies): The Young Voice conference, Breaking Barriers, was held at the National Assembly on Friday 7 July. Young Voice is the Assembly's initiative for establishing a clear, productive and sustainable dialogue with the young people of Wales. Breaking Barriers was the culmination of eight months' hard work, most of which was undertaken by young people. The conference was opened jointly by the First Secretary, Rhodri Morgan, and the Deputy Presiding Officer, Jane Davidson. Tom Middlehurst, Rosemary Butler, Sue Essex and I joined in for part of the morning workshop, and the First Secretary answered questions during the first half of the plenary debate in the afternoon. Jenny Randerson, Dai Lloyd, David Davies and I came together for a panel question time for the second half of the debate.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynhaliwyd cynhadledd Llais Ifanc, Chwalu'r Ffin, yn y Cynulliad Cenedlaethol ddydd Gwener 7 Gorffennaf. Menter y Cynulliad er sefydlu deialog glir, gynhyrchiol a chynaliadwy gyda phobl ifanc Cymru yw Llais Ifanc. Yr oedd Chwalu'r Ffin yn benllanw wyth mis o waith caled, y rhan fwyaf ohono wedi'i ysgwyddo gan bobl ifanc. Agorwyd y gynhadledd ar y cyd gan y Prif Ysgrifennydd, Rhodri Morgan, a'r Dirprwy Lywydd, Jane Davidson. Ymunodd Tom Middlehurst, Rosemary Butler, Sue Essex a minnau â gweithdy'r bore am ran o'r amser, ac atebodd y Prif Ysgrifennydd gwestiynau yn ystod hanner gyntaf y ddadl mewn cyfarfod llawn yn y prynhawn. Daeth Jenny Randerson, Dai Lloyd, David Davies a minnau ynghyd ar gyfer sesiwn cwestiynau i banel yn ail hanner y ddadl.

The young people who were present in that question time were direct and innovative in giving feedback on our contributions. I suggest that the First Secretary's or the Presiding Officer's Assembly review group may wish to consider some of the methods

Yr oedd y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn y sesiwn cwestiynau hwnnw yn uniongyrchol ac arloesol wrth ymateb i'n cyfraniadau. Awgrymaf y bydd grŵp adolygu'r Prif Ysgrifennydd neu'r Llywydd yn y Cynulliad efallai'n dymuno ystyried rhai o'r dulliau a

that the young people used to signal their approval or disapproval of contributions. However, I am sure that Dai Lloyd and David Davies did not appreciate the booing that they experienced.

Breaking Barriers provided well over 60 15 to 17-year-olds with an opportunity to discuss issues that they had identified as being of importance to them: education in schools, supporting young people, agriculture, the economy, the environment, sustainable development and health and social services. The discussions were not restricted to this building; there were regional video-conferencing links with young people in Powys and Swansea, along with a Wales-wide internet chat room. The entire day was planned and facilitated by young people, many of whom had travelled many miles to be there. Most stayed overnight in Cardiff to prepare for the discussions. They came from a wide range of social and academic background and abilities. They presented themselves with immense maturity and were all brilliant ambassadors for the young people of Wales. What shone through was their knowledge and concern about the issues, along with their determination to put their points across. They had some great ideas and important views. Their biggest hope was that we would listen. Their biggest fear was that we would not.

How did the day go? On a positive side, the young people were happy to be there and were proud of the event. They said that they had gained much from the experience, and had enjoyed the challenge of the debate and the opportunity to visit the Assembly to speak freely with Assembly Members and civil servants. I would like to pay tribute to the work of those civil servants, in the Executive and in the Office of the Presiding Officer. The young people wanted very much to repeat the event and to open it up to many more of their peers, as part of the broad Young Voice initiative, which they welcomed. Assembly Members and civil servants alike said that they had benefited from what was a new experience.

However, and I must be frank, the feeling became more negative towards the end of the day. The young people were disappointed by

ddefnyddiodd y bobl ifanc i ddangos eu cymeradwyaeth neu ddiffyg cymeradwyaeth i'n cyfraniadau. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr nad oedd Dai Lloyd a David Davies yn gwerthfawrogi'r bwio a gawsant hwy.

Rhoddodd Chwalu'r Ffin gyfle i ragor na 60 o bobl ifanc 15 i 17 mlwydd oed i drafod materion yr oeddent hwy wedi eu dynodi yn rhai sydd yn bwysig iddynt: addysg mewn ysgolion, cefnogi pobl ifanc, amaethyddiaeth, yr economi, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ni chyfyngwyd y trafodaethau i'r adeilad hwn; yr oedd cysylltiadau fideo-gynadledda rhanbarthol gyda phobl ifanc ym Mhowys ac Abertawe, ynghyd ag ystafell sgwrsio i Gymru gyfan ar y rhyngwyd. Cafodd y diwrnod cyfan ei gynllunio a'i hwyluso gan bobl ifanc, llawer ohonynt wedi teithio milltiroedd lawer i fod yno. Arhosodd y rhan fwyaf ohonynt yng Nghaerdydd dros nos i baratoi ar gyfer y trafodaethau. Deuent o ystod eang o allu a chefnidiroedd cymdeithasol ac academaidd. Cyflwynasant eu hunain gydag aeddfedrwydd mawr ac yr oeddent oll yn llysgenhadon gwych i bobl ifanc Cymru. Yr hyn a amlygwyd oedd eu gwybodaeth a'u pryder ynglŷn â'r materion dan sylw, ynghyd â'u penderfyniad i gyfleu eu pwyntiau. Yr oedd ganddynt syniadau rhagorol a barn bwysig. Eu gobaith pennaf oedd y byddem yn gwranddo. Eu hofn pennaf oedd na fyddem.

Sut aeth y diwrnod? Yn gadarnhaol, yr oedd y bobl ifanc yn hapus i fod yno ac yn falch o'r diwrnod. Dywedasant iddynt elwa o'r profiad, a'u bod wedi mwynhau her y ddadl a'r cyfle i ymweld â'r Cynulliad i siarad yn agored gydag Aelodau o'r Cynulliad a gweision sifil. Hoffwn dalu teyrnged i waith y gweision sifil hynny, yn y Weithrediaeth ac yn Swyddfa'r Llywydd. Yr oedd y bobl ifanc yn awyddus iawn i ailadrodd y digwyddiad a'i agor i lawer mwy o'u cyfoedion, fel rhan o'r fenter Llais Ifanc eang, y maent yn ei chrosawu. Dywedodd Aelodau o'r Cynulliad a gweision sifil fel ei gilydd iddynt elwa o'r hyn a oedd yn brofiad newydd.

Fodd bynnag, a rhaid imi fod yn onest, aeth y teimlad yn fwy negyddol erbyn diwedd y dydd. Yr oedd y bobl ifanc wedi'u siomi gan

the fact that many Assembly Members were not available to attend. There were two Regional Committee meetings that day and it was difficult for those in north Wales to attend. The young people know that we are busy people with hectic diaries but they felt—and I am reporting their direct feedback—that many Members, despite the conference date being in diaries for some time, had not made the effort to be there. The young people, unfortunately, left for home with some negative images.

That is why I need to make the point clearly and strongly that there is a danger that the Assembly is seen as an institution that does not listen and does not care, which was one of the fears expressed at the beginning of the day. Have we forgotten that in this Chamber on St David's Day we said that

'this Assembly is committed to ensuring that children and young people are treated with dignity and respect, are helped to reach their full potential and are a valued part of society, whose needs and rights are considered and voices heard.'

We need to learn from this experience. There are lessons to be learned about how the Assembly presents itself to young people. I am convinced about the value of Young Voice, as, I am sure, are all Members. However, we will need to invest effort, collaboration and give direction to this. That will involve examining how we relate to and present ourselves to young people, and how we may engage them, successfully and productively, in the democratic process. The Young Voice co-ordinating team will prepare a conference report and make recommendations on the way forward. Naturally, young people will be at the centre.

As for the Assembly, the lesson is that, if we genuinely believe that engaging with young people and others in the community is the right way forward, we must be prepared to back up our ideas with action.

The Deputy Presiding Officer (Jane Davidson): I am delighted to be making this

y ffaith bod cynifer o Aelodau'r Cynulliad yn methu bod yn bresennol. Yr oedd dau gyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y diwrnod hwnnw ac yr oedd yn anodd i'r rheini yng ngogledd Cymru fod yn bresennol. Gŵyr y bobl ifanc ein bod yn bobl brysur gyda dyddiaduron llawn ond teimlent—ac yr wyf yn adrodd eu hatborth uniongyrchol—fod llawer o'r Aelodau heb wneud yr ymdrech i fod yno, er i ddyddiad y gynhadledd gael ei nodi mewn dyddiaduron ers peth amser. Yn anffodus, aeth y bobl ifanc am adref gyda rhai delweddau negyddol.

Dyna pam y mae angen imi wneud y pwynt yn glir ac yn gryf fod perygl bod y Cynulliad yn cael ei weld fel sefydliad nad yw'n gwranddo ac nad yw'n poeni, sef un o'r ofnau a fynegwyd ar ddechrau'r diwrnod. A ydym wedi anghofio inni ddweud yn y Siambr hon ar Ddydd Gŵyl Dewi bod

'y Cynulliad hwn wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin gydag urddas a pharch, eu bod yn cael cymorth i gyrraedd eu llawn botensial, eu bod yn rhan werthfawr o gymdeithas, a bod eu hanghenion a'u hawliau'n cael eu hystyried a'u lleisiau'n cael eu clywed.'

Mae angen inni ddysgu o'r profiad hwn. Mae gwersi i'w dysgu am y ffordd y mae'r Cynulliad yn cyflwyno'i hun i bobl ifanc. Yr wyf yn argyhoeddedig ynglŷn â gwerth Llais Ifanc, fel, yr wyf yn siŵr, y mae'r holl Aelodau. Fodd bynnag, bydd angen inni fuddsoddi ymdrech, cydweithio a rhoi cyfeiriad i hyn. Bydd hynny'n golygu edrych ar sut yr ydym yn ymwneud â phobl ifanc ac yn cyflwyno'n hunain iddynt, a sut y gallwn ennyn eu cyfranogiad, yn llwyddiannus a chynhyrchiol, yn y broses ddemocrataidd. Bydd tîm cydlynu Llais Ifanc yn paratoi adroddiad ar y gynhadledd ac yn llunio argymhellion ar y ffordd ymlaen. Yn naturiol, bydd pobl ifanc yn ganolog yn hyn.

O ran y Cynulliad, y wers yw, os ydym yn credu o ddifrif mai ennyn perthynas gyda phobl ifanc ac eraill yn y gymuned yw'r ffordd iawn ymlaen, rhaid inni fod yn barod i ategu ein syniadau gyda gweithredoedd.

Y Dirprwy Lywydd (Jane Davidson): Yr wyf wrth fy modd yn gwneud y datganiad

statement jointly with the Executive. This is a first for the Assembly and represents the commitment of the Presiding Office to involving young people in Wales in the Assembly's business. This is a matter that the Presiding Officer takes seriously, and I have been closely involved with officials from our office in supporting the Young Voice initiative and, in particular, the arrangements for last week's conference.

The Breaking Barriers conference opened the Assembly's door to young people. We want to keep it open. It is an important initiative for the Office of the Presiding Officer, both in reflecting our commitment to open and accessible government and our duty to inform young people of the Assembly and its processes. We have already established Young Voice on the National Assembly for Wales's website. We are committed to working with young people to maximise the opportunities for access to the Assembly.

It is important that Assembly Members listen to young people's needs and also that we show young people how easy it is to engage first-hand with the Assembly. Friday's conference set an important precedent for these principles. As Andrew Davies said, the young people's maturity in conducting themselves and in articulating their views was notable. Even more notable was how informed the young people were in the topics that were under discussion. This reflected the broad cross-section of backgrounds from which the young people came. A fundamental principle of the operation of Young Voice is to engage with young people from across Wales and from all backgrounds.

It is important that all Assembly Members embrace the idea of engaging with young people directly and indirectly through all means available, including statutory and voluntary organisations and other informal means.

The conference report and recommendations should only be the beginning of identifying relevant issues and establishing effective means of addressing young people's needs. There will be an expectation that the National

hwn ar y cyd â'r Weithrediaeth. Mae hwn yn rhywbeth newydd i'r Cynulliad ac yn cynrychioli ymrwymiad Swyddfa'r Llywydd i gynnwys pobl ifanc yng Nghymru ym musnes y Cynulliad. Mae hwn yn fater y mae'r Llywydd yn ei gymryd o ddifrif, a bûm yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'n swyddfa i gefnogi'r fenter Llais Ifanc ac, yn arbennig, y trefniadau ar gyfer y gynhadledd yr wythnos diwethaf.

Agorodd y gynhadledd Chwalu'r Ffin ddrws y Cynulliad i bobl ifanc. Yr ydym am ei gadw'n agored. Mae'n fenter bwysig i Swyddfa'r Llywydd, yn adlewyrchu ein hymrwymiad i lywodraeth agored a hygyrch a hefyd ein dyletswydd i roi gwybod i bobl ifanc am y Cynulliad a'i brosesau. Yr ydym eisoes wedi sefydlu Llais Ifanc ar safle Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y we. Yr ydym yn ymrwymo i weithio gyda phobl ifanc i greu cynifer â phosibl o gyfleoedd iddynt i ddod i'r Cynulliad.

Mae'n bwysig bod Aelodau'r Cynulliad yn gwrandao ar anghenion pobl ifanc a hefyd ein bod yn dangos i bobl ifanc mor hawdd yw hi i gyfranogi'n bersonol gyda'r Cynulliad. Gosododd y gynhadledd ddydd Gwener gynsail pwysig i'r egwyddorion hyn. Fel y dywedodd Andrew Davies, yr oedd aeddfedrwydd y bobl ifanc o ran eu hymddygiad ac wrth leisio eu barn yn hynod. Mwy hynod fyth oedd mor wybodus oedd y bobl ifanc ynglŷn â'r pynciau a drafodwyd. Adlewyrchai hyn y croestoriad eang o gefndiroedd y deuai'r bobl ifanc ohonynt. Un o egwyddorion sylfaenol Llais Ifanc yw ennyn cyfranogiad pobl ifanc o bob rhan o Gymru ac o bob cefndir.

Mae'n bwysig bod holl Aelodau'r Cynulliad yn cofleidio'r syniad o ennyn perthynas gyda phobl ifanc yn uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy bob ffordd sydd ar gael, gan gynnwys cyrff statudol a gwirfoddol a dulliau anffurfiol eraill.

Ni ddylai adroddiad ac argymhellion y gynhadledd fod yn ddim ond dechrau o ran nodi materion perthnasol a sefydlu dulliau effeithiol o roi sylw i anghenion pobl ifanc. Disgwylir y bydd Cynulliad Cenedlaethol

Assembly for Wales, through the Subject Committees' policy development role, will take young people's views into account. There is a central role for direct consultation with the National Assembly, especially through the Subject Committees. I hope that Young Voice will continue to probe young people, who are the most valuable source of ideas for the future of governance in Wales.

The conference must kick-start a permanent working relationship between young people and us. Young Voice must be encouraged to grow. At the end of Friday, the young people voted for a permanent engagement with the Assembly through this initiative. We cannot let this become a one-off event or an annual talking shop. If we do that, the fears expressed last Friday about the Assembly's commitment are in danger of becoming realised. We are not in the business of promoting young politicians. We want to promote a voice for young people in Wales to address the fundamental issues that affect their lives. A great part of the initiative's success is dependent on Members to encourage its development and to encourage Wales to lead the way in opportunities for participative democracy.

The Pierhead education and visitors centre, which will open in October, will help to raise this initiative's profile. The Office of the Presiding Officer has secured funding for a post, complementary to that of the Executive, in the Public Information and Education branch to act as a facilitator for Young Voice in the Assembly. That person will promote young people's engagement with and understanding of the Assembly. We want as many people as possible to see and experience the Assembly at work and keep young people up to date with the Assembly's business. We want to further collect ideas on the way in which young people want to see the Assembly operate.

We have opportunities as a hi-tech institution to liaise with schools and organisations that support young people in Wales. We must take all of these opportunities to encourage the young people of Wales to fully engage with their new democratic institution. The

Cymru, drwy rôl datblygu polisi y Pwyllgorau Pwnc, yn ystyried barn pobl ifanc. Mae gan ymgynghori uniongyrchol gyda'r Cynulliad Cenedlaethol rôl ganolog, yn enwedig drwy'r Pwyllgorau Pwnc. Gobeithiaf y bydd Llais Ifanc yn parhau i brocio pobl ifanc, sef y ffynhonnell syniadau fwyaf gwerthfawr ar gyfer dyfodol llywodraeth yng Nghymru.

Rhaid i'r gynhadledd gicdanio perthynas waith barhaol rhwng pobl ifanc a ninnau. Rhaid annog Llais Ifanc i dyfu. Ar ddiwedd dydd Gwener, pleidleisiodd y bobl ifanc o blaid perthynas barhaol gyda'r Cynulliad drwy'r fenter hon. Ni allwn adael i hyn ddod yn ddigwyddiad unwaith-ac-am-byth neu'n siop siarad flynyddol. Os gwnawn hynny, mae perygl i'r ofnau a fynegwyd ddydd Gwener diwethaf ynglŷn ag ymroddiad y Cynulliad gael eu gwireddu. Nid ydym yn y busnes o hyrwyddo gwleidyddion ifanc. Yr ydym am hyrwyddo llais i bobl ifanc yng Nghymru i roi sylw i'r materion sylfaenol sydd yn effeithio ar eu bywydau. Mae rhan fawr o lwyddiant y fenter hon yn ddibynnol ar i Aelodau annog ei datblygiad ac annog Cymru i arwain y ffordd o ran cyfleoedd ar gyfer democratiaeth gyfranogol.

Bydd canolfan addysg ac ymwelwyr Pierhead, a fydd yn agor fis Hydref, yn help i godi proffil y fenter hon. Mae Swyddfa'r Llywydd wedi sicrhau cyllid ar gyfer swydd, ategol i swydd y Weithrediaeth, yn y gangen Gwybodaeth ac Addysg Gyhoeddus i weithredu fel hwylusydd i Llais Ifanc yn y Cynulliad. Bydd y person hwnnw yn hyrwyddo cyfranogiad pobl ifanc gyda'r Cynulliad a'u dealltwriaeth ohono. Yr ydym am i gynifer â phosibl o bobl weld a phrofi'r Cynulliad wrth ei waith a sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod y diweddaraf am fusnes cyfredol y Cynulliad. Yr ydym am gasglu mwy o syniadau ynglŷn â'r ffordd y mae pobl ifanc am weld y Cynulliad yn gweithredu.

Mae gennym gyfleoedd fel sefydliad uwch-dechnoleg i gysylltu ag ysgolion a chyrrff sydd yn cefnogi pobl ifanc yng Nghymru. Rhaid inni fanteisio ar yr holl gyfleoedd hyn i annog pobl ifanc Cymru i gyfrannu'n llawn tuag at eu sefydliad democrataidd newydd.

Office of the Presiding Officer will play its role on behalf of the Assembly in supporting this groundbreaking initiative. However, we must all commit ourselves to making it work.

Cynog Dafis: Yr wyf yn falch o fodolaeth y fenter bwysig hon ac i'r gynhadledd gael ei chynnal. Yr wyf hefyd yn falch fod Andrew Davies wedi esbonio i'r bobl ifanc nad oedd rhai Aelodau yn gallu bod yn bresennol oherwydd cyfarfodydd Pwyllgorau Rhanbarth, yn enwedig y ddau Aelod o'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, sydd â chyfrifoldeb am bobl ifanc. Mae'n chwith gennyf na allwn fod yn bresennol.

3:42 p.m.

Yr oeddwn yn falch o glywed rhai o'r cynlluniau y mae Jane Davidson, yn arbennig, wedi eu disgrifio. Os ydym yn mynd i ymwneud o ddifrif gyda phobl ifanc, ac nid mewn ffordd gosmetig yn unig, rhaid inni nid yn unig wrando arnynt ond cynnal deialog gyda nhw a hefyd gymryd rhan mewn proses o'u haddysgu ac addysgu ein hunain ar yr un pryd.

Yn benodol, bydd angen i bobl ifanc ddeall bod rhaid, mewn gwleidyddiaeth ac mewn bywyd yn gyffredinol, cymryd penderfyniadau ar sail data a gwneud dewisiadau yn ôl gwerthoedd, blaenoriaethau ac ati. A fyddai modd sicrhau mewn sesiynau yn y dyfodol fod pobl ifanc yn derbyn briff, ac yn helpu i baratoi briff eu hunain, fel sail i drafodaethau ynglŷn â'r pynciau sylweddol sydd yn allweddol i'r Cynulliad ac i Gymru?

Awgrymaf ddau bwnc a fyddai o ddiddordeb arbennig i bobl ifanc. Mae holl faes datblygu cynaliadwy, mewn perthynas â chyfrifoldeb y Cynulliad ond o'i osod hefyd yn y cyd-destun byd-eang, yn bwnc a fyddai'n apelio'n arbennig at bobl ifanc ac sydd yn ymwneud mewn ffordd real â'u dyfodol.

Yn ail, holl gwestiwn datblygiad cyfansoddiadol Cymru. Efallai y byddai modd cysylltu hynny gyda'r adolygiad sydd yn mynd i ddigwydd ynglŷn â'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio dros y flwyddyn nesaf. Efallai y byddai modd eu gwahodd i ystyried opsiynau cyfansoddiadol ar gyfer

Bydd Swyddfa'r Llywydd yn chwarae ei rhan ar ran y Cynulliad wrth gefnogi'r fenter hon sydd yn torri tir newydd. Fodd bynnag, rhaid i bawb ohonom ymrwymo i wneud iddi weithio.

Cynog Dafis: I am pleased about the existence of this important initiative and that the conference was held. I am also pleased that Andrew Davies explained to the young people that some Members could not attend because of Regional Committee meetings, especially the two Members from the Post-16 Education and Training Committee, which has responsibility for young people. I regret that I could not attend.

I was pleased to hear of some of the schemes that Jane Davidson, in particular, has described. If we are going to be seriously involved with young people, and not only in a cosmetic manner, we must not only listen to them but sustain a dialogue with them and also participate in a process of educating them and educating ourselves at the same time.

Specifically, young people will need to understand that, in politics and in life generally, decisions have to be taken on the basis of data and choices made according to values, priorities and so on. Would it be possible in future sessions to ensure that young people receive a brief, and help to prepare a brief themselves, as a basis for discussions regarding the substantial subjects that are vital to the Assembly and to Wales?

I suggest two subjects that would be of particular interest to young people. The whole field of sustainable development, in relation to the Assembly's responsibility but also setting it in the global context, is a topic that would appeal particularly to young people and relates directly to their future.

Secondly, the whole question of the constitutional development of Wales. Perhaps it would be possible to link that with the review that will take place of the way in which the Assembly works over the next year. Perhaps it would be possible to invite them to consider constitutional options for

Cymru yn y dyfodol, lle Cymru o fewn fframwaith Prydeinig ac Ewropeaidd, fel ffordd o agor deialog. Dyna bwnc Cymreig a phwnc byd-eang ar yr un pryd.

Jane Davidson: I will mention a couple of points from the Office of the Presiding Officer's perspective. First, the evidence base issue is important. Today's proceedings will contribute towards the young people's review of the seminar on Friday. It is important that the views of Members taking the opportunity to make statements and to ask questions on this initiative are fed back to that review. Secondly, subject to the parameters suggested by the First Secretary and agreed earlier with the Office of the Presiding Officer, the review will be seeking evidence from interested groups and Young Voice would be such an interested group.

Jonathan Morgan: I congratulate the Office of the Presiding Officer on its commitment to this project. It is a sad fact that young people do not like politicians. That has been borne out by much of the research that has been conducted particularly by the Joseph Rowntree Foundation. We are not going to correct the problems that exist within the relationship between politicians and young people overnight, with one project or one conference. It is frustrating that in many respects the young people that came here last week felt let down by Members who were not able to attend.

I echo the Deputy Presiding Officer's remarks in stating that Young Voice should start to emphasise the considerable work opportunities that exist in the Assembly. Many Members open up their offices for people on work experience projects to come here and engage in much of the work that goes on, particularly in Plenary and Committee. That process would open up the Assembly to young people. We need to be able to market that among schools and colleges. Young people should be made more and more aware that they have this opportunity to come here and work, not only during their work experience time but also during the summer. Members should be spending more time visiting our schools and colleges. The Pre-16 Education, Schools and

Wales in the future, Wales's place in a British and European framework, as a way of opening a dialogue. That is a Welsh issue and a global issue at the same time.

Jane Davidson: Soniaf am ychydig o bwyntiau o safbwynt Swyddfa'r Llywydd. Yn gyntaf, mae'r mater ynglŷn â sylfaen tystiolaeth yn bwysig. Bydd trafodion heddiw yn cyfrannu at adolygiad y bobl ifanc o'r seminar ddydd Gwener. Mae'n bwysig bod barn Aelodau sydd yn achub ar y cyfle i wneud datganiadau a gofyn cwestiynau am y fenter hon yn cael eu bwydo'n ôl i'r adolygiad hwnnw. Yn ail, yn amodol ar y paramedrau a awgrymwyd gan y Prif Ysgrifennydd ac y cytunwyd arnynt yn gynharach gyda Swyddfa'r Llywydd, bydd yr adolygiad yn ceisio tystiolaeth oddi wrth grwpiau sydd â buddiant a byddai Llais Ifanc yn grŵp o'r fath.

Jonathan Morgan: Llongyfarchaf Swyddfa'r Llywydd ar ei hymrwymiad i'r prosiect hwn. Mae'n ffaith drist nad yw pobl ifanc yn hoffi gwleidyddion. Profwyd hynny gan lawer o'r ymchwil a wnaethpwyd yn enwedig gan Sefydliad Joseph Rowntree. Nid ydym yn mynd i ddatrys y problemau sydd yn bodoli yn y berthynas rhwng gwleidyddion a phobl ifanc dros nos, gydag un prosiect neu gynhadledd. Mae'n destun rhwystredigaeth mewn llawer ffordd fod y bobl ifanc a ddaeth yma yr wythnos diwethaf yn teimlo eu bod wedi eu siomi gan Aelodau a oedd yn methu bod yn bresennol.

Adleisiaf sylwadau'r Dirprwy Lywydd wrth ddatgan y dylai Llais Ifanc ddechrau pwysleisio'r cyfleoedd gwaith sylweddol sydd yn bodoli yn y Cynulliad. Mae llawer o'r Aelodau yn agor eu swyddfeydd i bobl ar brosiectau profiad gwaith ddod yma a chyfranogi mewn llawer o'r gwaith sydd yn mynd rhagddo, yn enwedig mewn Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau. Byddai'r broses honno yn agor y Cynulliad i bobl ifanc. Mae angen inni allu marchnata hynny ymysg ysgolion a cholegau. Dylid gwneud pobl ifanc yn fwy a mwy ymwybodol bod ganddynt gyfle i ddod yma i weithio, nid yn unig yn ystod eu cyfnod ar brofiad gwaith ond hefyd dros yr haf. Dylai Aelodau dreulio mwy o amser yn ymweld â'n hysgolion a'n colegau. Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16

Early Learning Committee has done this as part of its work. By getting into schools and by engaging with young people, you will find that young people are keen once you are there to talk to you about issues of the day and about the work that you do.

We need to make greater use of the technological opportunities that we have in reaching out to young people, but essentially it is about the marketing. Young people need to be aware of what we are doing. It may need glossy brochures or information leaflets, but we will need to get as much information out into the schools as possible. By marketing this over time, a more productive relationship will develop between the Assembly, schools and colleges and between ourselves and youth groups. It will not happen with one project, scheme or conference. As an elected institution, we have made a good start.

Andrew Davies: It is unusual to have a joint statement by the Executive and the Office of the Presiding Officer. My colleagues, Tom Middlehurst and Rosemary Butler, have policy responsibility for this and will respond in terms of policy. This is really a process issue about how we relate to young people and people outside the Assembly. It is not a question of glossy leaflets and high technology. It is about our willingness as an institution to engage with the people of Wales. It is about active citizenship and about our attitudes, institutions and processes being open and accessible. Young people will rightly be cynical if we do not listen to them. Glossy productions will not make up for that.

Christine Humphreys: I also apologise for not being present on the occasion in question. Like other Members, I was in north Wales. I welcome the Young Voice initiative. I have believed for a long time that young people's voices should be heard. It does not surprise me that the young people who came here on Friday showed immense maturity. Their maturity is obvious to most teachers. I firmly believe that somebody who is old enough to join the army or get married at 16 years of age should be given the vote as well. I am sure that the young people who were here on

Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar wedi gwneud hyn fel rhan o'i waith. Drwy fynd i mewn i ysgolion ac ennyn perthynas gyda phobl ifanc, fe welwch fod pobl ifanc yn awyddus unwaith yr ydych yno i siarad â chi am faterion y dydd ac am eich gwaith.

Mae angen inni wneud mwy o ddefnydd o'r cyfleoedd technolegol sydd gennym wrth ymestyn allan at bobl ifanc, ond yn ei hanfod mater o farchnata yw hyn. Mae angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o'r hyn a wnawn. Efallai y bydd angen pamffledi sglein neu daflenni gwybodaeth, ond bydd angen inni gael cymaint â phosibl o wybodaeth i mewn i'r ysgolion. Drwy farchnata hyn dros gyfnod, datblygir perthynas fwy cynhyrchiol rhwng y Cynulliad, ysgolion a cholegau a rhyngom ni a grwpiau ieuenctid. Ni fydd yn digwydd drwy un prosiect, cynllun neu gynhadledd. Fel sefydliad etholedig, yr ydym wedi gwneud dechrau da.

Andrew Davies: Mae'n anarferol cael datganiad ar y cyd gan y Weithrediaeth a Swyddfa'r Llywydd. Mae gan fy nghyd-Aelodau, Tom Middlehurst a Rosemary Butler, gyfrifoldeb polisi am hyn a byddant yn ymateb yn nhermau polisi. Mater o broses ynglŷn â'n perthynas gyda phobl ifanc a phobl y tu allan i'r Cynulliad yw hwn mewn gwirionedd. Nid cwestiwn o daflenni sglein ac uwch-dechnoleg mohono. Mae a wnelo â'n parodrwydd fel sefydliad i lunio perthynas gyda phobl Cymru. Mae a wnelo â dinasyddiaeth fyw a bod ein hagweddu, ein sefydliadau a'n prosesau yn agored a hygyrch. Bydd pobl ifanc yn iawn i fod yn sinigaidd oni wrandawn arnynt. Ni fydd cyhoeddiadau sglein yn gwneud iawn am hynny.

Christine Humphreys: Ymddiheuraf finnu hefyd am beidio â bod yn bresennol ar yr achlysur dan sylw. Fel Aelodau eraill, yr oeddwn yng ngogledd Cymru. Croesawaf fenter Llais Ifanc. Credais ers amser maith y dylai lleisiau pobl ifanc gael eu clywed. Nid yw'n syndod imi i'r bobl ifanc a ddaeth yma ddydd Gwener ddangos aeddfedrwydd aruthrol. Mae eu haeddfedrwydd yn amlwg i'r rhan fwyaf o athrawon. Credaf yn gryf y dylai rhywun sydd yn ddigon hen i ymuno â'r fyddin neu briodi yn 16 oed gael pleidlais hefyd. Yr wyf yn sicr i'r bobl ifanc a oedd

Friday showed that.

Jenny Randerson was here on Friday. She tells me that we have a lot to learn from young people. During the question and answer session, long speeches were met with cards saying 'boring', and long, convoluted speeches were met with cards saying 'jargon'. That made responses from the panel much sharper.

I reiterate some of the concerns that I have had in Committee, and since, about how membership of Young Voice was drawn up. I would like a clear explanation of how that membership was drawn up because I have been told by representatives of the Scout movement that they only knew of the event three days before it happened, and the Girl Guide movement did not even know until the day that it was to happen. There is more room for consultation and co-operation with youth movements. Of course, this is a learning process, but I have a suggestion for Andrew for next year. Although this occasion was given one of our constituency days, next year we will have Plenary sessions on Thursday so we should arrange a Wednesday without Committees this time next year so that everybody can be present to join in the next Young Voice initiative. If there are to be 60 representatives, we should be paired with a representative from our constituency or region, and not necessarily from our own political party.

Jane Davidson: On directions from the Chair, I will be brief. Consultation is an intricate art, which many Members in the Chamber do not think that the Assembly has mastered yet. It would be extraordinary if we got the issue of consultation right the first time that we engaged with young people in Wales. I welcome those comments because they are important for the organisations that are helping young people to put this project together. It is their project, not ours. It is important that they hear Members' views and take them on board for another year.

Secondly, I am not going to name names. From the perspective of the Office of the Presiding Officer, we serve all Assembly

yma ddydd Gwener ddangos hynny.

Yr oedd Jenny Randerson yma ddydd Gwener. Dywed wrthyf fod gennym lawer i'w ddysgu gan bobl ifanc. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb, yr ymateb i areithiau hir oedd cardiau'n dweud 'diflas', a'r ymateb i areithiau hir, astrus oedd cardiau'n dweud 'jargon'. Gwnaeth hynny'r ymatebion o du'r panel yn llawer mwy miniog.

Ailadroddaf rai o'r pryderon a fu gennym yn y Pwyllgor, ac ers hynny, ynglŷn â'r modd y lluniwyd aelodaeth Llais Ifanc. Hoffwn gael esboniad clir o sut y lluniwyd yr aelodaeth honno oherwydd dywedwyd wrthyf gan gynrychiolwyr o fudiad y Sgowtiaid mai dim ond tridiau ymlaen llaw y clywsant am y digwyddiad, ac nid oedd mudiad y Geidiaid yn gwybod amdano tan y diwrnod yr oedd i'w gynnal. Mae mwy o le i ymgynghori a chydweithredu gyda mudiadau ieuenctid. Wrth gwrs, proses ddysgu yw hon, ond mae gennyf awgrym i Andrew erbyn y flwyddyn nesaf. Er y rhoddwyd un o'n diwrnodau etholaeth i'r digwyddiad hwn, y flwyddyn nesaf cynhelir Cyfarfod Llawn ar y dydd Iau felly dylem drefnu dydd Mercher heb Bwyllgorau yr adeg hon y flwyddyn nesaf fel y gall pawb fod yn bresennol i ymuno yn y fenter Llais Ifanc nesaf. Os bydd 60 o gynrychiolwyr, dylem gael ein paru gyda chynrychiolydd o'n hetholaeth neu ranbarth, ac nid o reidrwydd o'n plaid wleidyddol ein hunain.

Jane Davidson: Ar gyfarwyddyd y Cadeirydd, byddaf yn fyr. Mae ymgynghori yn gelfyddyd anodd, y mae llawer o'r Aelodau yn y Siambr yn credu nad yw'r Cynulliad wedi ei meistroli eto. Byddai'n beth anghyffredin pe baem wedi cael yr ystyriaethau ymgynghori yn iawn y tro cyntaf inni ennyn cysylltiad gyda phobl ifanc yng Nghymru. Croesawaf y sylwadau hynny oherwydd maent yn bwysig i'r mudiadau sydd yn helpu pobl ifanc i roi'r prosiect hwn at ei gilydd. Eu prosiect hwy ydyw, nid ein hun ni. Mae'n bwysig eu bod yn clywed barn yr Aelodau ac yn gweithredu arnynt ar gyfer blwyddyn arall.

Yn ail, nid wyf yn mynd i enwi enwau. O safbwynt Swyddfa'r Llywydd, yr ydym yn gwasanaethu holl Aelodau'r Cynulliad.

Members. Those of you who received negative cards know who they are, and it has generated a proposal in this Chamber that the cards are used elsewhere.

I welcome the commitment of Assembly Members to making this initiative work. The Young Voice steering group will find this positive when looking at arrangements for another year.

3:52 p.m.

Pwyntiau o Drefn Points of Order

The Presiding Officer: I inform Members that I am keen to protect the time of the important debate on the report of the Committee on Equality of Opportunity.

Michael German: Point of order. I raise this under Standing Order No. 7.3. It relates to the Plenary debate held on 5 July on the crisis in Welsh-medium education in Swansea. I have in front of me a copy of the official record. In that debate, you intervened in Owen John Thomas's speech on three occasions to tell him that his time was up. First, you asked: 'Will you conclude?'; secondly, you said 'Order . . . you have had one minute'; thirdly, you said 'Order. Your time is up.' On each occasion, the speaker continued. What ruling do you make regarding speakers whom you have told to stop speaking, in respect of Standing Order No. 7.3?

The Presiding Officer: Thank you for that point of order. I can only operate if Members follow the rules. When I direct Members to take an action, or not to take a course of action, I do so in the interests of good order. It is not my intention to impose a sanction at this time. However, when the clocks are installed, it will be possible for all to see clearly and publicly for how long people have spoken. That will be particularly useful during short debates, in which short speeches of one minute have been the established practice.

Mae'r rheini ohonoch a dderbyniodd gardiau negyddol yn gwybod pwy ydych, ac mae wedi creu cynnig yn y Siambr hon y dylid defnyddio'r cardiau mewn manau eraill.

Croesawaf ymroddiad Aelodau'r Cynulliad i wneud i'r fenter hon weithio. Bydd grŵp llywio Llais Ifanc yn ystyried hynny'n beth cadarnhaol wrth edrych ar y trefniadau ar gyfer blwyddyn arall.

Y Llywydd: Hysbysaf yr Aelodau fy mod yn awyddus i ddiogelu amser y ddadl bwysig ar adroddiad y Comisiwn Cyfle Cyfartal.

Michael German: Pwynt o drefn. Codaf hyn o dan Reol Sefydlog Rhif 7.3. Mae'n ymwneud â'r ddadl a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf am yr argyfwng mewn addysg cyfrwng-Cymraeg yn Abertawe. Mae gennyf o'm blaen gopi o'r cofnod swyddogol. Yn y ddadl honno, ymyrasoch yn araith Owen John Thomas deirgwaith i ddweud wrtho fod ei amser ar ben. Yn gyntaf, gofynasoch: 'A wnewch chi ddod i derfyn?'; yn ail, dywedoch 'Trefn . . . yr ydych wedi cael munud'; yn drydydd, dywedoch 'Trefn. Mae eich amser ar ben.' Ar bob achlysur, aeth y siaradwr yn ei flaen. Pa reol a wnewch chi ynglŷn â siaradwyr yr ydych wedi dweud wrthynt am roi'r gorau i siarad, mewn perthynas â Rheol Sefydlog Rhif 7.3?

Y Llywydd: Diolch ichi am y pwynt o drefn hwnnw. Ni allaf ond gweithredu os yw'r Aelodau'n dilyn y rheolau. Byddaf yn cyfarwyddo Aelodau i weithredu, neu i beidio â gweithredu mewn rhyw ffordd, er mwyn cael trefn dda. Nid fy mwriad yw gosod cosb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ar ôl i'r clociau gael eu gosod, bydd yn bosibl i bawb weld yn glir a chyhoeddus pa mor hir y bu pobl yn siarad. Bydd hynny yn neilltuol o ddefnyddiol yn ystod dadleuon byr, lle mai'r arfer sefydlog yw areithiau byr sydd yn funud o hyd.

A hoffech ddweud unrhyw beth, Owen John?

Do you wish to say anything, Owen John?

Owen John Thomas: Dim diolch.

Owen John Thomas: No, thank you.

Alison Halford: Point of order. I know that time is short, so I am grateful for your indulgence. I wish to have your guidance on a matter that has arisen as a result of my membership of the Audit Committee. I have been debarred from sitting on this Committee tomorrow, when it will consider the Cardiff Bay Barrage. I do not question the decision to bar me, which has been taken because I, as a member of the Local Government and Housing Committee, have already taken part in proceedings relating to the barrage. However, there are major issues that I feel may not be explored by the Audit Committee in my absence. I am concerned by the escalating cost of the project, for example. How can this project, which already costs some £200 million, have further unplanned expenditure of £12 million?

Alison Halford: Pwynt o drefn. Gwn fod amser yn fyr, felly yr wyf yn ddiolchgar am eich goddefgarwch. Hoffwn gael eich arweiniad ar fater sydd wedi codi yn sgîl fy aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio. Fe'm gwaharddwyd rhag eistedd ar y Pwyllgor hwn yfory, pan fydd yn ystyried Morglawdd Bae Caerdydd. Nid wyf yn cwestiynu'r penderfyniad i'm gwahardd, a gymerwyd am fy mod i, fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, eisoes wedi cymryd rhan mewn trafodion ynglŷn â'r morglawdd. Fodd bynnag, mae materion o bwys y teimlaf na all y Pwyllgor Archwilio eu harchwilio yn fy absenoldeb. Yr wyf yn bryderus ynglŷn â chost gynyddol y prosiect, er enghraifft. Sut y gall y prosiect hwn, sydd eisoes wedi costio tua £200 miliwn, fod â gwariant pellach nad yw wedi'i gynllunio o £12 miliwn?

The Presiding Officer: Order. This is not an opportunity for you to make a speech about the barrage, but a point of order for my consideration.

Y Llywydd: Trefn. Nid cyfle ichi wneud araith am y morglawdd mo hwn, ond pwynt o drefn i mi ei ystyried.

Alison Halford: The point that I am making, Presiding Officer, and I apologise for doing so in such a lengthy way, is that there are cost issues that are relevant to the people that I serve in north Wales. If I, as a representative of north Wales, am not allowed to attend that Committee meeting, could I seek your guidance as to how we can ensure that questions are raised in that meeting to allow me, as a representative of the north, to represent those people? That is my point.

Alison Halford: Y pwynt yr wyf yn ei wneud, Lywydd, ac ymddiheuraf am wneud hynny mewn ffordd mor faith, yw bod ystyriaethau cost sydd yn berthnasol i'r bobl a gynrychiolaf fi yng ngogledd Cymru. Os na chaniateir i mi, fel cynrychiolydd o ogledd Cymru, fynd i gyfarfod y Pwyllgor, a gaf i geisio eich arweiniad ynglŷn â sut mae sicrhau bod y cwestiynau a godir yn y cyfarfod hwnnw yn caniatáu i mi, fel cynrychiolydd o'r gogledd, gynrychioli'r bobl hynny? Dyna fy mhwynt.

The Presiding Officer: Further to that point of order, I call Janet Davies, Chair of the Audit Committee.

Y Llywydd: Yng nghyswllt y pwynt hwnnw o drefn, galwaf ar Janet Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Janet Davies: This issue is covered by Standing Orders. The Audit Committee does not have the option of allowing Members to consider an issue when they have already considered it elsewhere. However, Standing Orders were recently changed to allow for substitute members. Letters were sent to the three members affected and the other two members have named substitutes. It was at

Janet Davies: Ymdrinnir â'r mater hwn yn y Rheolau Sefydlog. Nid oes gan y Pwyllgor Archwilio yr opsiwn o ganiatáu i Aelodau ystyried mater pan fônt eisoes wedi ei ystyried yn rhywle arall. Fodd bynnag, newidiwyd y Rheolau Sefydlog yn ddiweddar i ganiatáu ar gyfer aelodau dirprwyol. Anfonwyd llythyrau at y tri aelod yr effeithiwyd arnynt ac mae'r ddau aelod arall

Alison Halford's discretion to name a substitute, to whom she could have explained the issues relating to the north. I am sorry, but this is not my decision as the Chair of the Audit Committee. The Audit Committee itself has the final say. This is in Standing Orders.

The Presiding Officer: The Audit Committee and our other Committees that deal with our financial or subject procedures, are not constructed on the basis of regional balance. Therefore, the issue of regional balance does not arise. I regret that it was not possible to provide a substitute in this case. However, I cannot intervene in the matter of this Standing Order. This is how the Audit Committee proceeds. There will be many other opportunities for Members for north Wales, of which I am one, to raise issues relating to the barrage or any other issues relating to Wales as a whole.

wedi enwi dirprwyon. Yr oedd gan Alison Halford yr hawl i enwi dirprwy, y gallai hi fod wedi egluro'r ystyriaethau'n ymwneud â'r gogledd wrtho neu wrthi. Mae'n ddrwg gennyf, nid fy mhenderfyniad i fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio mo hwn. Y Pwyllgor Archwilio ei hun sydd â'r gair olaf. Mae hyn yn y Rheolau Sefydlog.

Y Llywydd: Nid yw'r Pwyllgor Archwilio na'n Pwyllgorau eraill sydd yn delio â'n trefniadau ariannol neu bynciol wedi'u llunio ar sail cydbwysedd rhanbarthol. Felly, nid yw mater cydbwysedd rhanbarthol yn codi. Mae'n ddrwg gennyf na fu'n bosibl darparu dirprwy yn yr achos hwn. Fodd bynnag, ni allaf ymyrryd ym mater y Rheol Sefydlog hon. Dyma sut y mae'r Pwyllgor Archwilio yn gweithredu. Bydd llawer o gyfleoedd eraill i Aelodau gogledd Cymru, yr wyf fi yn un ohonynt, godi materion yn ymwneud â'r morglawdd neu unrhyw faterion eraill yn ymwneud â Chymru gyfan.

Cymeradwyo Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000 Approval of the Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000

The Secretary for Education and Children (Rosemary Butler): I propose that

the National Assembly:

considers the principle of the Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000 laid in the Table Office on 29 June 2000.

I propose that

the National Assembly

(a) considers the report of the Legislation Committee relating to the draft Order, the Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2000 laid in the Table Office on 5 July 2000.

(b) approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 29 June 2000.

Under section 41 (1) (b) of the School Standards and Framework Act 1998, the governing body of a community, voluntary

Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler): Cynigiau fod

y Cynulliad Cenedlaethol:

yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2000.

Cynigiau fod

y Cynulliad Cenedlaethol

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd yn ymwneud â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2000.

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2000.

O dan adran 41 (1) (b) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, corff llywodraethol ysgol gymuned, ysgol a reolir

controlled or community special school is responsible for determining the times of school sessions—the time at which each of the school sessions is to begin and end on any day. These regulations set out the procedures to be taken by the governing bodies of community, voluntary controlled or community special schools before making any changes in session times. They do not apply to foundation, voluntary aided or foundation special schools.

The powers enabling this instrument to be made are contained in the School Standards and Framework Act 1998 as devolved to the Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999.

Governing bodies are already responsible for setting the times at which school sessions begin and end under the Deregulation (Length of School Day) Order 1996 (SI No. 1996/951). The existing regulations need to be updated following the introduction of section 20 of the School Standards and Framework Act, which requires new categories of schools to be introduced. That includes community, voluntary controlled, community special, foundation, voluntary aided or foundation special schools.

While the basic principle of the governing body's role remains—the duty to consult the headteacher, draw up a statement detailing proposed changes, and consult parents—the revised regulations introduce some differences in the requirements of the timing of the changes and those to be consulted. Regulation 2 (1) (a) states that the requirement for governing bodies to consult the LEA and headteachers has been extended to include all persons employed in any teaching or non-teaching post at the school. Regulation 2 (2) states that in the case of changes that affect the midday break, governing bodies are required to give six weeks' notice before any changes to a school session take effect, as opposed to the current three months. Regulation 2 (3) states that in the case of changes that involve the time at which a school session is to begin in the morning or end in the afternoon, or both as

yn wirfoddol neu ysgol gymuned arbennig sydd yn gyfrifol am bennu amserau pob sesiwn ysgol—yr amser pan fo pob un o sesiynau'r ysgol yn dechrau a gorffen ar unrhyw ddiwrnod. Y rheoliadau hyn sydd yn pennu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan gyrff llywodraethol ysgolion cymuned, ysgolion a reolir yn wirfoddol neu ysgolion cymuned arbennig cyn newid amserau'r sesiynau o gwbl. Nid ydynt yn berthnasol i ysgolion sylfaen, ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol nac ysgolion sylfaen arbennig.

Mae'r pwerau sydd yn galluogi'r offeryn hwn i gael ei wneud yn gynwysedig yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'u datganolwyd i'r Cynulliad gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Mae cyrff llywodraethol eisoes yn gyfrifol am osod yr amserau pryd y mae sesiynau ysgol yn dechrau a gorffen o dan Orchymyn Dadreoleiddio (Hyd Diwrnod Ysgol) 1996 (SI Rhif 1996/951). Mae angen diweddarau'r rheoliadau presennol yn sgîl cyflwyno adran 20 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, sydd yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno categorïau newydd o ysgolion. Mae hynny'n cynnwys ysgolion cymuned, ysgolion a reolir yn wirfoddol, ysgolion cymuned arbennig, ysgolion sylfaen, ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion sylfaen arbennig.

Tra bo egwyddor sylfaenol rôl y corff llywodraethol yn aros—y ddyletswydd i ymgynghori â'r pennaeth, llunio datganiad yn manylu ar newidiadau arfaethedig, ac ymgynghori â rhieni—mae'r rheoliadau diwygiedig yn cyflwyno rhai gwahaniaethau yng ngofynion amseriad y newidiadau a'r rheini y mae'n rhaid ymgynghori â hwy. Dywed Rheoliad 2 (1) (a) bod y gofyniad ar i gyrff llywodraethol ymgynghori â'r AAL i phenaethiaid wedi ei ehangu i gynnwys pob person a gyflogir mewn unrhyw swydd ddysgu neu swydd arall yn yr ysgol. Dywed Rheoliad 2 (2) bod gofyn i gyrff llywodraethol, yn achos newidiadau sydd yn effeithio ar yr egwyl canol dydd, roi chwe wythnos o rybudd cyn rhoi unrhyw newidiadau i sesiwn ysgol ar waith, yn hytrach na'r tri mis ar hyn o bryd. Dywed Rheoliad 2 (3) fod gofyn i gyrff llywodraethol, yn achos newidiadau sydd yn

the case may be, governing bodies are required to give three months' notice before any changes take place. While this reflects the current procedure, it has been included here to provide clarity on the change proposed in regulation 2 (2). Regulation 3 states that where changes to a school session time involve the time at which a session is to begin in the morning or end in the afternoon, or both as the case may be, these changes can only be introduced at the beginning of the school year. In all other cases, changes can be introduced at the beginning of the school term. Previously, changes could only be introduced at the beginning of the school year.

These regulations will not place additional financial or administrative burdens on schools, nor should they prove contentious. I look forward to the Assembly's agreement for their introduction from 1 September.

Gareth Jones: Mae'r rheoliadau hyn yn bwysig. Fel y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant, maent yn dylanwadu nid yn unig ar y plant a'r athrawon ond ar holl weithgarwch yr ysgol a phawb sydd yn ymwneud â hi. O ddeall o'r rheoliadau bod rheidrwydd ar y corff llywodraethol i ymgynghori, yr wyf yn fwy na bodlon i'w derbyn a'u cymeradwyo ar sail hynny.

The Presiding Officer: You do not have to respond to that, Rosemary. Gareth Jones was agreeing with you.

We will now vote on the principle of the Order.

effeithio ar yr amser pan fo sesiwn ysgol yn dechrau yn y bore neu'n gorffen yn y prynhawn, neu'r ddau fel y bo, roi tri mis o rybudd cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith. Tra bo hyn yn adlewyrchu'r drefn bresennol, mae wedi ei gynnwys yma i egluro'r newid a awgrymir yn rheoliad 2 (2). Dywed Rheoliad 3, lle bo newidiadau i amser sesiwn ysgol yn effeithio ar yr amser pan fo sesiwn i ddechrau yn y bore neu orffen yn y prynhawn, neu'r ddau fel y bo, na ellir cyflwyno'r newidiadau hyn ond ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Ym mhob achos arall, gellir cyflwyno newidiadau ar ddechrau tymor ysgol. Cyn hyn, ni ellid cyflwyno newidiadau ond ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

Ni fydd y rheoliadau hyn yn rhoi beichiau ariannol na gweinyddol ychwanegol ar ysgolion, ac ni ddylent fod yn ddadleuol ychwaith. Edrychaf ymlaen at i'r Cynulliad gytuno eu bod i gael eu cyflwyno o 1 Medi.

Gareth Jones: These regulations are important. As the Secretary for Education and Children mentioned, they affect not only children and teachers but all the activities of the school and everyone involved with it. Having understood from the regulations that the governing body is obliged to consult, I am more than willing to accept and approve them on that basis.

Y Llywydd: Nid oes rhaid ichi ymateb i hynny, Rosemary. Yr oedd Gareth Jones yn cytuno â chi.

Pleidleisiwn yn awr ar egwyddor y Gorchymyn.

*Cynnig: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 35, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Edwards, Richard
Essex, Sue

Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

The Presiding Officer: We will now vote on approving the Order.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar gymeradwyo'r Gorchymyn.

Cynnig: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 35, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Ryder, Janet

Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

4:02 p.m.

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000
The General Teaching Council for Wales (Functions) Regulations 2000

The Secretary for Education and Children (Rosemary Butler): I propose that

Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler): Cynigaf fod

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol:

considers the principle of the General Teaching Council for Wales (Functions) Regulations 2000 laid in the Table Office on 26 June 2000.

yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2000.

The General Teaching Council is due to be formally established on 1 September this year. It will be an independent professional body for teachers providing an authoritative voice for the teaching profession and working with the National Assembly and others to raise standards. Two of the principal functions of the General Teaching Council for Wales, as set out in the Teaching and Higher Education Act 1998, are to establish and maintain a register of teachers in accordance with the regulations and to maintain records including those of people not eligible for registration as required by regulations and Order.

Mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol i gael ei sefydlu'n ffurfiol ar 1 Medi eleni. Bydd yn gorff proffesiynol annibynnol i athrawon a fydd yn rhoi llais awdurdodol i'r proffesiwn dysgu ac yn gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ac eraill i godi safonau. Dwy o swyddogaethau pennaf Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, fel y'u pennwyd yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, yw sefydlu a chynnal cofrestr athrawon yn unol â'r rheoliadau a chadw cofnodion gan gynnwys cofnodion am y bobl hynny nad ydynt yn gymwys i gael eu cofrestru fel sydd yn ofynnol yn ôl y rheoliadau a'r Gorchymyn.

The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000 enables the council to maintain records and prescribe categories of persons who could not be covered by the council's register of teachers. For example, teachers who have been removed from the register following disciplinary action. The regulations of which we are now debating the principle will provide for the form and manner in which the General Teaching Council will keep its register. The register will include sufficient information for employers to ensure that teachers and prospective teachers are properly qualified and registered. In the interest of openness, the regulations will also

Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000 yn galluogi'r cyngor i gadw cofnodion a phennu categorïau o bobl na ellid eu cynnwys o fewn cofrestr athrawon y cyngor. Er enghraifft, athrawon a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn dilyn camau disgyblu. Bydd y rheoliadau yr ydym yn trafod eu hegwyddor ar hyn o bryd yn pennu ar ba ffurf a thrwy ba ddull y bydd y Cyngor Addysgu Cyffredinol yn cynnal ei gofrestr. Bydd y gofrestr yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ar gyfer cyflogwyr i sicrhau bod gan athrawon a darpar athrawon y cymwysterau priodol a'u bod wedi'u cofrestru. Er mwyn bod yn agored, bydd y rheoliadau hefyd yn caniatáu

allow the council to inform a member of the public if a person is a registered teacher. Areas covered by the regulations include the registration process itself, the content of the register, amendments to and divisions of the register, the charging of a registration fee, revisions to entries on the register, registration certificates, public access and supply of information, maintenance of records and a code of practice.

The regulations will be largely permissive in that they enable the General Teaching Council for Wales to decide for itself what are largely procedural matters related to the registration of teachers. Only where the enabling legislation requires, or those consulted have asked that safeguards be introduced, will the regulations be prescriptive. In practice, this means that the regulations will prescribe the content of the register and the public access to the register. The former is a requirement of the enabling legislation. The latter is to provide reassurance to teachers about information that can be released. Over the last 12 months, the regulations have been the subject of consultation on both policy and detail by a wide range of bodies with an interest in the teaching profession and education. The response has been positive. In view of this, the reason that I am only asking Members to approve the principle of these regulations today and not asking them to agree the Orders is because Owen John Thomas, Gareth Jones and Jocelyn Davies have asked me to consider adding to a clause to schedule 1 of Regulation 6(16) to cover teachers who are able to teach Welsh as a second language.

In practice this amendment to the regulations will mean that the council's database of registered teachers will include an additional field to capture this information. I have considered the suggested amendment and have agreed to take this on board. I suggest that the way forward is for me to withdraw the regulations as they stand so that I can add the additional clause to say,

'where the teacher is able to teach Welsh second language, an indication of the fact',

and then use the executive procedure to put

i'r cyngor roi gwybod i aelod o'r cyhoedd a yw person yn athro cofrestredig. Ymysg y meysydd y mae'r rheoliadau yn ymdrin â hwy mae'r broses cofrestru ei hun, cynnwys y gofrestr, newidiadau i'r gofrestr ac isrannau ohoni, codi tâl cofrestru, diwygio'r cofnodion yn y gofrestr, tystysgrifau cofrestru, mynediad cyhoeddus a chyflenwi gwybodaeth, cynnal cofnodion a chod ymarfer.

Goddefol fydd y rheoliadau gan mwyaf gan eu bod yn galluogi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i benderfynu drosto'i hun ar yr hyn sydd yn bennaf yn faterion trefn yn ymwneud â chofrestru athrawon. Dim ond lle bo'r ddeddfwriaeth alluogi yn mynnu hynny, neu fod y rheini yr ymgynghorwyd â hwy wedi gofyn am i fesurau diogelu gael eu cyflwyno, y bydd y rheoliadau yn gyfarwyddol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd y rheoliadau yn pennu cynnwys y gofrestr a'r mynediad cyhoeddus i'r gofrestr. Mae'r cyntaf yn un o ofnyion y ddeddfwriaeth alluogi. Diben yr ail yw rhoi tawelwch meddwl i athrawon ynglŷn â'r wybodaeth y gellir ei rhyddhau. Dros y 12 mis diwethaf, bu'r rheoliadau yn destun ymgynghori o safbwynt polisi a'r manylion ynddynt gan ystod eang o gyrff sydd â buddiant yn y proffesiwn dysgu ac mewn addysg. Bu'r ymateb yn gadarnhaol. Yn wyneb hyn, y rheswm pam nad wyf ond yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo egwyddor y rheoliadau hyn heddiw yw am fod Owen John Thomas, Gareth Jones a Jocelyn Davies wedi gofyn imi ystyried ychwanegu cymal at atodlen 1 at Reoliad 6(16) i ymdrin ag athrawon sydd yn gallu dysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Yn ymarferol bydd y gwelliant hwn i'r rheoliadau yn golygu y bydd cronfa ddata'r cyngor o athrawon cofrestredig yn cynnwys maes ychwanegol i ddal yr wybodaeth hon. Yr wyf wedi ystyried y gwelliant a awgrymir ac wedi cytuno i'w dderbyn. Awgrymaf mai'r ffordd ymlaen yw i mi dynnu'r rheoliadau fel y maent yn sefyll yn ôl fel y gallaf ychwanegu'r cymal pellach i ddweud,

'lle gall athro/athrawes ddysgu Cymraeg ail-iaith, arwydd o'r ffaith',

ac yna ddefnyddio'r drefn weithredol i roi'r

the amended regulations through at the earliest opportunity. I would not normally want to use the executive procedure. However, I am sure that you would agree that it is essential that these regulations are made so that the General Teaching Council for Wales can be established and take on its functions from 1 September. It can then put into effect the requirement of the General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000. I hope that we can all agree unanimously to the motion.

Owen John Thomas: Mae'n bwysig cael cofnod sydd yn dangos faint o athrawon sydd yn gallu dysgu Cymraeg fel ail iaith gan fod y Gymraeg yn bwnc gorfodol i bob plentyn yng Nghymru o bump oed hyd at 16. Ar hyn o bryd, nid oes cofnod o hyn. Os ydym am fonitro a yw hyn yn llwyddiannus, mae'n bwysig ein bod yn gallu dweud yn union faint o athrawon a all ddysgu Cymraeg ym mhob sir yng Nghymru. Yr wyf yn falch eich bod wedi ei dderbyn.

Michael German: Before we vote, I declare an interest as a registered teacher.

The Presiding Officer: Will all registered teachers stand?

Mick Bates, Christine Chapman, Andrew Davies, Ron Davies, Michael German, Christine Humphreys, Gareth Jones, Helen Mary Jones, Janet Ryder and Owen John Thomas *rose.*

rheoliadau diwygiedig drwodd ar y cyfle cyntaf. Ni fyddwn fel arfer am ddefnyddio'r drefn weithredol. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno ei bod yn hanfodol i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud fel y gall Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gael ei sefydlu ac ymgymryd â'i swyddogaethau o 1 Medi. Wedyn gall roi gofynion Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000 ar waith. Gobeithiaf y gallwn gytuno'n unfrydol ar y cynnig.

Owen John Thomas: It is important that there is a record of how many teachers are able to teach Welsh as a second language as Welsh is a compulsory subject for every child between 5 and 16 years old. At present, there is no record of this. If we are going to monitor whether this is successful, it is important that we can say exactly how many teachers can teach Welsh in every county in Wales. I am pleased that you have accepted it.

Michael German: Cyn inni bleidleisio, datganaf fuddiant fel athro cofrestredig.

Y Llywydd: A wnaiff pob athro neu athrawes gofrestredig sefyll?

Mick Bates, Christine Chapman, Andrew Davies, Ron Davies, Michael German, Christine Humphreys, Gareth Jones, Helen Mary Jones, Janet Ryder ac Owen John Thomas *a gododd.*

Cynnig: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 36, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Griffiths, John

Gwyther, Christine
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Law, Peter
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Drafft Composite Motion: Approval of Draft Orders

Y Llywydd: Yn awr, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.23A, cynhelir pleidlais ar gynning cyfansawdd heb gynnal dadl.

The Presiding Officer: In accordance with Standing Order No. 22.23A, we will now vote on a composite motion without holding a debate.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiau fod

the National Assembly considers the reports of the Legislation Committee and approves under Standing Order No. 22.23A the following draft Orders:

y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau ac yn cymeradwyo'r Gorchmynion drafft canlynol o dan Reol Sefydlog Rhif 22.23A:

The Non Domestic Rating (Chargeable Amounts) (Amendment) Wales Regulations 2000 laid in the Table Office on 29 June 2000, the memorandum of corrections pursuant to Standing Order No. 22.12a laid in the Table Office on 5 July 2000 and the report of the Legislation Committee relating to the Order laid in the Table Office on 4 July 2000.

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2000, y memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.12a a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2000 ac adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd yn ymwneud â'r Gorchymyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2000.

The Local Authorities (Members' Allowances) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 laid in the Table Office on 5 July 2000 and the report of the Legislation Committee relating to the Order laid in the Table Office on 4 July 2000.

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2000 ac adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd yn ymwneud â'r Gorchymyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2000.

Pauline Jarman: I declare an interest in

Pauline Jarman: Datganaf fuddiant yng

relation to the second of the Orders as a member of a local authority, insofar as this affects the members' allowances scheme. nghyswllt yr ail o'r Gorchmynion fel aelod o awdurdod lleol, i'r graddau y mae hyn yn effeithio ar y cynllun lwfansau aelodau.

*Cynnig: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 34, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal Annual Report of the Committee on Equality of Opportunity

Y Llywydd: Oherwydd yr amser, byddaf yn gosod rheol gaeth.

The Presiding Officer: Because of the time, I shall set a strict rule.

I will allow 10 minutes for the opening speaker, five minutes for the closing speaker and three minutes each for other speakers.

Byddaf yn caniatáu 10 munud i'r siaradwr agoriadol, pum munud i'r siaradwr sydd yn cloi a thair munud yr un i siaradwyr eraill.

Edwina Hart: I propose that

Edwina Hart: Cynigiau fod

the National Assembly

y Cynulliad Cenedlaethol

- i. notes the first annual report by the National Assembly for Wales on its equal opportunities arrangements (a copy of which was laid in the Table Office on 4 July 2000); under the terms of Section 120 of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 6.5 (and which incorporates the annual report by the Committee of Equality of Opportunity as required by Standing Order No. 14.2);*
- ii. notes with approval the strategy which the Committee on Equality of Opportunity has agreed to integrate equality into the work of all parts of the Assembly;*
- iii. calls upon the Assembly Cabinet to take all necessary steps to ensure that the relevant recommendations of the Stephen Lawrence Inquiry report are fully implemented in Wales;*
- iv. encourages the Assembly Cabinet to ensure that effective arrangements are in place to ensure that public appointments in Wales are broadly representative of the Welsh population, and will enable appointments to be made so that public bodies better reflect the communities they serve.*
- i. yn nodi adroddiad blynyddol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei drefniadau cyfle cyfartal (gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2000); o dan delerau Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 6.5 (sydd yn ymgorffori'r adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal fel sydd yn ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 14.2);*
- ii. yn nodi gyda chymeradwyaeth y strategaeth y cytunodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal arni, sef integreiddio cydraddoldeb â gwaith holl rannau'r Cynulliad;*
- iii. yn galw ar Gabinet y Cynulliad i gymryd pob cam sydd yn angenrheidiol i sicrhau bod argymhellion perthnasol adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence yn cael eu gweithredu'n llawn yng Nghymru;*
- iv. yn annog Cabinet y Cynulliad i sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru, ac i alluogi penodiadau i gael eu gwneud a fydd yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well.*

I am pleased and proud to present the Committee on Equality of Opportunity's report. I am delighted to chair the Committee because, as a politician, you do not often get the opportunity to do something that you really feel you enjoy and to which you feel really committed. I place on record my thanks to Jane Hutt, who took the Committee through its early stages, which was a learning process for all of us.

The report outlines the joint work of the Committee on Equality of Opportunity, the Equality Policy Unit, and outside bodies, to promote equality of opportunity. Together we developed strategies to raise awareness of the issues of race, gender and disability. We prepared an action plan across subject areas to facilitate best practice. We must be proud that the establishment of the Assembly has provided a real opportunity to move equality matters forward.

We are all committed to tackling

Yr wyf yn falch a bodlon o gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Yr wyf wrth fy modd yn cadeirio'r Pwyllgor oherwydd, fel gwleidydd, nid yn aml y cewch y cyfle i wneud rhywbeth y teimlwch yr ydych yn ei wirioneddol fwynhau ac y teimlwch wir ymroddiad iddo. Cofnodaf fy niolch i Jane Hutt, a arweiniodd y Pwyllgor drwy ei gyfnodau cynnar, a oedd yn broses ddysgu i bawb ohonom.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith ar y cyd rhwng y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, yr Uned Polisi Cydraddoldeb, a chyrrff allanol, i hyrwyddo cyfle cyfartal. Gyda'n gilydd datblygasom strategaethau i godi ymwybyddiaeth o faterion hil, rhyw ac anabledd. Paratoesom gynllun gweithredu ar draws meysydd pwnc i hwyluso'r ymarfer gorau. Rhaid inni ymfalchïo bod sefydlu'r Cynulliad wedi rhoi cyfle gwirioneddol i symud materion cydraddoldeb ymlaen.

Yr ydym oll wedi ymrwymo i fynd i'r afael â

discrimination and disadvantage, and the work of the Committee has proved that dialogue and open discussion is the key to a successful and informed approach. The Equal Opportunities Commission, the Commission for Racial Equality, the Disability Rights Commission and, previously, Disability Wales, have all been vital sources of advice and support to the Committee. This year we particularly welcomed the Disability Rights Commission, and the appointment of its commissioner, Kevin Fitzpatrick, and William Bee, the new director in Wales. I am sure that they will add to the discussions on issues of equality. It is important that we link this issue to the outside world through these organisations. They are the practitioners, and problems are referred to them daily. They know the issues in industry and society. That proves a useful vehicle for us.

4:12 p.m.

Last July, the Committee endorsed a paper to mainstream equality in the Assembly. The paper's primary focus is concerned with identifying baseline information. This provides information on the promotion of equal opportunities and it illustrates to what extent race, gender and disability issues are currently identified, addressed and monitored in policy divisions. This is a question of putting our own house in order. If we are to give guidance to others in Wales, we must ensure that we have the highest standards in the National Assembly for Wales before we try to dictate standards elsewhere.

You will be pleased to know that the assessment suggests that the Assembly has a consistently high level of awareness about issues of equality. There is much good practice, but this is only a foundation. It is a question of building on awareness of an issue until it becomes reality. Each Assembly Secretary is kept fully advised on the baseline position and has proposed priorities for action.

Mainstreaming equality is a hugely complex and sensitive task. It is also an exciting challenge for the Committee. Changing the values, beliefs and attitudes of individuals

gwahaniaethu ac anfantais, ac mae gwaith y Pwyllgor wedi profi mai deialog a thrafodaeth agored yw'r allwedd i ymdriniaeth lwyddiannus a goleuedig. Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Comisiwn Hawliau'r Anabl a, gynt, Anabledd Cymru, i gyd wedi bod yn ffynonellau cyngor a chefnogaeth holl bwysig i'r Pwyllgor. Eleni yr oeddem yn croesawu'n arbennig Gomisiwn Hawliau'r Anabl, a phenodiad ei gomisiynydd, Kevin Fitzpatrick, a William Bee, y cyfarwyddwr newydd yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y byddant yn ychwanegu at y trafodaethau ar faterion cydraddoldeb. Mae'n bwysig ein bod yn cysylltu'r mater hwn â'r byd y tu allan drwy'r cyrff hyn. Hwyl yw'r ymarferwyr, a chyfeirir problemau atynt yn feunyddiol. Gwyddant y materion sydd o bwys mewn diwydiant a chymdeithas. Mae hynny yn ddefnyddiol inni.

Fis Gorffennaf diwethaf, cymeradwyodd y Pwyllgor bapur i sefydlu cydraddoldeb fel mater prif ffrwd yn y Cynulliad. Mae prif ffocws y papur yn ymwneud â nodi gwybodaeth llinell sylfaen. Mae hynny'n rhoi gwybodaeth ar hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn darlunio i ba raddau y mae materion hil, rhyw ac anabledd yn cael eu nodi, y rhoddir sylw iddynt ac yn cael eu monitro ar hyn o bryd mewn is-adrannau polisi. Mater o roi trefn ar ein tŷ ein hunain yw hwn. Os ydym i roi arweiniad i eraill yng Nghymru, rhaid inni sicrhau bod y safonau uchaf gennym yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i ni geisio pennu safonau mewn manau eraill.

Byddwch yn falch o wybod bod yr asesiad yn awgrymu bod gan y Cynulliad lefel gyson uchel o ymwybyddiaeth ynglŷn â materion cydraddoldeb. Mae llawer o arfer da, ond dim ond sylfaen yw hynny. Rhaid adeiladu ar ymwybyddiaeth o fater hyd nes y daw'n realiti. Mae pob un o Ysgrifenyddion y Cynulliad yn cael gwybodaeth lawn yn gyson am y sefyllfa o ran y llinell sylfaen ac maent wedi awgrymu blaenoriaethau gweithredu.

Mae sefydlu cydraddoldeb fel mater prif ffrwd yn dasg anhygoel o gymhleth a sensitif. Mae hefyd yn her gyffrous i'r Pwyllgor. Nid tasg fechan mo newid gwerthoedd, credoau

and the culture of organisations is no small task. Changing the cultural dimension of organisations is an area where we have much work to do. However, a positive start has been made, not simply because we are obliged to do it under statute, but because it is ethically right. It makes good business sense to utilise people's talents and potential.

In May, these values were reinforced in the launch of 'Betterwales.com', which sets out a long-term vision for a tolerant and inclusive society. There are so many issues that arise from this. We recently discussed with the Welsh Local Government Association its priorities in equality of opportunity. What is the agenda in terms of service delivery? Does it focus on all the groups that need attention?

We also looked at the NHS human resource strategy and how that will impact on the work of equality of opportunity. We identified vast areas where there is much work to be done. We also identified several key areas to implement mainstreaming, which cuts across all subject areas. Training is a key area for those working in the Assembly, in whatever capacity.

The workplace offers many opportunities and presents many challenges. Those in positions of influence at the top of companies and institutions need to promote equality of opportunity on all levels. This is not a tick-box approach to equal opportunities, where you can say, 'I have done this; it is in the advert,' or 'I have the appropriate people on the appointments panel.' It is about making a difference. Equality of opportunity benefits individuals and organisations and brings mutual advantages. To ignore one section of society is not simply unethical, it is short-sighted and damaging to society as a whole.

Another issue that has concerned us is the pay gap between men and women. In an attempt to address part of the problem, a childcare strategy has been introduced to give the primary carer a chance to return to work

ac agweddau unigolion a diwylliant sefydliadau. Mae newid dimensiwn diwylliannol mudiadau yn faes y mae gennym lawer o waith i'w wneud ynddo. Fodd bynnag, cafwyd dechrau cadarnhaol, nid yn unig am fod gorfodaeth arnom i wneud hynny o dan statud, ond am ei fod yn iawn yn foesol. Mae'n gwneud synnwyr busnes da i ddefnyddio doniau a photensial pobl.

Ym Mai, atgyfnerthwyd y gwerthoedd hyn yn lansiad 'Gwellcymru.com', sydd yn cyflwyno gweledigaeth tymor hir am gymdeithas oddefgar a chynhwysol. Mae cynifer o faterion yn codi o hyn. Trafodasom gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddar ei blaenoriaethau o ran cydraddoldeb cyfle. Beth sydd yn yr agenda o ran cyflwyno gwasanaethau? A yw'n canolbwyntio ar bob grŵp y mae angen sylw arno?

Edrychasom hefyd ar strategaeth adnoddau gweithlu yr NHS a sut y bydd yn effeithio ar waith cydraddoldeb cyfle. Nodasom feysydd enfawr lle mae llawer o waith i'w wneud. Nodasom hefyd sawl maes allweddol i sefydlu cydraddoldeb fel mater prif ffrwd ynddynt, sydd yn torri ar draws pob maes pwnc. Mae hyfforddiant yn faes allweddol i'r rheini sydd yn gweithio yn y Cynulliad, ym mha gyswllt bynnag.

Mae'r gweithle yn cynnig llawer o gyfleoedd a llawer o sialensiau. Mae angen i'r rheini mewn swyddi dylanwadol ar frig cwmnïau a sefydliadau hyrwyddo cydraddoldeb cyfle ar bob lefel. Nid ymdriniaeth ticio-blychau tuag at gyfle cyfartal mo hyn, lle gallwch ddweud, 'Rydw i wedi gwneud hyn; mae yn yr hysbyseb,' neu 'Mae'r bobl briodol gennyf ar y panel penodi.' Mae'n golygu gwneud gwahaniaeth. Mae cydraddoldeb cyfle o fudd i unigolion a sefydliadau a daw a manteision i'r naill du a'r llall. Mae anwybyddu un garfan o gymdeithas nid yn unig yn anfoesol, ond mae'n gibddall ac yn niweidiol i gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Mater arall sydd wedi peri pryder inni yw'r bwloch cyflogau rhwng dynion a menywod. Mewn ymgais i ymdrin â rhan o'r broblem, cyflwynwyd strategaeth gofal plant i roi cyfle i'r gofalwr pennaf ddychwelyd i weithio os

if he or she wishes to do so. However, we need to do much more than that in Wales. In the public sector, women, ethnic minorities and disabled people are being encouraged to put themselves forward for appointment. We must continue this process.

The Assembly is taking the lead in Wales in tackling the underlying issue of institutionalised racism, particularly in light of the Stephen Lawrence inquiry, set out in the Macpherson report. The report highlighted shortcomings in many institutions, but particularly worrying was the need to address the core curriculum issues. The Committee will continue to work with the Secretary for Education and Children. We welcome Rosemary Butler's wholehearted commitment to this agenda and the support that she has given the Committee. We intend to carry out significant work in that area.

We are grateful that we have had a secondee from Public and Commercial Services Union as part of our partnership approach. Roger Mackenzie, an expert in this area, will help us to develop a policy framework. We also need to provide support to raise the attainment level of school pupils whose first language is neither Welsh nor English.

We also addressed higher education issues. Access funds have been made available and the Committee has looked at promoting genuine equality of opportunity. There are several issues that we will discuss in Committee.

We have already dealt with the issue of sexuality in terms of the broad agenda. Angela Mason, executive director of Stonewall, made an excellent contribution, indicating the problems of discrimination that existed in that area.

In the autumn, we hope to address some of the issues concerning the Welsh language with a presentation by the Welsh Language Board. We are particularly keen on the issue of service for first-language Welsh speakers.

yw ef neu hi yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, mae angen inni wneud llawer mwy na hynny yng Nghymru. Yn y sector cyhoeddus, mae menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn cael eu hannog i gynnig eu hunain am benodiadau. Rhaid inni barhau â'r broses hon.

Mae'r Cynulliad yn arwain y ffordd yng Nghymru o ran mynd i'r afael â mater gwaelodol hiliaeth sefydliadol, yn enwedig yng ngoleuni ymchwiliad Stephen Lawrence, a gyflwynwyd yn adroddiad Macpherson. Amlygodd yr adroddiad ddiffygion mewn llawer o sefydliadau, ond mater sydd yn peri pryder neilltuol yw'r angen i roi sylw i faterion cwricwlwm craidd. Bydd y Pwyllgor yn parhau i weithio gyda'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant. Croesawn gefnogaeth frwd Rosemary Butler i'r agenda hon a'r gefnogaeth a roddodd i'r Pwyllgor. Bwriadwn wneud gwaith sylweddol yn y maes hwnnw.

Yr ydym yn ddiolchgar fod gennym weithiwr ar secondiad o Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol fel rhan o'n patrwm o weithredu drwy bartneriaeth. Bydd Roger Mackenzie, arbenigwr yn y maes hwn, yn ein helpu i ddatblygu fframwaith polisi. Mae angen hefyd inni roi cymorth i godi lefel cyrhaeddiad disgyblion ysgol nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Yr ydym hefyd wedi edrych ar faterion addysg uwch. Darparwyd cronfeydd mynediad ac mae'r Pwyllgor wedi edrych ar hyrwyddo gwir gydraddoldeb cyfle. Mae sawl mater y byddwn yn ei drafod yn y Pwyllgor.

Yr ydym eisoes wedi delio â mater rhywioldeb yn nhermau'r agenda eang. Gwnaeth Angela Mason, cyfarwyddwr gweithredol Stonewall, gyfraniad rhagorol, yn nodi'r problemau gwahaniaethu sydd yn bodoli yn y maes hwnnw.

Yn yr hydref, gobeithiwn roi sylw i rai o'r materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gyda chyflwyniad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yr ydym yn neilltuol o frwd ar fater gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

There is a lot of work to be done. The next 12 months will be busy. We are coming to the end of our report on public appointments and, hopefully, we will make recommendations to the Assembly in the autumn. However, the responsibility does not just lie with the Committee on Equality of Opportunity. The responsibility to make everything work lies with everyone in the Chamber, all the Committees and all the staff of the Assembly.

Presiding Officer, I thank you because you have always put equality of opportunity and the way that people are dealt with at the core of your agenda as Chair. We have always been grateful for your support, particularly in the field of equality. That should be placed on record because it is important that the correct images of Wales and the way in which we conduct our business reinforce the equality agenda. It gives me great pleasure to introduce this report because equality is for all. It is about what individuals do in society and what they can contribute to it, and about ensuring that they have the opportunity to do so. If the National Assembly can start to address some of those issues, we will show a genuine commitment to equality of opportunity.

Helen Mary Jones: Mae'n bleser mawr cymryd rhan yn y ddaol y prynhawn yma. Ni ddaw cyfle yn aml mewn bywyd gwleidyddol i gymryd rhan mewn drafftio cymalau Deddf, lobbio i gael y drafft wedi ei gynnwys ac yna gweld y cymal yn cael ei weithredu. Dyma yw fy sefyllfa i a Val Feld yn awr. Yr oedd y ddwy ohonom yn rhan o'r broses o ddrafftio'r cymal sydd yn ein clymu fel Cynulliad at gyfle cyfartal. Fel gwlad, dylem fod yn falch oherwydd mae'r Cynulliad yn arwain y byd yn y maes hwn.

Yr wyf yn ddiolchgar i Jane Hutt ac Edwina Hart am eu gwaith fel Cadeiryddion y Pwyllgor ac am y modd y maent wedi cydweithio'n drawsbleidiol ar y mater pwysig hwn. Hefyd, diolchaf i staff y Pwyllgor, sydd wedi gweithio'n galed iawn dros bobl sydd yn anodd i'w trin a'u trafod weithiau. Dywedodd Edwina fod y Pwyllgor wedi gwneud llawer o waith yn ystod y misoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth ac

Mae llawer o waith i'w wneud. Bydd y 12 mis nesaf yn brysur. Yr ydym yn dod i ddiwedd ein hadroddiad ar benodiadau cyhoeddus a byddwn, gobeithio, yn gwneud argymhellion i'r Cynulliad yn yr hydref. Fodd bynnag, nid dim ond gyda'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal y mae'r cyfrifoldeb. Pawb yn y Siambr, yr holl Bwyllgorau a holl staff y Cynulliad sydd yn gyfrifol am wneud i bopeth weithio.

Lywydd, diolchaf i chi oherwydd yr ydych bob amser wedi rhoi cyfle cyfartal a'r ffordd yr ymdrinnir â phobl wrth graidd eich agenda fel Cadeirydd. Yr ydym wedi gwerthfawrogi eich cefnogaeth erioed, yn enwedig ym maes cydraddoldeb. Dylid cofnodi hynny oherwydd mae'n bwysig bod y delweddau iawn o Gymru a'r ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes yn atgyfnerthu'r agenda cydraddoldeb. Mae'n rhoi pleser mawr imi gyflwyno'r adroddiad hwn oherwydd mae cydraddoldeb yn rhywbeth i bawb. Yr hyn a wna unigolion mewn cymdeithas a'r hyn a allan gyfrannu iddi yw ei hanfod, a sicrhau eu bod yn cael y cyfle i wneud hynny. Os gall y Cynulliad Cenedlaethol ddechrau rhoi sylw i rai o'r materion hynny, byddwn yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i gydraddoldeb cyfle.

Helen Mary Jones: It is a great pleasure to take part in the debate this afternoon. Political life does not often provide opportunities to take part in drafting the clauses of an Act, lobbying to get the draft included and then to see that clause implemented. That is the situation in which I and Val Feld find ourselves now. We were both part of the process of drafting the clause that ties us as an Assembly to equal opportunities. As a country, we should be proud because the Assembly is leading the world in this field.

I am grateful to Jane Hutt and Edwina Hart for their work as Chairs of the Committee and for the way that they have co-operated with a cross-party approach on this important matter. I also thank the Committee staff, who have worked very hard for people who are difficult to deal with at times. Edwina said that the Committee has covered a lot of ground over the last few months, collecting information and scrutinising the work of the

yn archwilio gwaith y Cabinet mewn meysydd penodol. Hoffwn gyfeirio yn bennaf at un maes o waith y mae Edwina wedi sôn amdano yn fyr yn barod.

All Members will be aware of the publication over 12 months ago of the Macpherson inquiry report, following the bungled investigation into the murder of Stephen Lawrence. The report highlighted the issue of institutional racism. We must look at institutional discrimination in all areas of public life in Wales. There were over 70 specific recommendations to tackle the problem. Many referred to non-devolved matters such as policing and criminal justice. Others referred specifically to education, which is a matter for the Assembly.

There were concerns about the speed with which the implications of the Macpherson report for the Committee on Equality of Opportunity were being acted upon by our partners, to whom Edwina has referred. In this case, I refer to the Commission for Racial Equality. In that context, the Committee advised the Secretary for Education and Children, her officials and representatives of the related bodies ACCAC and Estyn to attend the Committee. Committee members left that meeting feeling concerned. They had a perception of complacency and lack of understanding among these important bodies on the whole issue of institutional racism. The Committee strongly recommended taking action. A sub-group of the Committee was established, which I was invited to chair. Other members of the sub-group are David Melding, Kirsty Williams and Richard Edwards. I thank them for their contribution to this important work. David Melding's robust attitude in questioning some of the outside bodies has been particularly welcome—and rather a shock to them, as it came from him. They should have known better.

As Edwina said, the positive attitude that Rosemary Butler—

4:22 p.m.

The Presiding Officer: You have had three minutes, Helen.

Cabinet in particular fields. I would like to refer mainly to one field of work that Edwina has spoken about briefly already.

Bydd pob Aelod yn ymwybodol o gyhoeddi adroddiad ymchwiliad Macpherson dros 12 mis yn ôl, yn dilyn yr ymchwiliad i lofruddiaeth Stephen Lawrence y gwnaethpwyd cawl ohono. Tynnai'r adroddiad sylw at fater hiliaeth sefydliadol. Rhaid inni edrych ar wahaniaethu sefydliadol ym mhob maes o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Cafwyd dros 70 o argymhellion penodol i fynd i'r afael â'r broblem. Cyfeiriai llawer at faterion fel plismona a chyfiawnder troseddol nad ydynt wedi'u datganoli. Cyfeiriai eraill yn benodol at addysg, sydd yn fater i'r Cynulliad.

Yr oedd pryderon ynglŷn â pha mor gyflym yr oedd goblygiadau adroddiad Macpherson i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cael eu rhoi ar waith gan ein partneriaid, y cyfeiriodd Edwina atynt. Yn yr achos hwn, cyfeiriai at y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Yn y cyddestun hwnnw, cynghorodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant, ei swyddogion a chynrychiolwyr y cyrff cysylltiol, ACCAC ac Estyn, i fynychu'r Pwyllgor. Gadawodd aelodau'r Pwyllgor y cyfarfod hwnnw yn teimlo'n bryderus. Cawsant argraff o hunanfodhad a diffyg dealltwriaeth ymysg y cyrff pwysig hyn ar holl fater hiliaeth sefydliadol. Argymhellodd y Pwyllgor yn gryf y dylid gweithredu. Sefydlwyd is-grŵp o'r Pwyllgor, a gwahoddwyd fi i'w gadeirio. Aelodau eraill yr is-grŵp yw David Melding, Kirsty Williams a Richard Edwards. Diolchaf iddynt am eu cyfraniad at y gwaith pwysig hwn. Yr oedd agwedd gref David Melding wrth holi rhai o'r cyrff allanol i'w chrosawu'n arbennig—ac yn dipyn o sioc iddynt, gan ei bod yn dod oddi wrtho ef. Dylent fod wedi gwybod yn well.

Fel y dywedodd Edwina, mae agwedd gadarnhaol Rosemary Butler—

Y Llywydd: Yr ydych wedi cael tair munud, Helen.

Helen Mary Jones: Serious progress has been made, a report on which will come back in the autumn. This is an example of how the Committee should work—responding to concerns, holding those responsible to account and getting action agreed.

Kirsty Williams: I begin by thanking Jane and Edwina for their skill and enthusiasm in chairing the Committee, for the hard work of the Clerk and his team, and for the support given to the Committee's work during the past year. I give particular thanks to those who act as standing advisers to the Committee; the presence of the equality commissioners has been so impressive that we are looking to these relationships to improve the work of the Mid Wales Regional Committee by broadening our ability to scrutinise more effectively. Personally, being part of the Committee has been a learning experience and has also been challenging.

I would like to focus on public appointments. There has been much disquiet among the public about the role of the Assembly sponsored public bodies, previously known as quangos. The Committee, and I, believe that part of the problem is the perception of the members of these bodies and how they got there in the first place. The people who occupy public appointments in Wales carry out vital functions that affect the lives of people in Wales. Therefore, the quality of the people whom we appoint is of prime importance. While all appointments must be made on merit, it is also important to ensure that the boards of public bodies reflect the communities in which they serve. The Assembly needs to improve on past practice in this respect.

Too frequently in the past, those appointed to public office have come from within a limited group—the usual suspects—with previous senior management experience. It is true to say that the majority of these have been white, middle-aged, middle-class men. While many of these people have been talented, there is much untapped potential and ability among other people in Wales outside this group. We need to broaden the pool of those who apply for public appointment and to ensure that measures are

Helen Mary Jones: Cymerwyd camau mawr ymlaen, a cheir adroddiad ar hynny yn yr hydref. Dyma enghraifft o sut y dylai'r Pwyllgor weithio—yn ymateb i bryderon, yn dal y rheini sydd yn gyfrifol i gyfrif ac yn cael cytundeb ar y ffordd i weithredu.

Kirsty Williams: Dechreuaf drwy ddiolch i Jane ac Edwina am eu sgil a'u brwdfrydedd yn cadeirio'r Pwyllgor, am waith caled y Clerk a'i dîm, ac am y gefnogaeth a roddwyd i waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchaf yn arbennig i'r rheini sydd yn gweithredu fel cynghorwyr sefydlog i'r Pwyllgor; bu presenoldeb y comisiynwyr cydraddoldeb mor drawiadol fel ein bod yn edrych yn fanwl ar y perthnasau hyn er mwyn gwella gwaith Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth drwy ehangu ein gallu i fanylu'n fwy effeithiol. Yn bersonol, bu bod yn rhan o'r Pwyllgor yn brofiad dysgu a hefyd yn her.

Hoffwn ganolbwyntio ar benodiadau cyhoeddus. Bu llawer o anesmwythyd ymysg y cyhoedd ynglŷn â rôl cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a elwid gynt yn gwangos. Cred y Pwyllgor, a minnau, mai rhan o'r broblem yw'r ddirnadaeth o aelodau'r cyrff hyn a sut y cyraeddasant yno i ddechrau. Mae'r bobl sydd â phenodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni swyddogaethau holl bwysig sydd yn effeithio ar fywydau pobl Cymru. Felly, mae ansawdd y bobl a benodwn o'r pwys pennaf. Tra bod yn rhaid gwneud pob penodiad ar haeddiant, mae'n bwysig hefyd sicrhau bod byrddau cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae angen i'r Cynulliad wella ar arferion y gorffennol yn y cyswllt hwn.

Yn rhy aml yn y gorffennol, deuai'r rhai a benodid o grŵp cyfyng—y bobl arferol—gyda phrofiad blaenorol fel uwch reolwyr. Mae'n wir dweud i fwyafrif y rhain fod yn ddynion gwyn, canol oed, dosbarth canol. Er bod llawer o'r bobl hyn yn ddawnus, mae llawer o botensial a gallu sydd heb ei gyffwrdd ymysg pobl eraill yng Nghymru y tu allan i'r grŵp hwn. Mae angen inni ehangu'r gronfa o bobl sydd yn ymgeisio am benodiadau cyhoeddus a sicrhau bod mesurau wedi'u sefydlu i ganiatáu i bobl o grwpiau a

in place to allow people from under-represented groups to demonstrate their full potential and thus to obtain appointments in the future.

By achieving this we will ensure that women, disabled people and people of ethnic minority origin are allowed to play a full part in the cultural and economic life of Wales. Only by achieving this can we be sure that issues concerning all the population of Wales will be taken into account in the deliberations, policies and programme development of public bodies that have a great effect on our daily lives.

The Committee on Equality of Opportunity has found that the details of current processes of advertising and applying for posts and supporting those who hold public appointments does not attract a sufficiently wide range of applicants. Too often advertisements or the interview process introduce unnecessary barriers to applicants.

The Presiding Officer: Order. You have had three minutes.

Kirsty Williams: We hope to report on the findings of our investigation in the autumn and make a real difference to this aspect of Welsh life.

Richard Edwards: It is a privilege to speak in this debate as a member of the Committee on Equality of Opportunity. The fact that promoting equality of opportunity is a legal requirement for us as well as a moral imperative is the Assembly's most distinctive feature. The fact that equality of outcome is but a distant dream, as yet, reflects the gaping chasm between aspiration and reality. There is the damning reality, for instance, of the total absence of ethnic minority representation among Assembly Members. The Assembly's exclusively white, Caucasian public profile is a salutary reminder, if one were needed, of the challenge that mainstreaming racial equality poses. It is also a compelling reason, even were there none other, for enforcing speedily the relevant recommendations of the Macpherson report on the murder of Stephen Lawrence, and for recognising the critical

dangynrychiolir i ddangos eu potensial llawn a thrwy hynny gael eu penodi yn y dyfodol.

Drwy gyflawni hyn byddwn yn sicrhau bod menywod, pobl anabl a phobl o darddiad lleiafrifoedd ethnig yn cael chwarae rhan llawn ym mywyd diwylliannol ac economaidd Cymru. Dim ond drwy gyflawni hyn y gallwn fod yn siŵr y bydd materion sydd yn effeithio ar holl boblogaeth Cymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn nhrafodaethau, polisiau a gwaith datblygu rhaglenni cyrff cyhoeddus sydd yn cael effaith fawr ar ein bywydau beunyddiol.

Canfu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal nad yw manylion y prosesau cyfredol o hysbysebu ac ymgeisio am swyddi a chynorthwyo'r rheini sydd yn dal penodiadau cyhoeddus yn denu ystod ddigon eang o ymgeiswyr. Yn rhy aml mae hysbysebion neu'r broses gyfweld yn cyflwyno rhwystrau dianghenraid i ymgeiswyr.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych wedi cael tair munud.

Kirsty Williams: Gobeithiwn adrodd ar ganfyddiadau ein hymchwiliad yn yr hydref, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r agwedd hon ar fywyd Cymru.

Richard Edwards: Mae'n ffrainc cael siarad yn y ddadl hon fel aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Y ffaith bod hyrwyddo cyfle cyfartal yn ofyniad cyfreithiol i ni yn ogystal ag yn rheidrwydd moesol yw nodwedd mwyaf arbennig y Cynulliad. Mae'r ffaith nad yw cydraddoldeb canlyniad yn ddim ond breuddwyd bell, hyd yma, yn adlewyrchu'r gagendor mawr rhwng dyhead a realiti. Wele realiti damniol, er enghraifft, absenoldeb llwyr cynrychiolaeth o blith lleiafrifoedd ethnig ymysg Aelodau'r Cynulliad. Mae proffil cyhoeddus cwbl wyn a Chawcasaid y Cynulliad o fudd i'n hatgoffa, os oes angen gwneud hynny, mor enfawr yw'r her y mae sefydlu cydraddoldeb hiliol fel mater prif ffrwd yn ei gynrychioli. Mae hefyd yn rheswm nerthol, pe na bai rhesymau eraill hyd yn oed, i weithredu argymhellion perthnasol adroddiad Macpherson ar lofruddiaeth Stephen Lawrence ar fyrder ac i

role of education, early-age education in particular, in effecting the cultural changes essential for a tolerant, diverse and equal society.

Moving to gender matters, the most distinctive feature of this Chamber is the unparalleled representation of women. The Labour group has a preponderance of women—16 women to 12 men—though it is partly offset by the woman-free zone of the Conservatives to my right. The gender balance in this Chamber is the stuff of virtual reality. It is not replicated anywhere else in Welsh civic and public life and is, in that sense, therefore, totally unrepresentative. The catalogue of shame is well rehearsed; over 50 per cent of the population in Wales are women yet there are only four Welsh women MPs and only two unitary council leaders are women. My own county, Pembrokeshire, is typical—only eight out of 60 councillors are women, there are no female committee chairs and no female chief officers. There is little wonder that some of my constituents think that it is a masonic conspiracy.

The Assembly is ideally placed to give a lead but is inevitably constrained when it functions in a gender-balanced vacuum. We must have representative numbers of women at Westminster, and in our town and county halls. If our politicians do not reflect the gender make-up of their communities and constituencies, then the needs and aspirations of all members of those communities and constituencies will continue not to be met. The signs are not good. The onus has fallen on the Labour Party to take a lead on this issue, and it has failed abysmally. It failed to select even one woman for the vacant Welsh parliamentary seats. That is a disgrace. It shows how necessary and courageous the twinning policy was in selecting candidates for the Assembly. Political parties cannot preach equality of opportunity and not practice it themselves. We cannot expect the people who work for us, the agencies we sponsor and our partners to do as we preach and not do so ourselves.

gydnabod rôl holl bwysig addysg, addysg y blynyddoedd cynnar yn enwedig, o ran gwireddu'r newidiadau diwylliannol sydd yn hanfodol ar gyfer cymdeithas oddefgar, amrywiol a chydradd.

Gan symud i faterion rhyw, nodwedd mwyaf arbennig y Siambr hwn yw'r gynrychiolaeth o fenywod na welwyd mo'i thebyg o'r blaen. Mae gan y grŵp Llafur fwyafrif o fenywod—16 menyw i 12 dyn—er y gwrthbwsir hynny yn rhannol gan Barth di-fenywod y Ceidwadwyr ar y dde imi. Mae'r cydbwysedd rhyw yn y Siambr hon o'r un defnydd a realiti rhithwir. Ni chaiff ei ddyblygu mewn unrhyw le arall ym mywyd dinesig a chyhoeddus Cymru ac mae, felly, yn gwbl anghynrychiadol yn yr ystyr hwnnw. Mae'r catalog gwarth wedi'i ailadrodd drosodd a throsodd; mae dros 50 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru yn fenywod ond nid oes ond pedair menyw yn ASau dros Gymru a dim ond dau arweinydd cyngor unedol sydd yn fenywod. Mae fy sir i, Sir Benfro, yn nodweddiadol—dim ond wyth o'r 60 cynghorydd sydd yn fenywod, nid oes unrhyw gadeiryddion benyw na phrif swyddogion benyw. Nid yw'n syndod bod rhai o'm hetholwyr i yn credu mai cynllwyn masonaidd yw.

Mae'r Cynulliad mewn sefyllfa ddelfrydol i roi arweiniad ond cyfyngir arno yn anochel pan fo'n gweithredu mewn gwactod sydd â chydbwysedd rhyw. Rhaid inni gael niferoedd cynrychiadol o fenywod yn San Steffan, yn ein neuaddau tref a sir. Os nad yw ein gwleidyddion yn adlewyrchu cyfansoddiad rhyw eu cymunedau a'u hetholaethau, yna bydd anghenion a dyheadau holl aelodau'r cymunedau a'r etholaethau hynny yn parhau i beidio â chael eu bodloni. Nid yw'r arwyddion yn dda. Mae'r cyfrifoldeb i arwain ar y mater hwn wedi disgyn ar y Blaid Lafur, ond mae wedi methu'n druenus. Mae wedi methu â dethol hyd yn oed un fenyw i'r seddau seneddol sydd yn wag yng Nghymru. Mae hynny'n gywilydd. Mae'n dangos mor angenrheidiol a dewr oedd y polisi gefeillio wrth dethol ymgeiswyr ar gyfer y Cynulliad. Ni all pleidiau gwleidyddol bregethu cydraddoldeb cyfle a pheidio â'i arddel eu hunain. Ni allwn ddisgwyl i'r bobl sydd yn gweithio inni, yr asiantaethau a noddwn a'n partneriaid wneud

fel a bregethwn a pheidio â'i wneud ein hunain.

Politicians need training in awareness raising. All the targets and audits in the world, all the action plans and performance indicators and all the talk of a tolerant society will be to no avail if we cannot create a more representative political culture in Wales, where the majority of the population are not excluded because of their gender, ethnic minorities are not excluded because of their race and disabled people are not excluded because of their physical impairment.

Mae angen hyfforddiant ar wleidyddion i godi ymwybyddiaeth. Ni fydd yr holl dargedau ac archwiliadau yn y byd, yr holl gynlluniau gweithredu a dangosyddion perfformiad a'r holl siarad am gymdeithas oddefgar o unrhyw fudd oni allwn greu diwylliant gwleidyddol mwy cynrychiadol yng Nghymru, lle nad yw mwyafrif y boblogaeth yn cael eu cau allan oherwydd eu rhyw, lle na chaeir lleiafrifoedd ethnig allan oherwydd eu hil ac na chaeir pobl anabl allan oherwydd eu nam corfforol.

John Griffiths: I will talk about the benefits of a strong commitment to equality of opportunity. I was fortunate to attend a recent South Pacific symposium in New Zealand. I was invited as chair of the Commonwealth Parliamentary Association in the Assembly. It was an eye-opener as to how the Assembly is viewed by the rest of the world. I was invited to tell the story of the Assembly. The association wanted to know how Wales had gone from a poor record at local government and Westminster level to a very good record on equal opportunities in the new Assembly.

John Griffiths: Siaradaf am fanteision ymrwymiad cryf i gyfle cyfartal. Yr oeddwn yn ffodus i fynychu symposiwm De'r Môr Tawel yn Seland Newydd yn ddiweddar. Fe'm gwahoddwyd fel cadeirydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y Cynulliad. Yr oedd yn agoriad llygad o ran y ffordd y mae gweddill y byd yn gweld y Cynulliad. Gwahoddwyd fi i ddweud hanes y Cynulliad. Yr oedd y gymdeithas am wybod sut yr oedd Cymru wedi mynd o fod â record wael ar lefel llywodraeth leol a San Steffan i fod â record dda iawn ar gyfle cyfartal yn y Cynulliad newydd.

The representatives talked about achieving a critical mass of 30 per cent representation by women in democratic representative bodies. They wanted to know how we had achieved 42 per cent representation by women. They saw real benefits—apart from the obvious benefits, about which we all know, of representing the general population and its rights—in terms of conflict resolution. It was an urgent debate in many ways because they talked about the situation in Fiji, the Solomon Islands and other areas of current conflict in the South Pacific. They thought that women being well represented in civic society and on political bodies was a way to get away from their problems with confrontational politics and aggressive attitudes that fed on the conflict. They wanted to know how we in Wales had made this breakthrough and achieved the transformation from a poor record at local government and Westminster level to a very good one in the Assembly.

Soniodd y cynrychiolwyr am gyflawni màs critigol o 30 y cant o ran cynrychiolaeth gan fenywod mewn cyrff cynrychiadol democrataidd. Yr oeddent am wybod sut yr oeddem ni wedi llwyddo i gael 42 y cant o gynrychiolaeth gan fenywod. Gwelent fanteision gwirioneddol—ar wahân i'r manteision amlwg, yr ydym i gyd yn gwybod amdanynt, sef cynrychioli'r boblogaeth gyffredinol a'i hawliau—o ran datrys gwrthdaro. Yr oedd yn ddadl â brys ynghlwm wrthi mewn sawl ffordd am eu bod yn sôn am y sefyllfa yn Ffiji, Ynysoedd Solomon a manau eraill lle mae gwrthdaro ar hyn o bryd yn Ne'r Môr Tawel. Tybient fod cael cynrychiolaeth dda o fenywod yn y gymdeithas ddinesig ac ar gyrff gwleidyddol yn ffordd o symud oddi wrth eu problemau gyda gwleidyddiaeth llawn gwrthdaro a'r agweddau ymosodol sydd yn bwydo ar y gwrthdaro. Yr oeddent am wybod sut y bu i ni yng Nghymru dorri drwodd fel hyn a chyflawni'r gweddnewidiad o record wael ar lefel llywodraeth leol a San Steffan i un dda

iawn yn y Cynulliad.

I talked about how the Government of Wales Act 1998 was framed to set up the Assembly in a way that encouraged women to become Members, because of its less confrontational style, family-friendly hours and all the other aspects of how it was established. I was able to contrast the attitudes of the political parties in terms of how they selected their candidates for the Assembly election. I mentioned the Conservatives' strategy of exhorting party members to good deeds and the result—zilch—that that achieved, and contrasted that with the positive attitudes of the other three parties and the varying degrees of success that we have achieved in gaining women representatives.

Soniais am y ffordd yr oedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi ei fframio i sefydlu'r Cynulliad mewn ffordd sydd yn annog menywod i ddod yn Aelodau, am fod llai o wrthdaro yn ei arddull, oriau ffafriol i deuluoedd a holl agweddau eraill y ffordd y'i sefydlwyd. Yr oeddwn yn gallu gwrthgyferbynnu agweddau'r pleidiau gwleidyddol o ran eu ffordd o ddethol ymgeiswyr ar gyfer etholiad y Cynulliad. Soniais am strategaeth y Ceidwadwyr o gymell aelodau'r blaid i weithredu'n deilwng a'r diffyg canlyniad llwyr a wireddodd hynny, a chyferbynnu hynny gydag agweddau cadarnhaol y tair plaid arall a'r graddau amrywiol o lwyddiant a gawsom yn ennill cynrychiolwyr sydd yn fenywod.

I agree with Richard that we, as a Labour Party, have not continued to show that positive attitude in the Westminster selections, and that is a real shame. However, we have a positive story to tell as regards the Assembly. There was a strong commitment to twinning and it bore real fruit. We now have a fantastic representation of 16 women Assembly Members in the Labour group compared to 12 men. That was achieved by a positive attitude and a real commitment and that is the lesson that needs to be drawn from this. I tried to present that lesson to our friends in New Zealand and they were very interested. They spoke about us in the same breath as Sweden and that is positive for Wales.

Cytunaf â Richard nad ydym, fel Plaid Lafur, wedi parhau i ddangos yr agwedd gadarnhaol honno wrth ddethol ymgeiswyr ar gyfer San Steffan, ac mae hynny'n drueni mawr. Fodd bynnag, mae gennym hanes cadarnhaol i'w adrodd ynghylch y Cynulliad. Cafwyd ymrwymiad cryf i efeillio a bu i hynny ddwyn ffrwyth. Bellach mae gennym gynrychiolaeth wych o 16 o fenywod yn Aelodau o'r Cynulliad yn y grŵp Llafur o'i gymharu â 12 dyn. Gwnaethpwyd hynny drwy agwedd gadarnhaol ac ymrwymiad gwirioneddol a dyna'r wers y dylid ei dysgu o hyn. Ceisiais gyflwyno'r wers honno i'n cyfeillion yn Seland Newydd ac yr oedd ganddynt ddiddordeb mawr. Siaradent amdanom yn yr un gwynt â Sweden ac mae hynny'n gadarnhaol i Gymru.

4:32 p.m.

Gareth Jones: Mae'n bleser gennyf gyflwyno ychydig o sylwadau sydd yn ymwneud yn bennaf â chyfle cyfartal mewn addysg. Cyfeiria'r adroddiad at yr ymgynghori sydd eisoes wedi digwydd rhwng Estyn ac ACCAC i amlinellu sut y gweithredir argymhellion adroddiad Macpherson yng Nghymru. Yr ydym oll yn disgwyl i'n hysgolion chwarae rhan allweddol i orchfygu a chwalu'r hen feddylfryd a rhagfarnau ac i greu hinsawdd i hyrwyddo cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n ofyn mawr ar ein hysgolion, ond dyna a ddisgwyliwn

Gareth Jones: It is a pleasure for me to make a few comments that relate primarily to equal opportunity in education. The report refers to the consultation that has already taken place between Estyn and ACCAC to outline how the recommendations of the Macpherson report will be implemented in Wales. We all expect our schools to play a key part in vanquishing and dispelling the old mindset and prejudices and to create a climate to promote equality, fairness and social justice. It is a great request to make of our schools, but that is what we expect of them.

ganddynt.

Mae'n bwysig bod ein hysgolion nid yn unig yn defnyddio'r agweddau perthnasol hynny yn y cwricwlwm cenedlaethol, er enghraifft, mewn gwrsi addysg bersonol a chymdeithasol, ond hefyd mewn gwrsi daearyddiaeth, hanes ac eraill a fyddai'n trosglwyddo negeseuon cadarnhaol. Hoffwn weld ein hysgolion yn cael mwy o ystywythder i gyflwyno cwricwlwm a fyddai'n adlewyrchu anghenion ein cymunedau yn y meysydd pwysig hynny.

Gobeithiaf y bydd canolfan addysg y Cynulliad yn adeilad y Pierhead yn cyfleu'r neges o gydraddoldeb yn y profiadau addysgol a gynigir yno i ymwelwyr ifanc. Prif themâu ac egwyddorion y Cynulliad a ddylai fod yn sylfaen i'r profiadau hynny, nid dehongliad hwn a hwn o hanes neu ddinasyddiaeth.

Wrth groesawu'r adroddiad, talaf deyrnged i'n Cadeirydd am y modd hynod o effeithiol y mae'n llywio trafodaethau'r Pwyllgor. Diolchaf am y sylw cyson a roddir i addysg ac i'r disgwyliadau sydd yn deillio o hynny.

Mawr obeithiaf fod pob un ohonom yn cydnabod rôl allweddol athrawon yn y maes pwysig hwn. Eisoed ceir arfer da o ysgol i ysgol ond mae angen llawer mwy o fuddsoddiad. Rhaid sicrhau hyfforddiant cydraddoldeb o'r radd flaenaf i'n holl athrawon. Nid yw cydraddoldeb yn fater i'w adael i rywun arall ymgymryd ag ef. Mae'n bwysig bod ein holl athrawon yn ein cynorthwyo yn y dasg.

Er mor gynhwysfawr a chanmoladwy yw'r adroddiad hwn, nid cyfrifoldeb aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn unig yw cydraddoldeb. Mae'n ymwneud â phob Aelod. Nid sefydlu cyfundrefn yn y Cynulliad i'n hatgoffa o bryd i'w gilydd am gyfle cyfartal sydd ei angen. Rhaid inni sefydlu cyfundrefn yn seiliedig ar gydraddoldeb fel bod popeth arall, yn bolisiau neu'n weithdrefnau, yn deillio o hynny.

Christine Chapman: I will discuss the social justice case for equality of opportunity.

It is important that our schools not only use those relevant aspects in the national curriculum, for example, in personal and social education lessons, but also in geography, history and other lessons that would convey positive messages. I would like to see our schools having greater flexibility to introduce a curriculum that would reflect the needs of our communities in those important areas.

I hope that the Assembly's education centre in the Pierhead building will reflect the message of equality in the educational experiences that it offers to young visitors. The Assembly's main themes and principles should be the foundation of those experiences, not an interpretation by whoever of history or citizenship.

In welcoming the report, I pay tribute to our Chair for the exceptionally effective way in which she steers the Committee's discussions. I am grateful for the regular attention that is given to education and to the expectations that arise from that.

I sincerely hope that all of us acknowledge the key role of teachers in this important area. There is already good practice in schools but much more investment is needed. We must ensure training in equality of the highest standard for all of our teachers. Equality is not an issue that can be left for someone else to deal with. It is important that all of our teachers assist in the task.

Although this report is comprehensive and laudable, equality is not solely the responsibility of the members of the Committee on Equality of Opportunity. It involves all Members. The system that we need to establish in the Assembly is not one that reminds us of equality of opportunity from time to time. We must establish a system based on equality so that everything else, be it policy or procedure, arises from that.

Christine Chapman: Byddaf yn trafod yr achos o blaid cyfle cyfartal o safbwynt

The biggest hurdle to equality in society is discrimination. Discrimination stems from prejudice, which stems from ignorance. If we are prejudiced, we are saying that we do not want to be troubled by the facts, that our minds are already made up. It is the easy option. Prejudice runs deep and if we are to stand any chance of dealing with it, our approach must involve educating, informing and challenging people. The Assembly must lead in this.

I welcome the fact that the Committee on Equality of Opportunity has started to tackle this head on. It has decided to ask the awkward questions. Gareth has mentioned education's role. Education must reflect the diversity in society. As Gareth said, in history—which is my particular topic—courses are traditionally taught from a Eurocentric, male, middle-class perspective. Some of us wonder where the history of the black and ethnic minority cultures is. What about women's contribution to society? In the past, history lessons at school have tended to concentrate on male figures. To paraphrase a woman historian, historians have made a fetish of ferreting around in Pipe Rolls and laundry lists to track down the dirty linen of great men in preference to great deeds of infamous women. That sounds familiar.

We must get away from women's history being pages added on to history books. It is no wonder that children become prejudiced, having such a base from which to go into the world. Therefore, I welcome the fact that this issue has been raised by the Committee. We have engaged with ACCAC to try to put these issues right. We must continue to support teachers and governors to develop a non-racist, non-sexist curriculum. If we do not do so, our children will remain ignorant of culture, will be uninformed and will always be in danger of becoming racist and sexist.

The Committee has also sought to engage with the business community and the public

cyfiawnder cymdeithasol. Y rhwystr mwyaf rhag cydraddoldeb mewn cymdeithas yw gwahaniaethu yn erbyn pobl. Mae hynny yn deillio o ragfarn, sydd yn deillio o anwybodaeth. Os oes gennym ragfarn, dywedwn nad ydym am gael ein poeni â'r ffeithiau, ein bod eisoes wedi dod i benderfyniad. Dyna'r opsiwn hawdd. Mae rhagfarn wedi'i wreiddio'n ddwfn ac os ydym i gael unrhyw obaith o ddelio ag ef, rhaid i'n hymdriniaeth gynnwys addysgu, rhoi gwybodaeth a herio pobl. Rhaid i'r Cynulliad arwain hyn.

Croesawaf y ffaith bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi dechrau mynd i'r afael â hyn ar ei dalcen. Mae wedi penderfynu gofyn y cwestiynau lletchwith. Soniodd Gareth am rôl addysg. Rhaid i addysg adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas. Fel y dywedodd Gareth, mewn hanes—sef fy mhwn arbennig i—caiff cyrsiau eu dysgu'n draddodiadol o safbwynt Ewroganolog, gwryw, dosbarth canol. Mae rhai ohonom yn gofyn ym mhle tybed y mae hanes y diwyllianau du a lleiafrifoedd ethnig. Beth am gyfraniad menywod i gymdeithas? Yn y gorffennol, mae gwersi hanes yn yr ysgol wedi tueddu i ganolbwyntio ar ffigyrau gwryw. I aralleirio menyw o hanesydd, mae haneswyr wedi gwneud ffetis o chwilota o gwmpas mewn Rholiau Siecr a rhestrau dillad golch i ddod o hyd i ddillad budron dynion mawr yn hytrach na gweithredoedd mawr menywod drwgenwog. Mae hynny'n swnio'n gyfarwydd.

Rhaid rhoi'r gorau i ystyried hanes menywod fel tudalennau wedi'u hychwanegu at lyfrau hanes. Nid yw'n syndod bod plant yn magu rhagfarnau, a chanddynt y fath sylfaen i gamu i'r byd ohono. Felly, croesawaf y ffaith bod y mater hwn wedi ei godi gan y Pwyllgor. Yr ydym wedi trin a thrafod gydag ACCAC i geisio unioni'r materion hyn. Rhaid inni barhau i gynorthwyo athrawon a llywodraethwyr i ddatblygu cwricwlwm nad yw'n hiliol nac yn rhywiaethol. Os na wnawn ni hynny, bydd ein plant yn para'n anwybodus ynglŷn â diwylliant, byddant heb eu goleuo a byddant bob amser mewn perygl o droi'n hiliol neu'n rhywiaethol.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ceisio llunio perthynas gyda'r gymuned fusnes a'r sector

sector. Equality makes good business sense. We all want to encourage the best recruitment and retention practices, but we must go further. Business is part of the wider community and its failure to challenge racism and sexism in the workforce can spill over into the wider community. There are some issues that people think are unimportant, but I do not, such as the seemingly innocuous page 3 pin-ups on factory walls; they do not challenge sexual harassment, they confirm sexual stereotypes. We try to encourage girls and boys to take traditional career routes through work experience, but when girls enter some workplaces, they are confronted with such images. This destroys any notion of equality between colleagues before they even begin.

I am pleased that the Assembly is taking a lead. We cannot support any notion of equality that does not include the means to make it happen. If it does not, it has, to borrow a phrase, all the impertinence of an invitation to unwanted guests given in the certain knowledge that they will be unable to attend.

Ann Jones: Thank you for the opportunity to speak briefly in this important debate on an issue that is at the heart of our views. I was pleased to hear Edwina say that the commitment to equal opportunities is more than tick-box practice, because we must always guard against the danger of turning the philosophy of equal opportunity into such a practice. Members of the Committee on Equality of Opportunity and other Subject Committees are working hard to ensure that this does not happen.

We should encourage equality by our leadership and example. I wonder whether we should encourage equality in this building. If one of us must wear a pass to get in, we should all do so and expect to be challenged if we do not. I am glad to see that you are wearing your pass, Presiding Officer.

Equal opportunity issues cover a range of views. I will mention my experience in the

cyhoeddus. Mae cydraddoldeb yn gwneud synnwyr busnes da. Mae pawb ohonom am annog yr arferion recriwtio a chadw gorau, ond rhaid inni fynd ymhellach. Mae busnes yn rhan o'r gymuned ehangach a gall ei fethiant i herio hiliaeth a rhywiaeth yn y gweithlu ymledu i'r gymuned ehangach. Mae rhai materion y mae pobl yn tybio nad ydynt yn bwysig, er nad wyf fi, megis y posteri tudalen 3 ymddangosiadol ddiniwed ar waliau ffatrïoedd; nid ydynt yn herio aflonyddwch rhywiol, maent yn cadarnhau stereoteipiau rhyw. Ceisiwn annog merched a bechgyn i gymryd llwybrau gyrfa traddodiadol drwy brofiad gwaith, ond pan fo merched yn mynd i mewn i rai gweithleoedd, wynebhir hwy gyda delweddu fel hyn. Mae hynny'n lladd unrhyw syniad o gydraddoldeb rhwng cydweithwyr cyn iddynt hyn yn oed ddechrau.

Yr wyf yn falch bod y Cynulliad yn rhoi arweiniad. Ni allwn gefnogi unrhyw syniad o gydraddoldeb nad yw'n cynnwys y cyfrwng i wneud iddo ddigwydd. Os nad yw, mae iddo, i fentyca ymadrodd, holl ddigywilydd-dra gwahoddiad i westeion na ddymunir eu cwmni pan roddir y gwahoddiad gan wybod i sicrwydd na fyddant yn gallu bod yn bresennol.

Ann Jones: Diolch ichi am y cyfle i siarad yn fyr yn y ddadl bwysig hon ar fater sydd wrth graidd ein meddylfryd. Yr oeddwn yn falch o glywed Edwina yn dweud bod yr ymrwymiad i gyfle cyfartal yn fwy nag ymarfer ticio-blychau, oherwydd rhaid inni warchod bob amser yn erbyn y perygl o droi athroniaeth cyfle cyfartal yn ymarfer o'r fath. Mae aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgorau Pwnc eraill yn gweithio'n galed i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Dylem annog cydraddoldeb drwy ein harweinyddiaeth a'n hesiampl. Ys gwn i a ddylem annog cydraddoldeb yn yr adeilad hwn. Os yw'n rhaid i un ohonom wisgo cerdyn adnabod i ddod i mewn, dylai pob un ohonom wneud hynny a disgwyl cael ein herio os na wnawn. Yr wyf yn falch o weld eich bod yn gwisgo eich cerdyn, Lywydd.

Mae cyfle cyfartal yn cynnwys ystod o safbwyntiau. Soniaf am fy mhrofiad yn

Fire Brigades Union, which is traditionally a male-dominated trade union. For an unknown reason, at one point, it did not want female firefighters. Following a disastrous case in the 1980s, the Fire Brigades Union set about reviewing its procedures and ended up with a huge document that was unworkable and did not make sense. It then decided that it had better talk to women in the fire service and by talking to them and ethnic minority people in the fire service, we ended up with a wonderful document, 'All Equal but All Different'.

Reference has been made to the Stephen Lawrence inquiry. I also mention the Ricky Reel incident. We must all have our views on how to move forward on those matters. While I applaud statutory obligation, real advancement will come when we treat people equally without having to resort to legislation. Assembly Members also need to be educated. I ask them to be careful with their language in debates and guard against using terms that may seem innocent or may be a slip of the tongue and go unnoticed, but they are derogatory. Respect of the individual is paramount and while we can legislate for the adult world, we will make our greatest breakthroughs by educating our young people to be tolerant and understanding so that difference becomes something that is celebrated and not feared. I will end with the slogan from the Fire Brigades Union's equal opportunities policy: all different but all equal.

4:42 p.m.

Val Feld: I share with Helen a sense of occasion today, because this is not just another Committee report; it is our first debate on a report under section 120 of the Government of Wales Act 1998. I remember the day that I suggested to Ron Davies that it might be intelligent to put a requirement for equality into the legislation that was being passed. He said to me that if I could persuade his civil servants that it was practical, he would do it. Many people put in their time and took a leap of faith to give the Assembly this unique responsibility. The way that the Committee has focused its efforts on

Undeb y Brigadau Tân, sydd yn draddodiadol yn undeb o dan ddylanwad dynion. Am ryw reswm anhysbys, ar un adeg, nid oedd am gael diffoddwyr tân benyw. Yn sgîl achos trychinebus hwnnw yn y 1980au, aeth Undeb y Brigadau Tân ati i adolygu ei weithdrefnau nes cael ei hun yn y diwedd gyda dogfen enfawr nad oedd modd ei rhoi ar waith ac nad oedd yn gwneud synnwyr. Penderfynodd wedyn y byddai'n well iddo siarad â menywod yn y gwasanaeth tân a thrwy siarad â hwy a phobl o leiafrifoedd ethnig yn y gwasanaeth tân, cawsom o'r diwedd ddogfen ragorol, 'All Equal but All Different'.

Cyfeiriwyd at ymchwiliad Stephen Lawrence. Yr wyf hefyd am grybwyll digwyddiad Ricky Reel. Rhaid i bawb ohonom fod â'i farn ar sut y mae symud ymlaen ar y materion hynny. Tra'r wyf yn cymeradwyo gorfodaeth statudol, daw gwir gynnydd pan fyddwn yn trin pobl yn gydradd heb orfod dibynnu ar ddeddfwriaeth. Mae angen addysgu Aelodau'r Cynulliad hefyd. Gofynnaf iddynt fod yn ofalus gyda'u hiaith mewn dadleuon a gochel rhag defnyddio termau sydd yn ymddangos yn ddiniwed neu'n llithriad tafod ac na sylwir arnynt, ond sydd yn fychanol. Mae parch tuag at yr unigolyn o'r pwys mwyaf a thra gallwn ddeddfu ar gyfer byd oedolion, cawn ein llwyddiant mwyaf drwy ddysgu ein pobl ifanc i fod yn oddefgar a pharod i ddeall fel bod gwahaniaeth yn dod yn rhywbeth i'w ddathlu ac nid i'w ofni. Hoffwn orffen gyda'r slogan o bolisi cyfle cyfartal Undeb y Brigadau Tân: pawb yn wahanol ond pawb yn gydradd.

Val Feld: Rhannaf gyda Helen ymdeimlad o achlysur heddiw, oherwydd nid dim ond adroddiad Pwyllgor arall yw hwn; dyma ein dadl gyntaf ar adroddiad o dan adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Cofiaf y diwrnod yr awgrymais wrth Ron Davies y gallai fod yn beth deallus i roi gofyniad cydraddoldeb yn y ddeddfwriaeth oedd yn cael ei phasio. Dywedodd wrthyf y byddai'n gwneud hynny, pe gallwn berswadio ei weision sifil bod hynny'n ymarferol. Rhoddodd llawer o bobl o'u hamser gan gymryd cam mewn ffydd i roi i'r Cynulliad y cyfrifoldeb unigryw hwn. Y ffordd y mae'r

collecting baseline data during the year and the need to look across our services to establish what is happening is the right approach. In the years ahead, it will enable us to judge the Assembly's progress in tackling the entrenched problems of inequality across a range of sectors in Wales.

None of us are under the illusion that we do not still have a long way to go. I will say a few words about how we can get there, and who our key partners are. The Assembly has a major role, but most of the services for which the Assembly sets the framework are delivered by a range of other organisations, Assembly sponsored public bodies and local authorities in particular. I was pleased to hear that the Committee will turn its attention to the Assembly's relationship with its sponsored public bodies. I hope that Edwina will also consider our relationship with local authorities and what we expect them to deliver. Rosemary, who is not here at the moment, and I produced a document for local authorities before we came to the Assembly.

I hope that you will also consider how we can set clear targets and ensure that public bodies deliver them and that we closely monitor their work and move it forward. I am also pleased that you will consider public appointments. I ask Edwina to look at the experience of Ireland, where it is a requirement that equal numbers of women and men are put forward for appointment to public bodies. We have much to do to ensure greater integration of women, men, people from ethnic backgrounds and disabled people into the decision-making structures in Wales so that we can ensure that better decisions are made. These are early days, but it seems to me that when we make decisions in the Assembly, they are better decisions.

Finally, I flag up the issue of the equality agencies. It is time that we examined the three equality agencies, all of which are run by Whitehall departments. We might

Pwyllgor wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar gasglu data llinell sylfaen yn ystod y flwyddyn a'r angen i edrych ar draws ein gwasanaethau i sefydlu beth sydd yn digwydd yw'r ffordd iawn o fynd ati. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd yn ein galluogi i farnu cynnydd y Cynulliad o ran mynd i'r afael â'r problemau anghydraddoldeb sydd wedi hen ymwreiddio ar draws ystod o sectorau yng Nghymru.

Nid oes neb ohonom yn twyllo'n hunain nad oes gennym ffordd bell i fynd o hyd. Dywedaf ychydig o eiriau am sut y gallwn gyrraedd yno, a phwy yw ein partneriaid allweddol. Mae gan y Cynulliad rôl o bwys, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae'r Cynulliad yn gosod y fframwaith ar eu cyfer yn cael eu cyflawni gan ystod o gyrff eraill, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn arbennig. Yr oeddwn yn falch o glywed y bydd y Pwyllgor yn troi ei sylw at berthynas y Cynulliad gyda'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu noddi. Gobeithiaf y bydd Edwina hefyd yn ystyried ein perthynas gydag awdurdodau lleol a'r hyn y disgwyliwn iddynt ei gyflawni. Cynhyrchodd Rosemary, nad yw yma ar y funud, a minnau ddogfen ar gyfer awdurdodau lleol cyn inni ddod i'r Cynulliad.

Gobeithiaf y byddwch hefyd yn ystyried sut y gallwn osod targedau clir a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn eu gwireddu a'n bod yn monitro eu gwaith yn agos ac yn ei symud yn ei flaen. Yr wyf hefyd yn falch y byddwch yn ystyried penodiadau cyhoeddus. Gofynnaf i Edwina edrych ar brofiad Iwerddon, lle mae'n ofyniad bod niferoedd cyfatebol o fenywod a dynion yn cael eu cynnig i'w penodi i gyrff cyhoeddus. Mae gennym lawer i'w wneud i sicrhau mwy o integreiddio menywod, dynion, pobl o gefndiroedd ethnig a phobl anabl i mewn i'r strwythurau llunio-penderfyniadau yng Nghymru fel y gallwn sicrhau bod gwell penderfyniadau yn cael eu gwneud. Dyddiau cynnar yw'r rhain, ond pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau yn y Cynulliad, mae'n ymddangos i mi eu bod yn well penderfyniadau.

Yn olaf, tynnaf sylw at fater asiantaethau cydraddoldeb. Mae'n bryd inni edrych ar y tair asiantaeth cydraddoldeb, pob un ohonynt yn cael ei rhedeg gan adrannau Whitehall.

consider establishing an equality commission for Wales, which would work with the Assembly, so that we have the partner to deliver the change that we want on the ground.

Alison Halford: Section 48 of the Government of Wales Act 1998 states that there should be

‘due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people’.

To me, that means just that. It is excellent that the national health service is ploughing ahead and attempting to mainstream best practice in fair play and equality issues. To take up Val Feld’s comment, under the Local Government Bill, and through modernising local government, it is hoped that, by 2010, councils should be in a position to measure all aspects of equal opportunity issues.

However, one minority group is being excluded from the protection of this caring and motivated Assembly. That group is police officers and the many civilians who support them. I do not want to select women police officers as being the only victims of bad management, poor supervisory powers and a culture of macho masculinity. Where management skills are poor in any organisation, male officers also suffer. This is not a police-bashing exercise. I know that the police are not our responsibility. However, equality is.

In the 10 years since my celebrated court case, it seems to me that things are a long time a-changing. We, as the National Assembly, should not sit by and allow disadvantaged police officers to not be given protection. I have lost count of the times that serving police officers have asked me for help. Only a few months ago, I received three letters from different women officers, one of them a north Wales probationary officer. She wrote several pages full of a desperate cry for help. It was with extreme discomfort that I had to write back and tell her that the problem remained with her.

Rhaid inni ystyried sefydlu comisiwn cydraddoldeb i Gymru, a fyddai’n gweithio gyda’r Cynulliad, fel bod gennym bartner i gyflawni’r newid yr ydym yn ei ddymuno ar lawr gwlad.

Alison Halford: Dywed Adran 48 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 y dylai fod

I mi, mae hynny’n golygu yn union hynny. Mae’n ardderchog bod y gwasanaeth iechyd gwladol yn bwrw ymlaen ac yn ceisio sefydlu’r arferion gorau o ran chwarae teg a chydraddoldeb fel materion prif ffrwd. I afael yn sylw Val Feld, o dan y Mesur Llywodraeth Leol, a thrwy foderneiddio llywodraeth leol, gobeithir, erbyn 2010, y dylai cynghorau fod mewn sefyllfa i fesur pob agwedd o faterion cyfle cyfartal.

Fodd bynnag, mae un grŵp lleiafrifol yn cael ei gau allan rhag gwarchodaeth y Cynulliad hwn sydd yn llawn gofal a chymhelliad. Y grŵp hwnnw yw swyddogion yr heddlu a’r llu o weithwyr sifil sydd yn eu cynorthwyo. Nid wyf am ddethol swyddogion heddlu benyw fel yr unig rai sydd yn dioddef oherwydd rheolaeth wael, pwerau goruchwylio gwael a diwylliant o wrywod *macho*. Lle mae’r sgiliau rheoli yn wael mewn unrhyw sefydliad, mae swyddogion gwryw hefyd yn dioddef. Nid ymarferiad lladd ar yr heddlu yw hwn. Gwn nad ein cyfrifoldeb ni yw’r heddlu. Fodd bynnag, yr ydym yn gyfrifol am gydraddoldeb.

Yn y 10 mlynedd ers fy achos llys enwog, mae’n ymddangos i mi fod pethau’n cymryd yn hir iawn i newid. Ni ddylem ni, fel y Cynulliad Cenedlaethol, eistedd yn segur a chaniatáu i swyddogion heddlu difreintiedig beidio â chael gwarchodaeth. Yr wyf wedi colli cyfrif o’r nifer o weithiau y mae swyddogion heddlu sydd yn gwasanaethu wedi gofyn imi am gymorth. Dim ond rai misoedd yn ôl, derbyniais dri llythyr oddi wrth wahanol swyddogion benyw, un ohonynt yn swyddog prawf yng ngogledd Cymru. Ysgrifennodd sawl tudalen yn llawn cri enbyd am gymorth. Yn anghyfforddus iawn yr ysgrifennais yn ôl i ddweud wrthi bod y broblem yn aros gyda hi.

I explained that if she complained, I believed that she would not progress further in the force. It is a well-paid job, and that sort of money is difficult to match in other local job situations. It is sad that the Home Office does not keep central statistics to enable anyone to determine whether or not equality issues are being effectively tackled within the police service. It is also sad that £6.5 million of taxpayers' money is spent on Her Majesty's Inspectors of Constabulary, and yet this august body also cannot produce statistics on discrimination. There are some 1,553 women in our four police forces in Wales, and let us not forget the countless civilian employees.

I ask the Committee on Equality of Opportunity to carefully consider whether or not we should have some say in monitoring and considering what goes on in our police services, without trying to take over the running of the police.

David Melding: I welcome the opportunity to respond to this debate. It is the epitome of equal opportunities that the Assembly has seen fit to allow a Conservative, or shall I declare, a Tory, to respond to the debate on equality of opportunity. It is an important principle.

Alison Halford: Point of order. I suggest that you are a Welsh Conservative.

David Melding: I, for one, quite like being called a Tory—it is a similar rendition in Welsh as well. I reassure colleagues in the Liberal Democratic Party and Plaid Cymru that this is not the start of a grand alliance between the Labour Party and the Tory Party—or Welsh Conservative Party. You will not be faced with the great continental experience of a party that spans the centre ground altogether.

Some excellent points have been made in a wide-ranging debate. It shows you how the Committee on Equality of Opportunity has been working this last year. I am also grateful to Members who are not on the Committee who have made some pertinent remarks. I

Eglurais wrthi, pe bai hi'n cwyno, na fyddai, yn fy marn i, yn codi'n uwch yn y gwasanaeth heddlu. Mae'n swydd ac iddi dâl da, ac mae'r math hwnnw o arian yn anodd i'w gael mewn sefyllfaoedd gwaith lleol eraill. Mae'n drist nad yw'r Swyddfa Gartref yn cadw ystadegau canolog i alluogi unrhyw un i benderfynu a yw materion cydraddoldeb yn cael eu trin yn effeithiol o fewn y gwasanaeth heddlu. Mae'n drist hefyd fod £6.5 miliwn o arian trethdalwyr yn cael ei wario ar Arolygwyr Ei Mawrhydi yr Heddlu, ac eto ni all y corff mawreddog hwn gynhyrchu ystadegau am wahaniaethu. Mae tua 1,553 o fenywod ym mhedwar llu yr heddlu yng Nghymru, a gadewch inni beidio ag anghofio'r gweithwyr sifil dirifedi.

Gofynnaf i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ystyried yn ofalus a ddylem gael rhyw lais ai peidio mewn monitro ac ystyried yr hyn sydd yn digwydd yng ngwasanaethau'r heddlu, heb geisio cymryd drosodd y gwaith o redeg yr heddlu.

David Melding: Croesawaf y cyfle i ymateb i'r ddatl hon. Mae'n ymgorfforiad o gyfle cyfartal bod y Cynulliad wedi gweld yn dda i adael i Geidwadwr, neu a gaf fi ddatgan, Tori, ymateb i'r ddatl ar gydraddoldeb cyfle. Mae'n egwyddor bwysig.

Alison Halford: Pwynt o drefn. Awgrymaf eich bod yn Geidwadwr Cymreig.

David Melding: Yr wyf fi, am un, yn eithaf hoff o gael fy ngalw'n Dori—digon tebyg yw'r trosiad Cymraeg hefyd. Gadewch imi dawelu meddyliau cyd-Aelodau yn y Blaid Ddemocrataidd Ryddfrydol a Phlaid Cymru nad yw hyn yn ddechrau cynghrair mawr rhwng y Blaid Lafur a'r Blaid Doriaidd—neu Blaid Geidwadol Cymru. Ni fyddwch yn wynebu profiad bondigrybwyll y cyfandir o blaid sydd yn rychwantu'r tir canol yn gyfan gwbl.

Gwnaethpwyd pwyntiau rhagorol yn ystod dadl eang ei chwmpas. Mae'n dangos sut y mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar i Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor sydd wedi gwneud rhai sylwadau perthnasol.

mention Helen Mary. It must be a special moment when you have been involved in the process from the beginning to see the work of such a Committee in action. That has been reflected in your performance, particularly your leadership on the Lawrence report and taking forward the sub-group that has been looking at that area of work, as well as the difficult issue of institutionalised racism and how it can affect all parts of society.

Kirsty made the valuable point about public appointments and the public's perception of those who hold public appointments. If they are seen to be WASPish—or whatever the phrase would be in Wales—that sends bad signals out to people, as does the way that we bring forward candidates for appointment, the way that we erect barriers, and have restrictive advertisements. All these things must be tackled, and they are being considered by the Chair and a small working group. I believe that we will see real progress on how we recruit and help people put their names forward for public appointment, how they can be nurtured in that role so that their skills can be developed if they are not quite up to the line at the minute, and how we take them on and ensure that they are able to serve on a public body.

Richard Edwards referred to the legal requirement—that we have due regard to equality of opportunity. This is a great innovation to which Val Feld also referred. She was convincing when she had a meeting with Ron, then Ron met with the civil servants, and was even more convincing, I would imagine, but it has been a great outcome for us all.

Ron Davies: I was already persuaded before Val came in to see me.

4:52 p.m.

David Melding: Your persuading the civil servants was probably also crucial in the process. Richard also made the point about equality of outcome, which we must remember. That is our target and measure for the future. The fact that we do not have any

Soniaf am Helen Mary. Mae'n rhaid ei bod yn eiliad arbennig pan yr ydych wedi bod yn rhan o'r broses o'r cychwyn i weld gwaith Pwyllgor o'r fath yn mynd rhagddo. Adlewyrchwyd hynny yn eich perfformiad, yn enwedig eich arweinyddiaeth ar adroddiad Lawrence ac yn tywys yr is-grŵp a sefydlwyd a fu'n edrych ar y maes gwaith hwnnw yn ei flaen, yn ogystal â mater anodd hiliaeth sefydliadol a sut y gall effeithio ar bob rhan o gymdeithas.

Gwnaeth Kirsty y pwynt gwerthfawr am benodiadau cyhoeddus a dirnadaeth y cyhoedd o'r rheini sydd yn dal penodiadau cyhoeddus. Os gwelir eu bod yn WASPaidd—neu beth bynnag fyddai'r ymadrodd yng Nghymru—mae hynny'n rhoi signalau drwg i bobl, fel y mae'r ffordd yr ydym yn dwyn ymgeiswyr ymlaen i gael eu penodi, y ffordd y codwn rwystrau, ac y defnyddiwn hysbysebion cyfyngol. Rhaid mynd i'r afael â'r holl bethau hyn, ac maent yn cael eu hystyried gan y Cadeirydd a gweithgor bychan. Credaf y gwelwn gynnydd gwirioneddol yn y ffordd yr ydym yn recriwtio ac yn helpu pobl i gynnig eu henwau am benodiadau cyhoeddus, sut y gellir eu meithrin yn y rôl honno fel y gall eu sgiliau gael eu datblygu os oes modd gwella arnynt ar hyn o bryd, a sut yr ydym yn eu derbyn ac yn sicrhau eu bod yn gallu gwasanaethu ar gorff cyhoeddus.

Cyfeiriodd Richard Edwards at y gofyniad cyfreithiol—ein bod yn rhoi sylw dyledus i gyfle cyfartal. Mae hynny'n newyddbeth rhagorol y cyfeiriodd Val Feld ato hefyd. Llwyddodd i argyhoeddi pan gafodd gyfarfod gyda Ron, yna cyfarfu Ron â'r gweision sifil, ac aeth yntau ati i argyhoeddi'n fwy byth, byddwn yn dychmygu, ond bu'n ganlyniad rhagorol i bawb ohonom.

Ron Davies: Yr oeddwn eisoes wedi fy mherswadio cyn i Val ddod i'm gweld.

David Melding: Mae'n siŵr y bu eich gwaith chi yn perswadio'r gweision sifil hefyd yn holl bwysig yn y broses. Gwnaeth Richard y pwynt hefyd ynglŷn â chydaddoldeb canlyniad, y mae'n rhaid inni ei gofio. Dyna ein targed a'n mesur at y

AMs from members of the ethnic communities is disappointing. That is one area in which we must improve.

John Griffiths, back from his trip to the south Pacific for the special forum there, reported on our progress on gender balance. I can only apologise that your case was not advanced by the Welsh Conservative Party, but I am committed to improving our performance by at least infinity after the next election; just one Member would do that, of course. It is important that we can see Wales leading the world and being twinned with Sweden no less as a model of good practice.

Gareth Jones reflected on his experience as a headteacher. Equality of opportunity is related to fundamental culture, which goes right across Wales. We are not talking about it as a special issue in certain areas that have high concentrations of ethnic communities. It is a responsibility on us all and on societies and communities right across Wales. We hope to develop the Assembly education centre and have some sort of input there, which is important.

Christine Chapman made the point that we should always remember how deep prejudice runs. We are using equal opportunities to improve public policy, from which we all benefit. We have all come a long way with family-friendly practices. We do not live in a brutal world that would keep us here until three o'clock in the morning. We must challenge stereotypes so that they do not reflect modern society and the part that people want to play and their desire to participate. The business community is vital—you were right to refer to that. The business community needs to be reminded of how effective equal opportunities practices are, for instance, in recruiting the best personnel.

Ann Jones developed some of these points and steered us away from the tick-box practice, and moving on with a great sense of self-satisfaction that we have done that. It takes long application. You referred to the fire brigade, which has been looking at this since the 1980s. I suppose that after 20 years it has at last made some measurable progress.

dyfodol. Mae'r ffaith nad oes gennym unrhyw ACau o gymunedau ethnig yn siom. Mae'n un maes lle mae'n rhaid inni wella.

Cyfeiriodd John Griffiths, yn ôl o'i daith i dde'r Môr Tawel ar gyfer y fforwm arbennig yno, at ein cynnydd ar gydbwysedd rhyw. Ni allaf ond ymddiheuro na chafodd eich achos ei hyrwyddo gan Blaid Geidwadol Cymru, ond yr wyf yn ymrwymo i wella ein perfformiad o anfeidredd o leiaf ar ôl yr etholiad nesaf; byddai un Aelod yn unig yn gwneud hynny, wrth gwrs. Mae'n bwysig inni allu gweld Cymru yn arwain y byd ac yn cael ei gefeillio â neb llai na Sweden fel model o ymarfer da.

Soniodd Gareth Jones am ei brofiad fel prifathro. Mae cyfle cyfartal yn ymwneud â diwylliant sylfaenol, sydd yn mynd ar draws Cymru gyfan. Nid siarad amdano yr ydym fel mater arbennig mewn rhai ardaloedd sydd â niferoedd mawr o gymunedau ethnig. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb ohonom ac ar bob cymdeithas a chymuned ar draws Cymru. Gobeithiwn ddatblygu canolfan addysg y Cynulliad a chael rhyw fath o fewnbwn yno, sydd yn bwysig.

Gwnaeth Christine Chapman y pwynt y dylem ei gofio bob amser ynglŷn â pha mor ddwfn yw rhagfarn. Yr ydym yn defnyddio cyfle cyfartal i wella polisi cyhoeddus, y mae pawb ohonom yn elwa ohono. Yr ydym i gyd wedi dod ym mhell gydag arferion sydd yn ffafriol i deuluoedd. Nid ydym yn byw mewn byd ciaidd a fyddai'n ein cadw yma tan dri o'r gloch y bore. Rhaid inni herio stereoteipiau fel nad ydynt yn adlewyrchu cymdeithas fodern a'r rhan y mae pobl am ei chwarae a'u hawydd i gymryd rhan. Mae'r gymuned fusnes yn holl bwysig—yr oeddech yn gywir i gyfeirio at hynny. Mae angen atgoffa'r gymuned fusnes pa mor effeithiol yw arferion cyfle cyfartal, er enghraifft, o ran recriwtio'r personél gorau.

Datblygodd Ann Jones rai o'r pwyntiau hyn gan ein llywio oddi wrth ymarfer ticio-blychau, a symud ymlaen gydag ymdeimlad o foddhad mawr ein bod wedi gwneud hynny. Dyfal donc a dyrr y garreg. Cyfeiriasoch at y frigâd dân, a fu'n edrych ar hyn ers y 1980au. Ar ôl 20 mlynedd mae'n debyg iddi wneud rhyw gynnydd mesuradwy. Mae'n ffordd

It is a long haul.

It is difficult to talk about equal opportunities with someone like Val Feld. You have probably led the likes of us in other parties, or at least some, anyway. We have taken on the equal opportunities' agenda and, perhaps not made it our own, but been part of the partnership that is delivering some progress.

Val Feld: It is a huge delight to hear this. Your predecessors who sought to run Wales from the Welsh Office certainly did not have the commitment to equal opportunities that clearly the Welsh Conservatives now have.

David Melding: I will take the plaudit however qualified it is. Val, you then typically raised a practical point—

Glyn Davies: In response to Val's comment, I am sure that you are aware that during the period that the Conservatives were in office, the number of people serving in public appointments and as chairmen increased dramatically.

David Melding: I accept your point. I apologise for leaving the door so wide open to allow that attack. Val made the point about baseline data being important, which it is. We have had a wide-ranging audit and we must now use that data to ensure that we can set targets and achieve them. You referred to public appointments, Val, and the practice in Ireland. Ireland did not have the greatest record in equal opportunities not that long ago—it is an interesting example that you quote. You also mentioned the challenging and interesting idea about how we could consider the equality agencies and perhaps a united commission—I am not quite sure what idea you will work up there in order to devolve some form of commission to Wales.

Alison Halford reflected from a personal perspective on what bad practice does. We must remember that bad practice and poor management hurts everyone—it is not good for organisations. We all have a right to live in a modern, healthy, democratic society that has equal opportunities at its heart.

bell.

Mae'n anodd siarad am gyfle cyfartal gyda rhywun fel Val Feld. Mae'n debyg eich bod wedi arwain pobl fel ni mewn pleidiau eraill, neu rai, beth bynnag. Yr ydym wedi gafael yn yr agenda cyfle cyfartal ac, er na wnaethom hi'n agenda i ni ein hunain efallai, buom yn rhan o'r bartneriaeth sydd yn gwneud rhywfaint o gynnydd.

Val Feld: Hyfrydwch enfawr yw clywed hyn. Yn sicr, nid oedd gan eich rhagflaenwyr a geisiai redeg Cymru o'r Swyddfa Gymreig yr ymroddiad at gyfle cyfartal sydd yn amlwg yn perthyn i Geidwadwyr Cymru erbyn hyn.

David Melding: Derbyniaf y gymeradwyaeth ni waeth i ba raddau y mae wedi ei glastwreiddio. Val, aethoch ati wedyn yn nodweddiadol i godi pwynt ymarferol—

Glyn Davies: Mewn ymateb i sylw Val, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol i nifer y bobl a oedd yn gwasanaethu mewn penodiadau cyhoeddus ac fel cadeiryddion gynyddu'n ddramatig yn ystod y cyfnod pan oedd y Ceidwadwyr mewn grym.

David Melding: Derbyniaf eich pwynt. Ymddiheuraf am adael y drws mor agored i ganiatáu'r ymosodiad hwnnw. Gwnaeth Val y pwynt bod data llinell sylfaen yn bwysig, ac y mae. Cawsom archwiliad eang ei gwmpas a rhaid inni bellach ddefnyddio'r data hwnnw i sicrhau y gallwn osod targedau a'u cyflawni. Cyfeiriasoch at benodiadau cyhoeddus, Val, a'r arfer yn Iwerddon. Nid oedd record Iwerddon o ran cyfle cyfartal ymysg y goreuon heb fynd ym mhell iawn yn ôl—mae'n enghraifft ddiddorol i chi ei dyfynnu. Soniasoch hefyd am y syniad diddorol a llawn her ynglŷn â sut y gallem ystyried yr asiantaethau cydraddoldeb a chomisiwn unedig efallai—nid wyf yn siŵr pa syniad a luniwch yn y fan honno er mwyn datganoli rhyw fath o gomisiwn i Gymru.

Tynnodd Alison Halford sylw o bersbectif personol at yr hyn a wna ymarfer gwael. Rhaid inni gofio bod ymarfer gwael a rheolaeth wael yn brifo pawb—nid yw'n dda i sefydliadau. Mae gan bawb ohonom hawl i fyw mewn cymdeithas fodern, iach, ddemocrataidd sydd â chyfle cyfartal yn

ganolog iddi.

In all of these issues, we have been greatly assisted by Jane Hutt initially as Chair, and then Edwina Hart. We must remember that these are Cabinet Secretaries who have a lot of work to do in their Subject Committees and I greatly admire the priority that they have given to the work of the Committee on Equality of Opportunity. Both have had their own style and it has been a pleasure to work with them. I am sure that in the next three years of this Assembly session we will see the Committee achieve great success.

Yn yr holl faterion hyn, cawsom lawer o gymorth gan Jane Hutt i ddechrau fel Cadeirydd, ac yna Edwina Hart. Rhaid inni gofio bod y rhain yn Ysgrifenyddion Cabinet sydd â llawer o waith i'w wneud yn eu Pwyllgorau Pwnc ac edmygaf yn fawr y flaenoriaeth y maent wedi ei rhoi i waith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Yr oedd gan y ddwy eu harddull eu hunain a bu'n bleser gweithio gyda hwy. Yr wyf yn siŵr y gwelwn y Pwyllgor yn llwyddo'n sylweddol yn ystod tair blynedd nesaf y sesiwn hwn o'r Cynulliad.

Cynnig: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 43, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Geraint
 Davies, Glyn
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 Feld, Val
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Griffiths, John
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Rogers, Peter
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda

Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Dadl Fer Short Debate

Carthu Tywod Sand Dredging

Alun Cairns: I must admit that I am not a big fan of the protocol that has been established for the short debate and, therefore, I am happy to accept interventions that will allow more than one Member to take part in the debate.

The Presiding Officer: That contravenes the Standing Order. Our practice allows the original speaker to speak for an allotted time, during which he or she does not take interventions. After the allotted time, another Member is allowed to speak. The Assembly Secretary who is responding to the debate can take interventions.

Alun Cairns: In that case, Peter Black, Val Feld and Dai Lloyd have asked for a minute and I explained that I would welcome interventions from them. However, I am happy to revert to the standard protocol that allows people to contribute for a minute after the original speaker has finished.

Since being elected to the Assembly 12 months ago, no one issue has gained as much public concern as the erosion of sand from Welsh beaches. Health, education and the economy have been of prime concern to the Assembly but each political party has presented a different policy to address the problems and opportunities that we face. However, this issue has gained the united concern of people from all parties and backgrounds, whether they are young surfers in Porthcawl or members of the Women's Institute in Swansea.

I recently held a save our sands surgery at Limeslade beach outside Mumbles. Out of every issue for which the Assembly has responsibility, this one has galvanised more support than any. My postbag has been swamped with correspondence from across

Alun Cairns: Rhaid imi gyfaddef nad oes gennyf lawer i'w ddweud wrth y protocol a sefydlwyd ar gyfer y ddadl fer ac, felly, yr wyf yn barod i dderbyn ymyriadau a fydd yn caniatáu i fwy nag un Aelod gymryd rhan yn y ddadl.

Y Llywydd: Mae hynny'n groes i'r Rheol Sefydlog. Mae ein trefn yn caniatáu i'r siaradwr gwreiddiol siarad am gyfnod penodedig, heb iddo ef neu iddi hi gymryd ymyriadau. Ar ôl y cyfnod penodedig, caniateir i Aelod arall siarad. Gall yr Ysgrifennydd Cynulliad sydd yn ymateb i'r ddadl dderbyn ymyriadau.

Alun Cairns: Os felly, mae Peter Black, Val Feld a Dai Lloyd wedi gofyn am funud ac eglurais y byddwn yn croesawu ymyriadau ganddynt. Fodd bynnag, yr wyf yn ddigon bodlon dychwelyd i'r protocol safonol sydd yn caniatáu i bobl gyfrannu am funud ar ôl i'r siaradwr gwreiddiol orffen.

Ers cael ein hethol i'r Cynulliad 12 mis yn ôl, nid oes unrhyw fater wedi ennyn cymaint o bryder cyhoeddus ag erydu tywod oddi ar draethau Cymru. Bu iechyd, addysg a'r economi o'r pwys pennaf i'r Cynulliad ond mae pob plaid wleidyddol wedi cyflwyno polisi gwahanol i ymdrin â'r problemau a'r cyfleoedd a wynebwn. Fodd bynnag, mae'r mater hwn wedi ennyn pryder ymysg pobl o bob plaid a chefnidir, boed hwy'n syrffwyr ifanc ym Mhorthcawl neu'n aelodau o Sefydliad y Merched yn Abertawe.

Yn ddiweddar euthum i gymhorthfa achub y traethau ar draeth Limeslade y tu allan i'r Mwmbwls. O'r holl faterion y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, mae hwn wedi denu mwy o gefnogaeth na'r un arall. Bu fy mag llythyron yn orlawn o ohebiaeth o

the United Kingdom and I even received an e-mail last night from someone in Belgium.

Today, local activists in Swansea launch a website entitled www.Gower-sos.com. One hundred and two million tonnes of sand have been extracted from the Bristol Channel. That quantity is naturally difficult to imagine but it can be visualised if I equate it with sand on a four-and-a-half mile deep football field. One million tonnes of sand are being dredged per annum from the Nash Bank off Porthcawl and 150,000 tonnes from the Helwick Bank off Gower. Concerns lie around the applications to the Assembly Secretary by dredging companies to double the dredging from the Helwick Bank and to extend dredging from the Nash Bank by 10 years.

Sand is a limited resource and the banks have been there since the ice age. To rape our environment in such a way would be an abuse of all our privileges. An application for such a licence is not taken lightly. There have been concerns about dredging and its effect on our beaches for many years. The Welsh Office Minister, Gwilym Jones, commissioned a report into the issues. It was expected to take two years to be published but we have already been waiting for more than three.

There are two obvious reasons for concern and caution: one is to safeguard the environment and the other is to protect the economy of seaside resorts. However, it is more than that. Every Member from every political party in the Assembly is doing everything possible to sell a positive, modern image of Wales, and our coastline is a fundamental part of that.

5:02 p.m.

We now have some of the most beautiful beaches in Europe. Last week, the Marine Conservation Society—although its criterion was based on water quality—included 58 Welsh beaches in its *Good Beach Guide*. Such guides attract tens of thousands of visitors to Wales every year. Tourism is expected to be one of the economy's fastest

bob cwr o'r Deyrnas Unedig a neithiwr derbyniais e-bost gan rywun yng ngwlad Belg hyd yn oed.

Heddiw, mae ymgyrchwyr lleol yn Abertawe yn lansio safle gwe o dan yr enw www.Gower-sos.com. Mae 102 o filiynau o dunelli o dywod wedi eu cloddio o Fôr Hafren. Wrth reswm mae'n anodd dychmygu faint o dywod yw hynny ond gellir ei ddarlunio drwy ddweud ei fod yn cyfateb i dywod ar gae pêl-droed pedair milltir a hanner o ddyfnder. Mae miliwn o dunelli yn cael eu carthu y flwyddyn oddi ar Fanc yr As Fach gerllaw Porthcawl a 150,000 o dunelli oddi ar Fanc Helwick gerllaw Gŵyr. Mae pryderon ynglŷn â'r ceisiadau i'r Ysgrifennydd Cynulliad gan gwmnïau carthu i ddyblu'r carthu oddi ar Fanc Helwick ac i ymestyn y carthu oddi ar Fanc yr As Fach o 10 mlynedd.

Mae tywod yn adnodd cyfyngedig a bu'r banciau yno ers oes yr iâ. Drwy anrheithio ein hamgylchedd yn y fath fodd byddem yn camarfer ein holl freintiau. Nid yw cais am drwydded o'r fath i gael ei gymryd yn ysgafn. Bu pryderon ynglŷn â charthu a'i effaith ar ein traethau am flynyddoedd lawer. Comisiynodd y Gweinidog yn y Swyddfa Gartref, Gwilym Jones, adroddiad i'r materion. Y disgwyl oedd y byddai'n cymryd dwy flynedd i gael ei gyhoeddi ond buom yn disgwyl mwy na thair eisioes.

Mae dau reswm amlwg dros bryderu a bod yn ochelgar: y cyntaf yw diogelu'r amgylchedd a'r llall yw amddiffyn economi'r trefi glan môr. Fodd bynnag, mae'n fwy na hynny. Mae pob Aelod o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad yn gwneud popeth posibl i werthu delwedd gadarnhaol, fodern o Gymru, ac mae ein harfordir yn rhan annatod o hynny.

Erbyn hyn mae gennym rai o'r traethau harddaf yn Ewrop. Yr wythnos diwethaf, cynhwysodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol—er mai ar ansawdd y dŵr y seilir ei meini prawf—59 o draethau Cymru yn ei *Cyfeirlyfr Traethau Da*. Mae cyfeirlyfrau o'r fath yn denu degau o filoedd o ymwelwyr i Gymru bob blwyddyn. Disgwylir i

growing sectors. The Economic Development Committee has considered recommending increasing the budget of the Wales Tourist Board, but there is little point in doing so if the jewel in the tourism crown is being eroded.

I recently attended a briefing in Swansea in which the Assembly officials made a presentation of their research. I arrived at the meeting with the expectation that the research would underline the experiences of the many people who walk and use the beaches of Porthcawl and the Gower regularly. The presentation was based on the results of a great deal of sophisticated equipment, including laser monitoring of sand levels, sonar to establish the depth of water and sand, as well as aerial photographs monitoring our beaches. Although I accept that this type of monitoring and research is required, any individual with a personal experience of the beaches could have given a more accurate account. To my alarm, the officials claimed that there was more sand on the beaches today than there was five years ago—a claim which is rejected by local residents. Without doubt, rocks are now visible where they have never been seen before across much of the south Wales coastline.

At Rest Bay in Porthcawl, there is a two-foot step from the end of a concrete ramp leading to the beach. That was sunken when it was originally built. At Caswell Bay or Langland Bay outside Swansea, a far greater proportion of the coastline is made up of pebbles than ever before and at Three Cliffs Bay in Gower, the sand levels have dropped and mud is clearly visible. I mentioned the great response generated from the concerned public, and this morning I received an e-mail from an individual who has worked in the dredging industry for over 30 years. She told me that a short time ago, dredging pipes were 30-feet long; now they have had to extend them to 60 feet, which again underlines the feelings of local residents.

Whatever academic scientists claim and whatever explanations they try to offer, the reality is different. It was said that

dwrstiaeth fod yn un o'r sectorau cyflymaf ei dwf yn yr economi. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi ystyried argymhell cynyddu cyllideb Bwrdd Croeso Cymru, ond nid oes fawr o ddiben gwneud hynny os yw'r em yng nghoron twristiaeth yn cael ei herydu.

Yn ddiweddar mynychais gyfarfod briffio yn Abertawe lle rhoddodd swyddogion y Cynulliad gyflwyniad ar eu hymchwil. Cyrhaeddais y cyfarfod gan ddisgwyl y byddai'r ymchwil yn cyd-fynd â phrofiadau'r nifer o bobl sydd yn cerdded ac yn defnyddio traethau Porthcawl a Gŵyr yn rheolaidd. Seiliwyd y cyflwyniad ar ganlyniadau llawer iawn o gyfarpar soffistigedig, gan gynnwys monitro lefelau'r tywod â laser, sonar i sefydlu dyfnder y dŵr a'r tywod, yn ogystal â ffotograffau o'r awyr i fonitro ein traethau. Er fy mod yn derbyn bod angen y math hwn o fonitro ac ymchwil, gallai unrhyw unigolyn â phrofiad personol o'r traethau fod wedi rhoi darlun mwy cywir. Brawychwyd fi i glywed y swyddogion yn honni bod mwy o dywod ar y traethau yn awr nag oedd bum mlynedd yn ôl—honiad a wrthodir gan drigolion lleol. Yn ddiamheuaeth, mae creigiau i'w gweld yn awr lle nad ydynt wedi bod yn weladwy erioed o'r blaen ar draws llawer o arfordir de Cymru.

Ym Mae Rest ym Mhorthcawl, rhaid camu dwy droedfedd oddi ar ben ramp concret sydd yn arwain i'r traeth. Yr oedd wedi ei suddo i'w le pan adeiladwyd ef yn wreiddiol. Ym Mae Caswell neu Fae Langland y tu allan i Abertawe, mae llawer mwy o'r arfordir â cherrig mân arno nag erioed o'r blaen ac ym Mae Three Cliffs yng Ngŵyr, mae lefelau'r tywod wedi gostwng ac mae'r llaid i'w weld yn glir. Soniais am yr ymateb aruthrol oddi wrth y cyhoedd sydd yn poeni, a'r bore yma cefais e-bost gan unigolyn sydd wedi gweithio yn y diwydiant carthu am fwy na 30 mlynedd. Dywedodd wrthyf mai 30 troedfedd o hyd oedd y pibellau carthu ychydig yn ôl, yn awr mae'n rhaid eu hystyngi i 60 troedfedd, sydd eto'n tanlinellu teimladau trigolion lleol.

Beth bynnag a honnir gan wyddonwyr academiaidd a pha esboniadau bynnag y ceisiant eu cynnig, mae'r realiti yn wahanol.

thalidomide was safe. It was also said that asbestos did not cause cancer. Chernobyl was believed to be the safest nuclear power station in the world. Life is full of scientists being proved wrong.

At that meeting, the officials reported that it was a dynamic, complex environment, which we are all trying to understand. That says it all. We are all trying to understand; that is the main thrust of the argument. However, we do not understand the issue, and therefore the precautionary principle must be followed. Our responsibility is to prove that dredging affects the sand levels on our beaches. We all know that that is the case, but proving it in scientific terms is not as straightforward. Why cannot the responsibility be reversed so that sand-dredging companies must prove that the extraction is not having the detrimental effect with which we are familiar?

Research is financed by the dredging companies. It would be better for the Assembly to organise the research and for funds to be collected from the licence applications, thereby securing complete impartiality. The Assembly is criticised regularly for not being able to take action because of a lack of power or will. We can make a difference on this. The Assembly has the power and the authority to approve or reject these licence applications. We are all aware of the risk of court action by licence applicants, but if the legislation was framed in such a way as to place the obligation on the sand companies, then we would have a greater chance of securing the result that we wanted, namely, a ban on licences for increasing sand dredging.

Peter Black: It is important to stress that this campaign against sand dredging has all-party support. Members, MPs and councillors from all parties across south-west Wales have been concerned about the loss of sand, and like Alun, they have been trying to highlight that with the Assembly Secretary and other authorities.

I have been a member of Swansea council for 16 years and it has raised this matter on many

Dywedwyd bod thalidomid yn saff. Dywedwyd hefyd nad oedd asbestos yn achosi canser. Credid mai Chernobyl oedd yr orsaf pŵer niwclear mwyaf diogel yn y byd. Mae'r byd yn llawn gwyddonwyr sydd yn cael eu profi'n anghywir.

Yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd y swyddogion ei fod yn amgylchedd deinamig, cymhleth, y mae pawb ohonom yn ceisio ei ddeall. Mae hynny'n dweud y cwbl. Mae pawb ohonom yn ceisio deall, dyna brif fyrdwn y ddadl. Fodd bynnag, nid ydym yn deall y mater, ac felly rhaid dilyn yr egwyddor rhagofalu. Ein cyfrifoldeb ni yw profi bod carthu yn effeithio ar y lefelau tywod ar ein traethau. Gŵyr pawb ohonom mai dyna'r gwir, ond nid yw profi hynny mewn termau gwyddonol mor hawdd. Pam na ellir gwrthdroi'r cyfrifoldeb fel bod yn rhaid i gwmnïau carthu tywod brofi nad yw'r cloddio'n cael yr effaith niweidiol yr ydym yn gyfarwydd â hi?

Cyllidir yr ymchwil gan gwmnïau carthu. Byddai'n well i'r Cynulliad drefnu'r ymchwil a chasglu'r arian o'r ceisiadau trwyddedu, gan sicrhau felly ei bod yn gwbl ddiuedd. Beirniadir y Cynulliad yn rheolaidd am fethu â gweithredu oherwydd diffyg grym neu ewyllys. Gallwn wneud gwahaniaeth ar hyn. Mae gan y Cynulliad y grym a'r awdurdod i gymeradwyo neu wrthod y ceisiadau trwyddedu hyn. Mae pawb ohonom yn ymwybodol o'r risg o achos llys gan ymgeiswyr am drwyddedau, ond pe câi'r ddeddfwriaeth ei llunio yn y fath fodd ag i roi gorfodaeth ar y cwmnïau tywod, yna byddai gennym fwy o obaith o sicrhau'r canlyniad yr ydym yn ei ddymuno, sef gwaharddiad ar drwyddedau i garthu mwy o dywod.

Peter Black: Mae'n bwysig pwysleisio bod i'r ymgyrch hon yn erbyn carthu tywod gefnogaeth o bob plaid. Mae Aelodau, ASau a chynghorwyr o bob plaid ar draws de-orllewin Cymru wedi bod yn poeni am golli tywod ac, fel Alun, maent wedi bod yn ceisio tynnu sylw at hynny gyda'r Ysgrifennydd Cynulliad ac awdurdodau eraill.

Bûm yn aelod o gyngor Abertawe am 16 mlynedd ac mae wedi codi'r mater hwn ar

occasions in the past when dredging licences came before it. It is important to apply the precautionary principle because over 100 million tonnes of sand have been removed from the Bristol Channel since 1955. The impact of that amount of material being removed is seen on beaches in Gower and Porthcawl and on other beaches along the south-west Wales coast. I hope that this debate, which was initiated by Alun, can have an impact on considering future dredging licenses.

Val Feld: This is a vital issue for everybody in Swansea and for many people outside Swansea who value the Gower coast. Those of us who have lived there and walked on those beaches know that there is a major problem. Sand is disappearing from them. The key issue is why. We must get to the bottom of that. Although I hope that we will be able to prevent an extension of the dredging, it is equally important that we continue to investigate and put resources into discovering what this is about. We must find out whether it is just dredging or whether, as appears more likely, a range of factors contribute to the impact on our coastline right down the Severn estuary.

Local people have fought this over a long period. I am sorry to bring a note of dissent into this discussion but I remind Alun that the original planning application in the early 1990s was opposed by the local authorities in that area, all of which were Labour. A Conservative Secretary of State for Wales agreed to it and put no conditions on it. The lack of conditions on that application is a major problem. We must find a way forward and I am delighted that we are all on side about this and that we are looking for a way forward. However, we must recognise that the planning laws, as they stand, place us in a difficult position. I have absolute faith in Sue and in her ability to help us find a way through this. However, we must recognise that this is a long-term issue that we must tackle probably right along the south Wales coast.

David Lloyd: I am happy to support this, as a resident of Swansea for the last 16 years and as a witness that the beaches are being

sawll achlysur yn y gorffennol pan ddaeth trwyddedau carthu ger ei fron. Mae'n bwysig arfer yr egwyddor rhagofalu oherwydd mae dros 100 miliwn o dunelli o dywod wedi eu tynnu o Fôr Hafren ers 1955. Mae effaith tynnu cymaint â hynny o ddeunydd i'w weld ar draethau yng Ngŵyr a Phorthcawl ac ar draethau eraill ar hyd arfordir de-orllewin Cymru. Gobeithiaf y gall y ddadl hon, a ysgogwyd gan Alun, gael dylanwad wrth ystyried trwyddedau carthu i'r dyfodol.

Val Feld: Mae hwn yn fater holl bwysig i bawb yn Abertawe ac i lawer o bobl y tu allan i Abertawe sydd yn gwerthfawrogi arfordir Gŵyr. Mae'r rheini ohonom sydd wedi byw yno ac wedi cerdded ar y traethau yn gwybod bod problem fawr. Mae tywod yn diflannu oddi arnynt. Y cwestiwn allweddol yw pam. Rhaid inni fynd at wraidd hynny. Er fy mod yn gobeithio y gallwn rwystro estyniad i'r carthu, mae yr un mor bwysig inni barhau i ymchwilio a rhoi adnoddau i mewn i ganfod gwraidd y mater. Rhaid inni ganfod ai dim ond y carthu yw neu, fel sydd yn ymddangos yn fwy tebygol, a oes ystod o ffactorau'n cyfrannu at yr effaith ar ein harfordir yr holl ffordd i lawr moryd Hafren.

Mae pobl leol wedi ymladd hyn dros gyfnod hir. Mae'n ddrwg gennyf ddod â nodyn o anghytuno i mewn i'r drafodaeth ond atgoffaf Alun i'r cais cynllunio gwreiddiol yn y 1990au cynnar gael ei wrthwynebu gan yr awdurdodau lleol yn yr ardal honno, pob un ohonynt yn Llafur. Cytunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru Ceidwadol iddo ac ni roddodd unrhyw amodau arno. Mae'r ffaith nad oes amodau ar y cais hwnnw yn broblem fawr. Rhaid inni ganfod ffordd ymlaen ac yr wyf wrth fy modd ein bod i gyd yn cydsymud ar hyn ac yn chwilio am ffordd ymlaen. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod y cyfreithiau cynllunio, fel y maent, yn ein rhoi mewn sefyllfa anodd. Mae gennyf ymddiriedaeth lwyr yn Sue a'i gallu i'n helpu i ganfod ffordd drwy hyn. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod hwn yn fater tymor hir y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef ar hyd arfordir de Cymru mae'n debyg.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o gefnogi hyn, fel rhywun a fu'n byw yn Abertawe am yr 16 mlynedd diwethaf ac fel tyst bod y traethau

denuded of sand. That is the basic effect of this and that is why I speak on behalf of everyone who is concerned about Gower's disappearing beaches.

To add a new dimension to the argument, would Sue Essex consider funding a long-term coastal survey of the whole south Wales coast—the whole area allegedly affected by commercial sand dredging? Wirral Metropolitan Borough Council does that and could give us invaluable advice on the most cost-effective way of carrying out such a survey. Whatever the results of environmental reports, there is no substitute for a long-term survey of the south Wales coast. We do not have that, but we need that information to settle this argument once and for all.

Sue Essex: This is an important issue for local Members and the public, but also for everybody in Wales. The beaches, particularly those around the Gower, are important to many people. They have meant many years of enjoyment.

Our approach to matters in future will be different to that in the past. If I have my way, we will consider the method of conserving natural resources and how we develop those in a sustainable way. That would be a big cultural difference to how we developed natural resources in the past. They have been developed very much in response to the market. Over the next couple of years, we can establish a way forward for the future. I accept Dai's suggestion. We must include an element of knowledge and ensure much more certainty, but do our best to safeguard economic development while protecting natural resources.

Returning to the current situation, we have inherited past decisions on licenses, which make life difficult. We must consider that carefully. To help us through these difficult decisions, we have accumulated and are accumulating a great deal of survey information such as beach profiles, a study of the banks and an aerial coastal survey. Nowhere else has been surveyed and monitored as much as the south Wales coast.

yn cael eu dinoethi o dywod. Dyna yw effaith sylfaenol hyn a dyna pam yr wyf yn siarad ar ran pawb sydd yn poeni bod traethau Gŵyr yn diflannu.

I ychwanegu dimensiwn newydd at y ddadl, a fyddai Sue Essex yn ystyried cyllido arolwg arfordirol tymor hir o holl arfordir de Cymru—yr ardal gyfan yr honnir bod carthu tywod yn fasnachol yn effeithio arni? Mae Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Cilgwri yn gwneud hynny a gallai roi cyngor amhrisiadwy inni ar y ffordd fwyaf cost-effeithiol o gynnal arolwg o'r fath. Beth bynnag yw canlyniadau'r adroddiadau amgylcheddol, nid oes dim y gellir ei gymharu ag arolwg tymor hir o arfordir de Cymru. Nid yw hynny gennym, ond mae angen yr wybodaeth honno arnom i dorri'r ddadl hon unwaith ac am byth.

Sue Essex: Mae hwn yn fater pwysig i Aelodau lleol a'r cyhoedd, ond hefyd i bawb yng Nghymru. Mae'r traethau, yn enwedig y rheini yng nghyffiniau Gŵyr, yn bwysig i lawer o bobl. Maent wedi golygu blynyddoedd lawer o fwynhad.

Byddwn yn ymdrin â materion yn wahanol yn y dyfodol i'r hyn a wnaethpwyd yn y gorffennol. Os caf fi fy ffordd, byddwn yn ystyried y dull o gadw adnoddau naturiol a sut mae datblygu'r rheini mewn ffordd gynaliadwy. Byddai hynny'n wahaniaeth diwylliannol mawr i'r ffordd y datblygasom adnoddau naturiol yn y gorffennol. Maent wedi eu datblygu mewn ymateb i'r farchnad i raddau helaeth. Dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, gallwn sefydlu ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Derbyniaf awgrym Dai. Rhaid inni gynnwys elfen o wybodaeth a sicrhau llawer mwy o sicrwydd, ond gwneud ein gorau i ddiogelu datblygiad economaidd tra'n gwarchod adnoddau naturiol.

I ddod yn ôl at y sefyllfa gyfredol, yr ydym wedi etifeddu penderfyniadau'r gorffennol ar drwyddedau, sydd yn gwneud bywyd yn anodd. Rhaid inni ystyried hynny'n ofalus. I'n helpu drwy'r penderfyniadau anodd hyn, yr ydym wedi casglu ac yn casglu llawer o wybodaeth arolwg megis proffiliau traethau, astudiaeth o'r banciau ac arolwg arfordirol o'r awyr. Nid oes unrhyw le wedi ei arolygu a'i fonitro gymaint ag arfordir de Cymru.

This information will be available for presentation. It is available now if Members want to see it. I have spoken to officials and some of it is in paper form and some on a geographic information system. If people want to see that now, please go ahead and do so.

5:12 p.m.

Jane Davidson: The *South Wales Echo* reports that I disappear to the Gower almost every weekend when I can, so I can also testify to having seen the sand disappear. I am pleased that you talk about this survey. In your closing speech, will you say whether other parts of Wales are experiencing similar problems? I am concerned that we are working in evidence-based politics. If we are going to do this, and dredging is the problem, I would be opposed to continuation. However, I want to be sure that the issue is being addressed across Wales, as Dai Lloyd suggests, in a coastal survey, so that we can be sure that any action taken and finance put forward by the Assembly tackles the problem and ensures that we do not lose more sand from our beaches in the Gower.

Sue Essex: That is the point and I will go into it in more detail. Other areas are losing sand. In Ynys Môn, there is a real problem on Newborough sands where there is no dredging and the beach has disappeared. Unfortunately, beaches in the UK have disappeared. You are right. We must be sensible and rational, consider the evidence and try to understand what is happening, as Val said, we need to understand, but it is not easy. We can then make rational decisions about the future.

Sand is dredged from the Bristol Channel and elsewhere, and sandpits are sunk, because commercially, we need sand. I do not know if Alun Cairns has laid a patio using sand. The Cardiff Bay barrage that his party strongly supported used a lot of sand from the Bristol Channel. I said that because we need and use sand. If we do not take it from there—and I understand your points—we would have to look for it elsewhere. It is extracted for commercial reasons. Therefore, we must

Bydd yr wybodaeth hon ar gael i'w chyflwyno. Mae ar gael yn awr os yw Aelodau am ei gweld. Siaradais â'r swyddogion ac mae peth ohoni ar ffurf papur a pheth ar system gwybodaeth ddaearyddol. Os yw pobl am weld hynny yn awr, mae croeso ichi wneud hynny.

Jane Davidson: Dywed y *South Wales Echo* fy mod i'n diflannu i Gŵyr bob penwythnos bron pan fedraf, felly gallaf finnau dystio imi weld y tywod yn diflannu. Yr wyf yn falch eich bod yn sôn am yr arolwg hwn. Yn eich araith gloi, a ddywedwch a yw rhannau eraill o Gymru yn wynebu problemau cyffelyb? Yr wyf yn poeni ein bod yn gweithio mewn gwleidyddiaeth seiliedig-ar-dystiolaeth. Os ydym yn mynd i wneud hyn, ac mai carthu yw'r broblem, byddwn yn gwrthwynebu parhau. Fodd bynnag, yr wyf am fod yn siŵr bod y mater yn cael sylw ar draws Cymru, fel yr awgryma Dai Lloyd, mewn arolwg arfordirol, fel y gallwn fod yn siŵr bod unrhyw gamau a gymerir a chyllid a roddir gan y Cynulliad yn mynd i'r afael â'r broblem ac yn sicrhau nad ydym yn colli mwy o dywod o'n traethau yng Ngŵyr.

Sue Essex: Dyna'r pwynt a byddaf yn mynd iddo mewn mwy o fanylder. Mae ardaloedd eraill yn colli tywod. Yn Ynys Môn, mae problem wirioneddol ar draeth Niwbwrch lle na cheir carthu ac mae'r traeth wedi diflannu. Yn anffodus, mae traethau yn y DU wedi diflannu. Yr ydych yn iawn. Rhaid inni fod yn synhwyrol a rhesymegol, ystyried y dystiolaeth a cheisio deall beth sydd yn digwydd. Fel y dywedodd Val, mae angen inni ddeall, ond nid yw'n hawdd. Wedyn gallwn wneud penderfyniadau rhesymegol ynglŷn â'r dyfodol.

Caiff tywod ei garthu o Fôr Hafren a manau eraill, a chaiff pyllau tywod eu suddo, oherwydd yn fasnachol, mae angen tywod arnom. Ni wn i a yw Alun Cairns wedi gosod patio gan ddefnyddio tywod. Defnyddiodd morglawdd Bae Caerdydd, a gefnogwyd gan ei blaid ef, lawer o dywod o Fôr Hafren. Dywedaf hynny am fod angen tywod arnom a'n bod yn ei ddefnyddio. Os na chymerwn ef o'r fan honno—a deallaf eich pwyntiau—byddai'n rhaid inni chwilio amdano yn

consider what happens in the economy.

In terms of us giving an opinion on the licence, we give a Government view, but the Crown Estates gets the money from the dredging and it will make the decision. It is a complicated situation. When people talk about a dynamic coast, that is the reality. Taking the dredging to one side, we cannot control the coast.

Edwina Hart: I attended the meeting in Swansea when we discussed dredging and the alleged scientific evidence. Martin Caton, MP organised the meeting of my constituents and myself, and I have enormous concerns. The local people spoke about their expertise on the coastline and what they have seen during a lifetime in terms of tide patterns and what happens to the sand at certain times of the year. Do you agree that local people have walked those beaches for 60 or 70 years and they have a good understanding of dredging issues?

Sue Essex: I was pleased to come to Gower that day and talk to you, Martin, residents and members of the civic society. They kept a log over a long time. It was interesting to note the differential changes around the Gower. We walked on Port Eynon that day, which showed areas of rock and bareness. I then went to Mewslade, which had thick sand, so there are several patterns there, which we need to understand. There are natural processes that none of us can control. Alun Cairns's point is that we must look at what man is doing, or in view of our debate on equality of opportunity, what woman is doing, or we, as humanity, are doing to ensure that our decisions are made in a way that does not damage our precious environment.

We will consider the precautionary principle issue, as Peter said, and take advice on it. My understanding at present is that the precautionary principle must be based on a degree of knowledge and proven evidence. We will be looking at that. I am looking forward to the presentation of information that is available. I want all Members and

rhywle arall. Caiff ei gloddio am resymau masnachol. Felly, rhaid inni ystyried yr hyn sydd yn digwydd yn yr economi.

O ran ein bod ni yn rhoi barn ar y drwydded, rhoddwn farn Llywodraeth, ond Ystadau'r Goron sydd yn cael yr arian o'r carthu a hwy fydd yn gwneud y penderfyniad. Mae'n sefyllfa gymhleth. Pan fo pobl yn siarad am arfordir deinamig, dyna'r realiti. A rhoi'r gwaith carthu i un ochr, ni allwn reoli'r arfordir.

Edwina Hart: Bûm yn y cyfarfod yn Abertawe pan oeddem yn trafod carthu a'r dystiolaeth wyddonol honedig. Trefnwyd y cyfarfod o'm hetholwyr a minnau gan Martin Caton, AS, ac mae gennyf bryderon mawr. Siaradodd y bobl leol am eu gwybodaeth arbenigol am yr arfordir a'r hyn y maent hwy wedi ei weld mewn oes o ran patrymau'r llanw a'r hyn sydd yn digwydd i'r tywod ar wahanol adegau o'r flwyddyn. A ydych yn cytuno bod pobl leol wedi cerdded y traethau am 60 neu 70 o flynyddoedd a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion carthu?

Sue Essex: Yr oeddwn yn falch o ddod i Gŵyr y diwrnod hwnnw i siarad â chi, Martin, trigolion ac aelodau o'r gymdeithas ddinesig. Cadwent lög am gyfnod hir. Yr oedd yn ddiddorol nodi'r newidiadau gwahanredol o amgylch Gŵyr. Buom yn cerdded ar Borth Eynon y diwrnod hwnnw, a ddangosai leiniau o graig a noethni. Yna euthum i Mewslade, sydd â thywod trwchus, felly mae sawl patrwm yno, y mae angen inni eu deall. Mae prosesau naturiol na all neb ohonom eu rheoli. Pwynt Alun Cairns yw bod yn rhaid inni edrych ar yr hyn y mae dyn yn ei wneud, neu yn wyneb ein dadl ar gydraddoldeb cyfle, yr hyn y mae menyw yn ei wneud, neu yr ydym ni, fel dynoliaeth, yn ei wneud i sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd nad yw'n difrodi ein hamgylchedd gwerthfawr.

Byddwn yn ystyried yr egwyddor rhagofalu, fel y dywedodd Peter, ac yn cymryd cyngor ar hynny. Fy nealltwriaeth ar hyn o bryd yw bod yn rhaid seilio'r egwyddor rhagofalu ar rywfaint o wybodaeth a thystiolaeth a brofwyd. Byddwn yn edrych ar hynny. Edrychaf ymlaen i'r wybodaeth sydd ar gael gael ei chyflwyno. Yr wyf am i'r holl

members of the public to be able to see the information that is being collected, as it is a lot of work. The Bristol Channel marine aggregate study will be introduced in September, which looks at the Bristol Channel as a whole, as there is also capacity within the deep-sea channels. At the end of this, I hope that we will at least be able to make an informed decision. I know that around the Gower and along the Nash in Carwyn's area people are desperately concerned about their beaches. We can understand why. They have been a great source of pleasure for many years. That will be uppermost in our minds when we make the decision.

Aelodau ac aelodau'r cyhoedd allu gweld yr wybodaeth sydd yn cael ei chasglu, gan ei fod yn llawer o waith. Caiff astudiaeth agregau morol Môr Hafren ei chyflwyno ym mis Medi, gan edrych ar Fôr Hafren yn ei gyfanrwydd, gan fod posibiladau o fewn sianeli'r dyfnfor hefyd. Ar ddiwedd hyn, gobeithiaf y byddwn o leiaf yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Gwn fod pobl yn poeni'n ddirfawr am eu traethau o amgylch Gŵyr ac ar hyd yr As Fach yn ardal Carwyn. Gallwn ddeall pam. Buont yn ffynhonnell pleser am flynyddoedd lawer. Bydd hynny yn flaenaf yn ein meddyliau wrth inni wneud y penderfyniad.

Pwynt o Drefn Point of Order

Peter Black: We have debated and voted on the Local Authorities (Members' Allowances) (Amendment) (Wales) Regulations 2000. Due to a lapse in concentration on my part I failed to declare an interest as a member of Swansea City and County Council. I seek to have that put on record if possible.

Peter Black: Yr ydym wedi trafod a phleidleisio ar Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000. Am i'm meddwl grwydro am ennyd, ni ddatganais fuddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Hoffwn gael cofnodi hynny os yn bosibl.

The Presiding Officer: Are there any further declarations?

Y Llywydd: A oes unrhyw ddatganiadau pellach?

David Lloyd: I also declare an interest.

David Lloyd: Yr wyf finnau hefyd yn datgan buddiant.

The Presiding Officer: That was not in order. Interest is to be declared before a vote in future.

Y Llywydd: Nid oedd hynny mewn trefn. Rhaid datgan buddiant cyn pleidlais yn y dyfodol.

Dyna ddiwedd y sesiwn am heddiw a diwedd cyfarfodydd y Cynulliad am y tymor hwn, ac eithrio ein bod yn ailymgynnull am gyfarfod arbennig yr wythnos nesaf.

That is the end of today's session and the end of Plenary for this term, apart from the fact that we will reconvene for a special meeting next week.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 p.m.
The session ended at 5.20 p.m.*